Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
67/2024
Dyddiad Cyhoeddi:
24/10/2024

# Gwerthusiad o’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-514-7

Gwerthusiad o’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Awduron: Eva Trier ac Endaf Griffiths, Wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Trier, E; Griffiths, E; (2024). *Gwerthusiad o’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 67/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-datblygu-cadwyni-cyflenwi-chydweithio

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r canlynol:
Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Rhestr cynnwys

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ....................................................4
1. Cyflwyniad/Cefndir ....................................................5
Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS) ....................................................5
Y gwerthusiad....................................................5
Strwythur yr adroddiad ....................................................6
2. Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio ....................................................4
Diben y cynllun....................................................4
Gweithgareddau cymwys ....................................................6
Gweithredu'r cynllun....................................................9
3. Methodoleg ....................................................12
Fframwaith y gwerthusiad....................................................12
Problemau argaeledd data ....................................................16
Offer methodolegol....................................................18
4. Prosesau'r CSCDS....................................................25
Marchnata ac allgymorth ....................................................26
Ffenestri a phrosesau ymgeisio....................................................30
Monitro ac adrodd ....................................................38
Y broses hawlio ....................................................40
5. Perfformiad y CSCDS ....................................................43
Cyllid y CSCDS a ddyfarnwyd ....................................................43
Cyflawni targedau....................................................43
Effeithiolrwydd gweithgareddau cydweithredu....................................................46
Canlyniadau'r CSCDS ....................................................56
Canlyniadau mesuradwy ....................................................57
Cydweddiad strategol ....................................................65
6. Gwerth am arian....................................................68
Diffinio gwerth am arian y CSCDS ....................................................68
Dimensiynau gwerth am arian ....................................................68

Asesiad cyffredinol o werth am arian....72
7. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ....74
Marchnata’r cynllun a chymorth i ddatblygu prosiectau....74
Rheoli prosiectau a’r adrodd arnynt....76
Gwneud y gorau posibl o ganlyniadau ac effeithiau prosiectau....77

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Prif fanylion is-fesur 16.2 .......... 8
Tabl 2.2: Prif fanylion is-fesur 16.4 .......... 8
Tabl 2.3: Prif fanylion is-fesur 16.8 .......... 9
Tabl 3.1: Prosiectau'r CSCDS sydd yn y meta-adolygiad .......... 20
Tabl 4.1: Arweinwyr prosiectau'r CSCDS – mathau o sefydliadau .......... 28
Tabl 4.2: Arweinwyr prosiectau'r CSCDS – sector gweithgarwch .......... 29
Tabl 4.3: Cyfansoddiad sectorau portffolio prosiectau'r CSCDS .......... 29
Tabl 4.4: Gwerth dangosol dyfarniadau cyllid i brosiectau'r CSCDS .......... 30
Tabl 4.5: Lefel ddangosol y grant a dalwyd fesul prosiect erbyn 24 Hydref 2022 .......... 41
Tabl 5.1: Allbynnau 16.2 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu .......... 44
Tabl 5.2: Allbynnau 16.4 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu .......... 44
Tabl 5.3: Allbynnau 16.8 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu .......... 45
Tabl 5.4: Mathau o allbynnau'r prosiectau sydd yn y meta-adolygiad .......... 47
Tabl 5.5: Mathau o allbynnau'r prosiectau sydd yn y meta-adolygiad .......... 50
Tabl 5.6: Canlyniadau mesuradwy'r Theori Newid y mae prosiectau'r CSCDS wedi esgor arnynt .......... 57
Tabl 5.7: Canlyniadau ehangach y Theori Newid y mae prosiectau'r CSCDS wedi esgor arnynt .......... 60

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 3.1: Theori Newid ar gyfer is-fesur 16.2 – Prosiectau peilot a datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau .......... 13
Ffigur 3.2: Is-fesur 16.4 – Cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol .......... 14
Ffigur 3.3: Theori Newid ar gyfer is-fesur 16.8 – Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth .......... 15
Ffigur 3.4: Meini prawf gwerth am arian .......... 24

**Geirfa**

| **Talfyriad/Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AMR | Ymwrthedd gwrthficrobaidd |
| BBaChau | Busnesau Bach neu Ganolig eu Maint |
| CAP | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| CRM | Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid |
| CSCDS | Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EIP | Partneriaeth Arloesi Ewrop |
| ENRAW | Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant |
| EoI | Datganiad o Ddiddordeb |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ERAMMP | Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| LAG | Grŵp Gweithredu Lleol LEADER |
| OPM | Oxford Policy Management |
| PIMMS | System Monitro a Rheoli Gwybodaeth am Brosiectau |
| RDP | Cynllun Datblygu Gwledig |
| RPW | Taliadau Gwledig Cymru |
| SMU | Yr Uned Rheoli Cynlluniau |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| ToC | Theori Newid |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| VfM | Gwerth am arian |
| WRN | Rhwydwaith Gwledig Cymru |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

**Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS)**

1.1 Mae’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig (RDP) 2014–2020, ac yn dod o dan Fesur 16: Cydweithredu (Erthygl 35 o Reoliadau’r Cyngor (UE) 1305/2013)[1].

1.2 Cynlluniwyd y cynllun i gefnogi amcanion RDP 2014-2020 ar draws pob un o’r chwe maes blaenoriaeth gan fod â ffocws ar feithrin gallu ac ysgogi llesiant cymunedol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, ynghyd ag arloesi a chydweithio. Fe’i cyflwynir trwy gyfres o is-fesurau, pob un yn canolbwyntio ar fath arbennig o gydweithredu. Mae’r CSCDS yn rhoi cymorth cyfalaf a refeniw o adeg sefydlu prosiectau hyd at eu gweithredu, eu lledaenu a’u gwerthuso.

**Y gwerthusiad**

1.3 Mae’r gwerthusiad hwn yn ymdrin â thri is-fesur yr CSCDS[2] o dan Fesur 16, sef:

- 16.2 – Cymorth i brosiectau peilot a chymorth i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd
- 16.4 – Cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi a’r marchnadoedd lleol a chymorth i hyrwyddo gweithgareddau mewn cyd-destun lleol sy’n gysylltiedig â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol
- 16.8 – Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth.

1.4 Nod y gwerthusiad oedd darparu asesiad annibynnol o weithrediad y cynllun a’i effaith er mwyn helpu i lywio penderfyniadau sy’n cefnogi cynlluniau domestig tebyg yng Nghymru ar ôl i RDP 2014–2020 ddod i ben.

1.5 Dyma brif amcanion y gwerthusiad fel y’u nodwyd gan Lywodraeth Cymru:

---

[1] Dylid nodi er bod cyfnod y rhaglen yn rhedeg tan ddiwedd 2020, gellir gwario hyd at ddiwedd 2023 oherwydd yr hyn a elwir yn rheol N+3, sy’n berthnasol i raglenni a ariennir gan Ewrop.

[2] Roedd Ffenestri 8 a 9 y CSCDS, a oedd wedi ariannu 22 prosiect yn uniongyrchol o dan Gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRAW) yr RDP, wedi’u trafod mewn gwerthusiad gwahanol ac felly nid ydynt yn destun i’r ymchwil hwn.

- archwilio effeithiolrwydd y broses ymgeisio (gan gynnwys y datganiad o ddiddordeb), y broses penderfynu a’r gwerthuso
- asesu lefel yr ymgysylltu â buddiolwyr y cynllun (e.e. busnesau/sefydliadau sy’n derbyn cyllid grant yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol), sefydlu proffil buddiolwyr a llwybrau i mewn i’r cynllun
- asesu i ba raddau y mae portffolio’r prosiectau a ariennir yn cydweddu’n strategol ag amcanion cyffredinol y cynllun
- archwilio pa mor effeithiol y cafodd y cynllun ei reoli, gan gynnwys y broses hawlio, systemau monitro, cyfathrebu, ac argaeledd cymorth ar ôl dyfarnu cyllid
- asesu cynnydd y CSCDS o ran cyflawni’r targedau a osodwyd ar gyfer y cynllun
- asesu a gwerthuso effaith gyffredinol y cynllun
- archwilio a darparu, lle bo’n ymarferol, asesiad economaidd o werth am arian y cynllun
- asesu i ba raddau y mae prosiectau yn cyd-fynd ag RDP 2014-2020 ac amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a’r UE (Undeb Ewropeaidd)
- cynnig argymhellion a gwersi a ddysgwyd er mwyn helpu i ffurfio’r dystiolaeth a fydd yn cyfrannu at benderfyniadau yn ymwneud â buddsoddi mewn cynlluniau tebyg yn y dyfodol.

**Strwythur yr adroddiad**

1.6 Yn yr adroddiad ceir:

- cyflwyniad byr i’r CSCDS yn Adran 2
- trosolwg o’r fethodoleg yn Adran 3
- dadansoddiad o berfformiad y CSCDS yn Adran 4
- trafodaeth ar y prosesau a ddefnyddiwyd i weinyddu’r cynllun yn Adran 5
- asesiad gwerth am arian a chasgliad yn Adran 6
- gwersi allweddol a ddysgwyd a nifer o argymhellion yn Adran 7.

1.7 Mae Adroddiad Technegol ar wahân wedi'i lunio sy'n cynnwys yr atodiadau i'r prif adroddiad hwn, gan gynnwys:

- rhestr o brosiectau a gafodd gyllid
- y fframwaith gwerthuso a ddatblygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn
- yr offer ymchwil
- astudiaethau achos prosiect.

1.8 Pan fo cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at wybodaeth mewn atodiad, mae i'w weld yn yr Adroddiad Technegol.

## 2. Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

### Diben y cynllun

2.1 Wedi'i gyflwyno o dan Erthygl 35 Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd[3] Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), roedd y Mesur Cydweithredu (Mesur 16) yn ceisio ymestyn ac adeiladu ar ddarpariaethau a gynlluniwyd i hyrwyddo a chefnogi cydweithredu yn ystod cyfnod rhaglenni blaenorol 2007–2013.

2.2 Y 'weledigaeth' ar gyfer y cynllun, fel y nodwyd yng nghanllawiau'r cynllun,[4] oedd y 'dylai busnesau, sefydliadau a chymunedau gydweithio i fod yn fwy cydnerth drwy fynd i'r afael â materion fel:

- tlodi gwledig
- cynaliadwyedd ariannol
- newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd
- tlodi mewn gwaith ac allgáu cymdeithasol.'

2.3 Mae'r canllawiau yn rhoi ffocws ar y canlynol:

- meithrin gallu
- gweithredu fel catalydd ar gyfer ymyriadau pellach
- datblygu gweledigaethau a rennir
- adeiladu ar egwyddorion LEADER – arloesedd a gweithredu cynlluniau peilot
- ysgogi llesiant cymunedol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- datblygu dull o gydweithio i hyrwyddo integreiddio fertigol a llorweddol yn yr economi wledig ehangach.

2.4 Cynlluniwyd y CSCDS i fod yn eang ac i weithio tuag at bob un o chwe blaenoriaeth RDP Cymru. Mae enghreifftiau penodol o'r gweithgareddau y byddai'r cynllun yn eu cefnogi i'w gweld yn y canllawiau ac maent yn rhoi syniad o'r ystod eang o weithgareddau sy'n gymwys ar gyfer cymorth fel rhan o'r cynllun:

- cefnogi cydweithio ar gynhyrchion newydd, prosesau newydd neu arferion newydd, yn cynnwys y rhai sy'n gofyn am newidiadau technoleg

[3] Rheoliad (UE) rhif 1305/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor 17 Rhagfyr 2013 ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan yr EAFRD a diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1698/2005 (2013) Cyfnodolyn Swyddogol 347, ar gael yn: Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac sy'n diddymu Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 1698/2005 (Aethpwyd iddo: 15/05/2023).

[4] Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: canllawiau | LLYW.CYMRU

- helpu gweithredwyr bychain mewn ardaloedd gwledig i sicrhau arbedion maint gyda'i gilydd nad yw'n bosibl os ydynt yn gweithredu ar eu pen eu hunain drwy gefnogi'r llwyth gwaith cydweithredol o drefnu prosesau cydweithio, rhannu cyfleusterau ac adnoddau
- cynyddu proffidioldeb a chydnerthedd busnesau bach a chanolig unigol sy'n cymryd rhan drwy gydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi, ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol
- rheoli priddoedd i helpu i warchod stociau carbon a lleihau erydiad
- gwella ansawdd dŵr, lleihau dŵr ffo a rheoli dŵr i helpu i leihau'r perygl o lifogydd
- gwarchod a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
- rheoli a diogelu tirweddau a'r dirwedd hanesyddol
- cefnogi dulliau ar y cyd i liniaru neu addasu i newid yn yr hinsawdd
- cefnogi dulliau ar y cyd o gynnal prosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus
- darparu biomas i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol – nid yw'n mynd mor bell â chefnogi cynhyrchu
- cefnogi astudiaethau dichonoldeb i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol
- cefnogi cydweithredu sydd o natur gymdeithasol yn bennaf sy'n defnyddio ffermio i sicrhau manteision amrywiol i gymdeithas drwy gydweithio, ac felly hefyd yn cynnig cyfleoedd incwm newydd i deuluoedd sy'n ffermio.

2.5 Disgrifir y CSCDS i fod wedi'i gynllunio i 'wneud i bethau ddigwydd', gyda chymorth ar gael ar gyfer cwmpas llawn prosiect, o'r camau cychwynnol hyd at gyflawni ac ymlaen i'r camau lledaenu a gwerthuso, a chefnogi datblygu rhwydweithiau a chlystyrau newydd sy'n gysylltiedig â chynnal prosiectau penodol.

2.6 Cyflwynwyd y cynllun drwy gyfres o is-fesurau fel a ganlyn, er mai dim ond mesurau 16.2, 16.4 a 16.8 a drafodir yn y gwerthusiad hwn:

- 16.1 – cymorth i sefydlu a rhedeg grwpiau gweithredol Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) ar gyfer cynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol
- 16.2 – cymorth i brosiectau peilot ac ar gyfer datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd
- 16.3 – cydweithio ymysg gweithredwyr bychain i drefnu prosesau gwaith ar y cyd a rhannu cyfleusterau ac adnoddau, ac i ddatblygu a marchnata twristiaeth

- 16.4 – cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi a'r marchnadoedd lleol ac i hyrwyddo gweithgareddau mewn cyd-destun lleol sy'n gysylltiedig â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol
- 16.5 – cymorth ar gyfer gwaith ar y cyd a wneir gyda'r nod o liniaru neu addasu i newid yn yr hinsawdd, ac ar gyfer dulliau o gydweithio ar brosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus
- 16.6 – cymorth ar gyfer cydweithio ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi er mwyn darparu biomas yn gynaliadwy i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol
- 16.7 – cymorth i arallgyfeirio gweithgareddau ffermio i weithgareddau sy'n ymwneud â gofal iechyd, integreiddio cymdeithasol, amaethyddiaeth gyda chefnogaeth y gymuned ac addysg am yr amgylchedd a bwyd
- 16.8, cynlluniwyd y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth i gefnogi gweithredu cydgysylltiedig a chydweithredol ar y raddfa gywir, i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella'r gwasanaethau y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig. Gan ategu Glastir,[5] y bwriad oedd cefnogi prosiectau sy'n annog cynllunio ar raddfa fawr a strategol ar gyfer creu coetir, ac/neu gyfrannu at gyflawni amcanion Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP).

**Gweithgareddau cymwys**

2.7 Roedd y gweithgareddau canlynol yn gymwys o dan y cynllun:

- Prosiectau peilot – dylid deall bod y term hwn yn cyfeirio at "brosiectau prawf". Wrth reswm, gall prosiect peilot fod yn rhan o broses "ddatblygu" fwy. Sylwer nad yw'r prosiectau peilot yn cael eu cyfyngu i unrhyw sector penodol: felly, gellid ystyried rhoi cymorth i brosiectau "arbrofol" sydd y tu allan i'r sector bwyd-amaeth a'r sector coedwigaeth ond sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi datblygu gwledig. Pan ariennir prosiect peilot nad yw'n cynnwys cydweithio,

[5] Cynllun rheoli tir cynaliadwy ar gyfer y fferm gyfan sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir ledled Cymru, gan gynnwys Elfen Coetiroedd benodol sydd wedi'i dylunio i gefnogi rheolwyr tir sy'n dymuno creu coetir newydd ac/neu reoli coetiroedd presennol i ddarparu canlyniadau buddiol ar gyfer amrywiaeth o fathau o goetiroedd, rhywogaethau, pridd a dŵr.

mae'n rhaid i'r ymgeisydd gytuno bod canlyniadau'r prosiect peilot hwnnw yn cael eu lledaenu.

- Datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth.
- Ysgogi – costau refeniw ar gyfer pobl (ysgogwyr) a fyddai'n broceru ac yn hwyluso gweithgareddau cydweithio ymhlith busnesau ac/neu sefydliadau, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth.
- Hwyluso a gweithredu – costau refeniw, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, ar gyfer pobl a fydd yn rheoli ac yn cynnal gweithgareddau yn uniongyrchol ac/neu'n rhoi cymorth i fusnesau ac/neu sefydliadau ac yn cefnogi gweithgareddau cydweithio. Gall hynny gynnwys y costau ar y busnes neu sefydliad sy'n frocer arloesi, a hefyd gostau cynnal y gweithgareddau cydweithio.
- Mentora – costau refeniw ar gyfer pobl sy'n gallu cynnig mathau penodol o gymorth i sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain yng nghyd-destun gweithgareddau cydweithio. Mae hyn yn wahanol i hyfforddiant.
- Hyfforddiant – costau refeniw i helpu partneriaid sy'n cydweithio i gael hyfforddiant na ellir ei ddarparu mewn unrhyw ffordd arall. Gall hyfforddiant o'r fath gael ei roi mewn lleoliad ffurfiol fel ystafell ddosbarth neu ystafell ddarlithio ond nid yw hynny'n fater o raid. Er mwyn i hyfforddiant fod yn weithgarwch cymwys, byddai'n rhaid i'r pynciau i'w trafod a chanlyniad arfaethedig yr hyfforddiant fod wedi cael eu pennu drwy gynnal asesiad sgiliau, a byddai'n rhaid hefyd fod wedi edrych ar y ddarpariaeth a fyddai ar gael eisoes.
- Cyfathrebu a lledaenu – costau refeniw i helpu â gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau cydweithio arfaethedig; i helpu gyda'r gwaith o ledaenu gwybodaeth ymhlith y rhanddeiliaid allanol; i helpu gyda chyfathrebu o fewn a rhwng sefydliadau'r partneriaid sy'n cydweithio, ac i helpu i ledaenu canlyniadau terfynol y cydweithio.
- Gwerthuso – un o ganlyniadau allweddol y gweithgareddau cydweithio ac/neu'r prosiect peilot yw dysgu gwersi a chofnodi profiadau'r rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â nhw er mwyn helpu i lywio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol.

Felly, mae cost gwerthusiad allanol annibynnol o’r prosiect peilot ac/neu’r gweithgareddau cydweithio yn gost gymwys.

2.8 Mae’r tablau isod yn rhoi manylion penodol y mesurau sydd wedi’u cynnwys yn y gwerthusiad hwn

**Tabl 2.1: Prif fanylion is-fesur 16.2**

| Elfen | Manylion |
|---|---|
| Grŵp targed | Roedd is-fesur 16.2 yn agored i ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (ar gyfer rhai mathau o brosiectau, roedd yn rhaid i o leiaf un BBaCh fod yn rhan o’r prosiect), masnachwyr unigol, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig, cyrff sector cyhoeddus, deiliaid coedwigoedd (gan gynnwys cymdeithasau perchnogion a choetiroedd cymunedol), sefydliadau addysgol neu ymchwil, a sefydliadau cymunedol neu wirfoddol (rhaid iddynt fod yn endid cyfreithiol). |
| Gweithgareddau cymwys | Roedd gweithgareddau cymwys yn cynnwys blociau adeiladu craidd ar gyfer prosiectau peilot gwirioneddol neu ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd, yn ogystal â gweithgareddau ymchwil ac arddangos cysylltiedig; roedd gweithgareddau hwyluso a gweithredu, mentora, hyfforddi a lledaenu hefyd yn gymwys ar gyfer cyllid, yn ogystal â gwerthusiad allanol annibynnol. |
| Cymorth ariannol | Roedd cymorth ariannol ar gael ar gyfer costau rhedeg (e.e. cyflogau), mapio a dadansoddi bylchau, gweithrediadau penodol, a gweithgareddau hyrwyddo. Nid oedd nifer o fuddsoddiadau cyfalaf yn gymwys o dan yr is-fesur hwn. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020), Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: Canllawiau

**Tabl 2.2: Prif fanylion is-fesur 16.4**

| Elfen | Manylion |
|---|---|
| Grŵp targed | Roedd is-fesur 16.4 yn agored i fasnachwyr unigol, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig, cyrff cyhoeddus, sefydliadau addysgol neu ymchwil, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau cynhyrchwyr, grwpiau cynhyrchwyr, a chwmnïau cydweithredol sy’n ymwneud â chadwyni cyflenwi’r sectorau amaeth, coedwigaeth, bwyd a lletygarwch (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaethu) neu sy’n cyfrannu’n fwy cyffredinol at amcanion a blaenoriaethau polisi datblygu gwledig. Roedd yn rhaid i o leiaf un BBaCh fod yn rhan o gydweithrediadau i geisio cyllid gan y CSCDS. |
| Gweithgareddau cymwys | Wrth wraidd is-fesur 16.4 yr oedd cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg busnesau ac/neu sefydliadau yng nghadwyni cyflenwi’r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd a lletygarwch (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd neu ddyframaeth) ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol. Yr un fath ag is-fesur 16.2, roedd gweithgareddau hwyluso a gweithredu, mentora, hyfforddi a lledaenu hefyd yn gymwys ar gyfer cyllid, yn ogystal â gwerthusiad allanol annibynnol. |
| Cymorth ariannol | Roedd cymorth ariannol ar gael ar gyfer costau rhedeg (e.e. cyflogau), mapio cadwyn gyflenwi a dadansoddi bylchau, gweithrediadau penodol, a gweithgareddau hyrwyddo. Megis ar gyfer 16.2, nid oedd nifer o fuddsoddiadau cyfalaf yn gymwys o dan yr is-fesur hwn. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020), Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: Canllawiau

**Tabl 2.3: Prif fanylion is-fesur 16.8**

| Elfen | Manylion |
|---|---|
| Grŵp targed | Roedd is-fesur 16.8 yn agored i grŵp eang o sefydliadau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu reoli tir arall, gan gynnwys busnesau bach a chanolig a busnesau mawr, sefydliadau addysgol neu ymchwil, ffermwyr, coedwigwyr, tirfeddianwyr cyhoeddus (e.e. awdurdodau lleol, Parciau Cenedlaethol, cyfleustodau), cwmnïau buddsoddi, grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol) a chymdeithasau perchnogion a choetiroedd cymunedol, ac ymddiriedolaethau. |
| Gweithgareddau cymwys | Y gweithgareddau cymwys oedd datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol a rheoli prosiectau i fwrw ymlaen â gweithgareddau ar gyfer rheoli neu greu coetir yn gynaliadwy fel rhan o reolaeth gynaliadwy ehangach ar adnoddau naturiol, gwella gwasanaethau ecosystem, a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, yn ogystal â chamau cydweithredol ehangach, cyfathrebu a lledaenu, ymchwil, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb, a hefyd gweithgareddau monitro a gwerthuso. |
| Cymorth ariannol | Gallai cymorth ariannol dalu costau refeniw ar gyfer sefydlu a rhedeg grŵp cydweithredol, cyfathrebu gweithgareddau cydweithredol arfaethedig, a chostau rhedeg prosiect yn ogystal â gweithgareddau hyrwyddo. Eto, nid oedd nifer o fuddsoddiadau cyfalaf yn gymwys o dan yr is-fesur hwn. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018), Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio, Mesur 16.8, Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth, Canllawiau

### Gweithredu'r cynllun

2.9 Roedd hyd cyfnod y prosiectau o dan yr holl is-fesurau wedi'i gyfyngu i ddim mwy na thair blynedd ar gyfer prosiectau buddsoddi a saith mlynedd ar gyfer prosiect gweithgaredd cydweithredu.

2.10 Câi ffenestri derbyn ceisiadau eu hagor o bryd i'w gilydd oedd â dyraniadau cyllidebol dangosol cyffredinol a ffocws thematig penodol iddynt, ac felly âi holl geisiadau'r CSCDS drwy broses ymgeisio dau gam gystadleuol. Byddai Datganiad o Ddiddordeb cychwynnol yn rhoi amlinelliad o weithgareddau ac amcanion y prosiect ac yn rhoi modd cynnal asesiad cychwynnol i weld a oedd y prosiect arfaethedig yn gymwys ai peidio, gyda mewnbwn gan dimau polisi Llywodraeth Cymru. Dim ond ar ôl cwblhau'r asesiad hwn y gwahoddid ymgeiswyr i gyflwyno cais prosiect llawn ar gyfer yr ail gam.

2.11 Agorwyd y ffenestr Datganiadau o Ddiddordeb cyntaf rhwng mis Awst a Hydref 2015. Yna cafwyd cyfres o ffenestri (fel y nodir isod) hyd nes y caewyd y cynllun yn sgil cyflwyno'r cynllun newydd 'Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru' (ENRaW). Ni ragwelwyd unrhyw rowndiau pellach bryd hynny (ffynhonnell: diweddariad PMC, Medi 2018). Fodd bynnag, cafodd y cynllun ei

ailgyflwyno maes o law a Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o ffenestri Datganiadau o Ddiddordeb yn ymwneud ag ymateb i COVID-19 ac adfer ar ei ôl:

- Ffenestr 1: Cydweithredu (M16.2 a 16.4), wedi cau Hydref 2015
- Ffenestr 2: Cydweithredu (M16.2 a 16.4), wedi cau Mai 2016
- Ffenestr 3: Cydweithredu (M16.2), wedi cau Rhagfyr 2019
- Ffenestr 4: Cydweithredu (M16.2), wedi cau Ebrill 2017
- Ffenestr 5: Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth (M16.8), wedi cau Ebrill 2017
- Ffenestr 6: Cydweithredu (M16.2), wedi cau Rhagfyr 2017
- Ffenestr 7: Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth (M16.8), wedi cau Ebrill 2018
- Ffenestr 8: Camau gweithredu peilot ar gyfer cydlyniant cymunedol a chymorth i adferiad gwyrdd, wedi cau Hydref 2020
- Ffenestr 9: OCVO – ymwrthedd gwrthficrobaidd, wedi cau Tachwedd 2020
- Ffenestr 10: Twristiaeth Bwyd, Rhagfyr 2020
- Ffenestr 11: Dulliau arloesol ar gyfer cyd-dyfu, wedi cau Ionawr 2021
- Ffenestr 12: Bwyd – y Cynllun Adfer o COVID-19, wedi cau Chwefror 2021
- Ffenestr 13: Camau gweithredu peilot ar gyfer twf gwyrdd a'r economi gylchol, wedi cau Chwefror 2021.

2.12 Cafodd yr holl Ddatganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd ym mhob cyfnod/ffenestr ymgeisio eu sgorio a'u rhestru yn nhrefn teilyngdod yn unol â'r meini prawf dethol a gyhoeddwyd ac yna dyrannwyd y cyllid oedd ar gael ar y sail honno. Dyma'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth asesu'r Datganiadau o Ddiddordeb:

- yr ymgysylltu â rhanddeiliaid
- rhwystrau i ymgysylltu
- ychwaneged a chydymffurfiaeth strategol
- cyfathrebu
- gwerthusiad
- allbynnau/canlyniadau
- gwerth am arian.

2.13 Byddai cynigion prosiect a oedd wedi pasio'r cam Datganiad o Ddiddordeb wedyn yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn ar gyfer eu prosiect arfaethedig. Ar y cam

hwn y cynhelid gwerthusiadau diwydrwydd dyladwy llawn a gwiriadau cymhwysedd. Y bwriad oedd cwblhau gwerthusiad ar y ceisiadau llawn o fewn 90 diwrnod gwaith o dderbyn y cais llawn.

2.14 Roedd yn ofynnol i bob prosiect llwyddiannus adrodd ar gynnydd yn erbyn nifer o ddangosyddion y cytunwyd arnynt. Y dangosyddion lefel rhaglen a osodwyd oedd:

- ar gyfer 16.2: Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gynorthwywyd
- ar gyfer 16.4: Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gynorthwywyd a nifer y daliadau sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau a gynorthwywyd
- ar gyfer 16.8: Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gynorthwywyd.

2.15 Fe'u cyfunwyd â dangosyddion lefel achos, gydag o leiaf dau i'w dewis ar gyfer pob prosiect (e.e. nifer y daliadau/buddiolwyr a gynorthwywyd, nifer y swyddi a grëwyd, nifer y diwrnodau hyfforddi, nifer yr astudiaethau dichonoldeb, nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw, nifer y camau lledaenu gwybodaeth/hyrwyddo ac/neu weithgareddau marchnata a gyflawnwyd i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect cydweithredu ac/neu ei ganlyniadau).

2.16 Roedd yn ofynnol i brosiectau roi targedau ar gyfer pob un o'r dangosyddion a ddewiswyd, wedi'u dadelfennu dros gyfnod y prosiect fel y gellid mesur cynnydd ar wahanol adegau yn ystod oes y prosiect.

## 3. Methodoleg

3.1 Ynghyd â dadansoddi data monitro a oedd ar gael a thystiolaeth o adroddiadau gwerthuso prosiectau'r CSCDS a gwblhawyd, roedd y gwerthusiad hefyd wedi cyfuno hyn ag ymchwil sylfaenol i lunio asesiad o allbynnau, canlyniadau ac effeithiau'r cynllun. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Medi 2022 ac Ebrill 2023, ac yna cynhaliwyd y tasgau dadansoddi ac adrodd o fis Mai 2023 ymlaen.

**Fframwaith y gwerthusiad**


3.2 Roedd adolygu llenyddiaeth a dogfennau swyddogol perthnasol y cynllun[6] wedi rhoi modd datblygu Theori Newid ar gyfer pob un o is-fesurau perthnasol y CSCDS.[7] Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Ffigurau 3.1 i 3.3.

3.3 Ar y sail hon, datblygwyd fframwaith gwerthuso manwl (sydd i'w weld yn yr Adroddiad Technegol) a hwnnw'n nodi sut yr aethpwyd ati i gymhwyso'r prif amcanion gwerthuso a'r cwestiynau ymchwil wrth gynnal yr ymchwil. Galluogodd hyn ddatblygu offer gwerthuso penodol ar gyfer y meta-adolygiad ar werthusiadau prosiectau unigol y CSCDS a'r ymchwil maes dilynol.

[6] Y Comisiwn Ewropeaidd (2014), dogfen canllawiau i'r mesur "Cydweithredu" (fersiwn: Tachwedd 2014), Erthygl 35 Rheoliad (UE) rhif 1305/2013; Llywodraeth Cymru (2020), Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: canllawiau; Llywodraeth Cymru (2018), Mesur 16.8 Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth: Canllawiau; Llywodraeth Cymru (dim dyddiad), Mesur 16 – Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodyn Cyfarwyddyd, Is-fesur 16.2: Cymorth i brosiectau peilot a chymorth i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd; Llywodraeth Cymru (dim dyddiad), Mesur 16 - Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – Nodyn Cyfarwyddyd, Is-fesur 16.4: Cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymysg gweithredwyr yn y cadwyni cyflenwi ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol ac i hyrwyddo gweithgareddau mewn cyd-destun lleol sy'n gysylltiedig â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol.


[7] Nid oedd yn bosibl datblygu Theori Newid gynhwysfawr gan fod y gofynion, y nodau a'r amcanion yn rhy benodol i'r is-fesurau unigol.

**Ffigur 3.1: Theori Newid ar gyfer is-fesur 16.2 – Prosiectau peilot a datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau**





[1] e.e. cynlluniau datblygu busnes, hyfforddiant, marchnata, ac arloesi
[2] C/A/P/T - cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau

**Ffigur 3.2: Is-fesur 16.4 – Cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol**




[1] e.e. cynlluniau datblygu busnes, hyfforddiant, marchnata, ac arloesi
[2] C/A/P/T - cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau

**Ffigur 3.3: Theori Newid ar gyfer is-fesur 16.8 – Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth**




[1] Mae'r ERAMMP yn cefnogi cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015/Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).
[2] Yn bennaf Grwpiau Gweithredu Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) (16.1); Grantiau Buddsoddi mewn Busnesau Pren a Chynhyrchu Cynaliadwy.
[3] Rhaglen ariannu yn targedu amrywiaeth o ganlyniadau ar sail daliad fferm.
[4] Cynllun grant cystadleuol gwerth £23.3m yr RDP ar gyfer unigolion/sefydliadau sy'n cydweithio i wella adnoddau naturiol Cymru (Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (crynodeb))

### Problemau argaeledd data

3.4 Roedd y fframwaith gwerthuso wedi rhagdybio y byddai'n bosibl coladu'r data meintiol ac ansoddol oedd ei angen i gwmpasu'r holl amcanion gwerthuso trwy ddadansoddi data'r cynllun presennol ynghyd ag ymchwil maes ychwanegol. Ond cododd problemau â hyn.

3.5 Drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu mewnol sefydledig, ysgwyddodd tîm rheoli contractau mewnol Llywodraeth Cymru y rôl o gael gafael ar set o ddogfennau a setiau data'r CSCDS. Roedd bwrw ymlaen â'r dasg hon yn eitem sefydlog ar yr agenda yn y cyfarfodydd rheolaidd bob pythefnos rhwng y tîm rheoli contractau a'r gwerthuswyr ac roedd yn cynnwys cael gafael ar adroddiadau gwerthuso prosiectau unigol ar gyfer y meta-adolygiad, manylion cyswllt ar gyfer gwaith maes yr ymchwil gwerthuso, data monitro a gwario ar gyfer dadansoddi perfformiad y CSCDS, a chasgliad o ganllawiau a dogfennau ar gyfer gwerthuso'r broses. Cafwyd problemau sylweddol â'r holl dasgau hyn a hynny wedi effeithio ar gadernid yr ymchwil gwerthuso a'r dadansoddiad y gellid ei wneud. Ystyrir y rhain yn fanylach yn y paragraffau dilynol.

*<u>Adroddiadau gwerthuso prosiectau unigol ar gyfer y meta-adolygiad</u>*

3.6 Roedd adborth a gafwyd gan dîm rheoli contractau Llywodraeth Cymru yn awgrymu ei bod yn amhosibl cael gafael ar y rhain o gadwrfa ganolog. Yn hytrach, y dull a fabwysiadwyd oedd cysylltu ag arweinwyr prosiectau, gan ofyn yn uniongyrchol iddynt am adroddiadau gwerthuso. Defnyddiwyd taenlen wedi'i rhannu rhwng Llywodraeth Cymru yn fewnol a thimau gwerthuso allanol i drafod statws yr holl brosiectau i'w cynnwys yn y gwerthusiad ym mhob cyfarfod rheoli contractau gwerthuso. Roedd cyfradd ymateb isel gan arweinwyr prosiectau yn golygu mai dim ond 29 o adroddiadau gwerthuso terfynol y llwyddwyd i gael gafael arnynt a dim ond y prosiectau hyn y gellid eu cynnwys yn y meta-adolygiad.

*<u>Manylion cyswllt ar gyfer ymchwil maes</u>*

3.7 Roedd yr ymchwil maes i gynnwys rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru oedd yn rhan o brosesau'r CSCDS (yr RDP a pholisi ehangach), arweinwyr prosiectau'r CSCDS, ymgeiswyr CSCDS aflwyddiannus, a sefydliadau eraill yn yr economi wledig sydd â rhan yn y CSCDS.

- Yn ystod y cyfnod hwn, roedd newid ymhlith staff yn Llywodraeth Cymru a diffyg dilyniant o ganlyniad i hynny ymhlith prif benderfynwyr y CSCDS wedi golygu nad oedd yn bosibl siarad yn uniongyrchol â'r holl benderfynwyr gweithredol a strategol perthnasol a oedd wedi ymwneud â chynnal y CSCDS. O ganlyniad, parhau i fod yn anghyflawn yr oedd dealltwriaeth fanwl y gwerthuswr am brosesau ac offer rheoli CSCDS. Roedd hyn yn arbennig o wir ynghylch safbwynt polisi, ond roedd hefyd yn golygu nad oedd hi'n bosibl cael asesiad manylach o brosesau gweithredol.
- Roedd y manylion cyswllt ar gyfer arweinwyr prosiectau'r CSCDS yn hen mewn llawer o achosion. Fel rhan o'r broses samplu, gwnaed gwaith dilynol i gael y manylion cyswllt diweddaraf, ond mewn llawer o achosion, roedd unigolion wedi symud ymlaen ac nid oedd cynrychiolwyr sefydliadau arweiniol y prosiectau yn teimlo'n gyfforddus ynghylch rhoi mewnbwn i werthusiad CSCDS.
- Er bod nifer o daenlenni oedd â data am geisiadau i'r CSCDS wedi rhoi modd adnabod nifer fach o ymgeiswyr aflwyddiannus, ni ellid cael unrhyw ddata ar weithgareddau marchnata ac allgymorth y CSCDS oedd â manylion sefydliadau a oedd wedi mynegi diddordeb yn y CSCDS. Roedd cyfweliadau cychwynnol a gynhaliwyd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a oedd wedi'u nodi ar sail ymarfer mapio generig yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r cynllun yn gyfyngedig iawn neu ddim yn bodoli o gwbl yn y sefydliadau hynny nad oeddynt wedi rhyngweithio'n uniongyrchol â'r cynllun.

*Data monitro a gwario*

3.8 Mae wedi bod yn anodd sefydlu union fanylion y garfan gyflawn o brosiectau a ariannwyd o dan y tri is-fesur sydd dan sylw yn y gwerthusiad hwn. Nid oedd rhestr ddiffiniol o brosiectau ar gael i'r gwerthusiad eu hadolygu o dan yr is-fesurau penodedig (16.2, 16.4 a 16.8). Roedd rhestr gychwynnol o brosiectau a gafwyd ar ddechrau'r gwerthusiad i arwain y broses o gael gafael ar adroddiadau gwerthuso ar gyfer y meta-adolygiad yn cynnwys dyblygiadau, prosiectau a restrwyd heb unrhyw arwydd o ba is-fesur yr oeddent yn perthyn iddo, a phrosiectau a gafodd gyllid o dan is-fesurau nad oedd yn rhan o'r gwerthusiad. Roedd rhestr ddilynol o brosiectau yn cynnwys mwy o fanylion (e.e. cyllideb y prosiect, statws y cais, maes ffocws disgwyliedig), ond roedd hon yn gwrth-ddweud i raddau y rhestr a ddarparwyd yn flaenorol. Cysonwyd y ddwy restr cymaint â phosibl i greu rhestr derfynol gytûn o

brosiectau i'w cynnwys yn y meta-adolygiad, ond erys bylchau ac anghysondebau a effeithiodd ar y dadansoddiad dilynol ar y data. Ni ddarparwyd set gyflawn o ddata ar gynnydd a gwariant y cynllun a oedd yn dangos yn glir y ffynhonnell berthnasol, ni ddarparwyd eglurhad ynghylch yr eitemau data a gynhwyswyd, na'u dyddiad, eu cwmpas na phroses casglu'r data. Mae hyn yn ymwneud â cheisiadau prosiectau, data dyfarnu cyllid a gwariant, dyraniadau targedau, a chyflawniadau.

3.9 Y set ddata ddiweddaraf a oedd ar gael ar gyfer y gwerthusiad oedd un dyddiedig 24 Hydref 2022. O ystyried yr anawsterau yr oedd rheolwr contractau mewnol Llywodraeth Cymru wedi'u cael wrth geisio cael gafael ar ddata ychwanegol ac egluro'n llawn ffynhonnell a statws y setiau data gwahanol, cytunwyd y dylid defnyddio'r set ddata hon ar gyfer y dadansoddiadau i'w cynnal ar gyfer y gwerthusiad.

*Canllawiau a dogfennau am y prosesau*

3.10 Nid oedd hi'n bosibl cael cyfres gyflawn o ddogfennau ar gyfer pob cyfnod/ffenestr ymgeisio na throsolwg o'r cyfnodau ymgeisio gwahanol a'u cyllideb, ffocws blaenoriaeth ac amserlen berthnasol eu hunain. Roedd rheolwr contractau mewnol Llywodraeth Cymru wedi cydlynu â'r timau gweithredol mewnol ac wedi darparu dogfennau enghreifftiol ar gyfer cyfnodau ymgeisio amrywiol. Roedd hyn wedi rhoi modd dadansoddi'n rhannol y canllawiau a'r dogfennau am y prosesau a ddefnyddiwyd wrth arfarnu ceisiadau a dewis prosiectau i ddyfarnu cyllid iddynt. Fodd bynnag, nid oedd yn caniatáu datblygu llinell amser lawn o flaenoriaethau polisi a dadansoddiad o ddyraniadau cyllideb a thargedau ar draws y garfan lawn o brosiectau a chyfnodau ymgeisio'r CSCDS.

**Offer methodolegol**

3.11 Defnyddiwyd yr offer methodolegol penodol a ganlyn:

- adolygu dogfennau
- cyfweliadau cwmpasu
- meta-adolygiad o'r gwerthusiadau terfynol sydd ar gael ar brosiectau unigol
- arolygon ar-lein
- cyfweliadau â rhanddeiliaid
- asesiad gwerth am arian.

*Adolygu dogfennau*

3.12 Roedd hyn yn cynnwys dogfennau'n ymwneud â'r rhesymeg ehangach y tu ôl i'r CSCDS yng nghyd-destun pensaernïaeth ehangach yr RDP yn ogystal â'r holl ganllawiau a dogfennau am brosesau'r CSCDS sydd ar gael.

*Cyfweliadau cwmpasu*

3.13 Roedd cyfanswm o 12 cyfweliad cwmpasu wedi canolbwyntio ar ddealltwriaeth fanwl o resymeg y CSCDS yng nghyd-destun ehangach yr RDP yng Nghymru, ynghyd â chanolbwyntio ar brosesau'r CSCDS, a disgwyliadau rhanddeiliaid am y gwerthusiad. Gwnaed samplo pwrpasol i gynnwys gwahanol reolaeth yr RDP a safbwyntiau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.[8] Fodd bynnag, oherwydd y problemau a amlinellwyd uchod, prin iawn oedd y sgôp i sicrhau unrhyw samplu bwriadol mewn gwirionedd, ac roedd y sampl o gyfweleion yn y pen draw yn hunanddewisol ar sail pwy oedd yn dal i fod yn gysylltiedig â gweinyddu'r RDP ac ar gael i siarad â'r gwerthuswyr. Roedd hyn yn golygu na allai'r gwerthusiad dynnu ar ddealltwriaeth lawn a manwl o brosesau'r CSCDS ac, yn lle hynny, bu'n rhaid iddo ddibynnu ar driongli canlyniadau'r cyfweliadau cwmpasu, dealltwriaeth lefel uchel o brosesau'r CSCDS a godwyd o'r sampl o ddogfennau a gafwyd, ac adborth o'r cyfweliadau ag arweinwyr prosiectau.

*Meta-adolygiad o'r gwerthusiadau ar y prosiectau unigol*

3.14 Roedd hyn wedi cynnwys 29 o brosiectau (37 y % o'r holl brosiectau) a oedd yn cyfateb i 18 y % o gyfanswm y grant a ddyfarnwyd a 28 y % o gyfanswm y grant a dalwyd hyd at 24 Hydref 2022. Amrywiai dyddiadau cymeradwyo'r prosiectau hyn o fis Gorffennaf 2016 hyd at Ionawr 2021. Roedd y sampl yn hunanddewisol gan ei fod yn cynnwys pob prosiect oedd ag adroddiad gwerthuso terfynol ar gael ar adeg yr ymchwil gwerthuso.

3.15 Nid oedd yr unig brosiect y dyfarnwyd cyllid iddo o dan is-fesur 16.8 wedi gorfod cwblhau gwerthusiad, ac nid oedd adroddiadau gwerthuso ar gael ar gyfer unrhyw brosiect a ariannwyd o dan is-fesur 16.4.

[8] Mae'r canllaw i'r cyfweliadau cwmpasu i'w weld yn Atodiad 3.

3.16 Heb set ddata gyflawn neu ryngweithiadau uniongyrchol â rhanddeiliaid rheoli'r cynllun, nid oedd yn bosibl sefydlu statws y gwerthusiadau prosiect a oedd ar ôl. Mae dadansoddiad rhannol sy'n tynnu ar y wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu:

- ar gyfer chwe phrosiect, ni ddisgwylid gwerthusiad
- ar gyfer 23 o brosiectau, nid oedd eu gwerthusiad i'w gwblhau tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y meta-adolygiad (diwedd Mawrth 2023)
- ar gyfer pum prosiect, disgwylid gwerthusiad yn ystod chwarter cyntaf 2023, ond ni ellid cael yr adroddiadau
- ar gyfer y prosiectau eraill, ni ellid cael gafael ar unrhyw wybodaeth am statws y gwerthusiad.

3.17 Mae Tabl 3.1 isod yn rhoi rhestr o'r prosiectau yn y meta-adolygiad.

**Tabl 3.1: Prosiectau'r CSCDS sydd yn y meta-adolygiad**

| Enw'r prosiect | Cyfanswm y grant a roddwyd |
|---|---|
| Coladu data ar ddefnyddio meddyginiaethau ar ffermydd Cymru | £100,005.00 |
| Ffocws ar Goedwigaeth yn Gyntaf – Y Dyfodol | £113,495.00 |
| Gardd Farchnad Glanyrafon - Cynhyrchion llysiau organig sych | £127,300.00 |
| Datblygu clystyrau o dyfwyr tatws Sarpo yng Nghymru | £136,950.00 |
| Cymunedau Cydweithredol – LPTY | £164,265.00 |
| Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi Twristiaeth Bwyd Cymru | £164,599.00 |
| Marchnad Lafur Cymraeg | £167,831.00 |
| Dewis Gwyllt – Wild Choice | £184,310.00 |
| Torri Tir Newydd | £217,424.00 |
| Canolfan Hyfforddiant a Chynhyrchion Pen-y-graig CSCD | £243,633.00 |
| Datblygu Cadwyn Gyflenwi Cig Adar Hela Cymru | £245,514.00 |
| Clwster Hydroponeg Gogledd Cymru | £300,000.00 |
| Ynni Clyfar | £301,469.00 |
| Climate Smart Agriculture yng Nghymru (CSA Cymru) | £359,703.00 |
| Farmer to Pharma (F2P) | £387,208.00 |
| Cymunedau Cynaliadwy Cymru | £393,006.00 |
| Cynllun Eidion Integredig CFfI | £393,658.00 |
| Rhaglen Galluogrwydd, Cynaliadwyedd a Hinsawdd | £534,963.00 |
| Economi Gydnerth - Cadwyni Cyflenwi Lleol | £613,161.00 |
| Discover Delicious Wales | £654,479.00 |
| Tyfu Fyny – Growing Up | £665,043.00 |
| Cydweithredu ar gyfer Twf | £810,136.00 |
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd - Gwarcheidwaid PRhC | £864,051.00 |
| PestSmart | £997,596.00 |
| Rhwydwaith Lle ar y We – Gwefannau Cymunedol 360 | £1,029,345.00 |
| BeefQ - Ansawdd Bwyta Cig Eidion | £1,077,217.00 |
| Prosiect Cig Adar Hela Cymru rhan dau | £1,153,230.00 |

| Enw'r prosiect | Cyfanswm y grant a roddwyd |
|---|---|
| Prosoil Plus – Ysbrydoli ffermwyr i ddiogelu pridd | £1,499,766.00 |
| Clwstwr Cwmnïau Cynaliadwy Bwyd a Diod Cymru | £2,097,661.00 |
| **Cyfanswm** | **£15,997,018.00** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata monitro'r CSCDS

3.18 Prosiectau'r CSCDS eu hunain oedd â'r dasg o ddylunio a threfnu cynnal eu gwerthusiad yn annibynnol a hynny drwy ddilyn canllawiau ar natur a safonau ansawdd y gwerthusiad.[9] O ganlyniad, roedd ansawdd yr adroddiadau gwerthuso a oedd ar gael yn amrywio'n sylweddol – o'r rhai a gynhaliwyd ar sail fframwaith gwerthuso clir (e.e. ar ffurf Theori Newid) ac yn defnyddio offer ymchwil cadarn (e.e. arolygon yn cwmpasu sampl priodol o fuddiolwyr, cyfweliadau â rhanddeiliaid) i'r rheiny a ddarparodd yr hyn a oedd yn debycach i dystiolaeth anecdotaidd ac ansoddol. Roedd y meta-adolygiad yn canolbwyntio ar godi manylion ffeithiol allweddol ynghylch gweithgareddau prosiectau, rolau a chyfrifoldebau gwahanol bartneriaid prosiectau, i ba raddau yr oedd amcanion y prosiect yn cyd-fynd â Theori Newid y CSCDS, rhanddeiliaid allweddol a llwybrau ar gyfer ymgysylltu â buddiolwyr, a data ar allbynnau'r prosiect. Yn ogystal, casglwyd cymaint o wybodaeth â phosibl am ganlyniadau'r prosiectau a'r effeithiau a ragwelwyd, gan gymryd unrhyw ddiffygion yn ansawdd y gwerthusiad i ystyriaeth.

3.19 Oherwydd prinder yr adroddiadau gwerthuso ar brosiectau unigol ac ansawdd cyfyngedig yr adroddiadau hyn, gallai'r meta-adolygiad ond gael cipolwg o'r canlyniadau a gyflawnwyd, er y gellid cynnal dadansoddiad dangosol o natur y gweithgareddau a'r canlyniadau, ynghyd â deinameg ffurfiau gwahanol y prosiectau. Nid oedd wedi rhoi modd cael asesiad terfynol o werth cyffredinol y cynllun.

*Arolygon ar-lein*

3.20 Mewn ymateb i'r ffaith mai dim ond tua thraean o werthusiadau ar y prosiectau eu hunain y gellid cael gafael arnynt, datblygwyd dau arolwg ar-lein (mae'r holiaduron wedi'u cynnwys yn Atodiadau 4 a 5, sydd i'w cael yn yr Adroddiad Technegol). Y nod oedd cael mewnwelediadau ychwanegol, a hynny yn benodol ynghylch:

[9] Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: canllawiau gwerthuso ar gyfer prosiectau | LLYW.CYMRU.

- profiadau arweinwyr prosiectau o brosesau'r CSCDS a'u barn am yr etifeddiaeth y mae prosiectau'r CSCDS yn debygol o esgor arni — cafwyd 27 o ymatebion[10]
- profiad cyfranogwyr o brosiectau'r CSCDS — cafwyd 16 o ymatebion.

3.21 Bu'r ddau arolwg yn y maes am 10 wythnos (o 13 Chwefror hyd ar 30 Ebrill 2023) ac fe'u hysbysebwyd gyda chymorth prif asiantaethau'r RDP. Hysbysebwyd yr arolwg profiad cyfranogwyr ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRN), cafodd sylw yng nghylchlythyr y Rhwydwaith, a'i ddosbarthu i aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol (Twitter [X bellach], LinkedIn, a Facebook) hefyd i ehangu amlygrwydd a chyrhaeddiad yr arolwg. Anogwyd yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd hefyd, yn enwedig yr arweinwyr prosiect, i gylchredeg dolen yr arolwg i sefydliadau a oedd wedi ymgysylltu â'u prosiect.

3.22 Ar gyfer yr arolwg i arweinwyr prosiectau crëwyd dolen unigryw ar gyfer pob sefydliad arweiniol a'i hanfon i'r cyfeiriad e-bost cyswllt priodol. Roedd gweithgarwch dilynol wedi cynnwys anfon tri nodyn atgoffa drwy e-bost at bob sefydliad dros sawl wythnos.

3.23 O ganlyniad i lefel isel yr ymateb, ni chafwyd lawer o ddealltwriaeth ychwanegol drwy'r arolygon i brofiad arweinwyr prosiectau'r CSCDS, a hyd yn oed llai o dystiolaeth ychwanegol ynghylch profiad y cyfranogwyr (i'r fath raddau na sonnir am ganlyniadau'r olaf yn yr adroddiad hwn). Roedd yr arolwg i arweinwyr prosiectau wedi esgor ar rywfaint o ddata meintiol cyfyngedig ar farn sefydliadau am y CSCDS.

3.24 Gan y gwnaed cryn ymdrech a gwaith sylweddol i gyrraedd darpar ymatebwyr, mae'r gyfradd ymateb isel yn ganlyniad ynddo'i hun i'r gwerthusiad wrth ddangos cyrhaeddiad cyffredinol cyfyngedig iawn Llywodraeth Cymru i'r garfan o brosiectau a ariennir o dan y cynllun.

*Cyfweliadau â rhanddeiliaid*

3.25 Datblygwyd map manwl o'r rhanddeiliaid mewn ymgynghoriad â rheolwr contractau Llywodraeth Cymru a chan ddefnyddio awgrymiadau o'r cyfweliadau cwmpasu yn ogystal â gwybodaeth y tîm gwerthuso am Gymru wledig. Roedd profiad, neu o leiaf ymwybyddiaeth, o'r CSCDS yn faen prawf samplu allweddol ochr yn ochr â'r math o

[10] Roedd un ar ddeg o sefydliadau a oedd wedi cwblhau'r arolwg etifeddiaeth ar gyfer eu priod brosiectau hefyd wedi gwneud cyfweliad rhanddeiliaid.

sefydliad, y prif sector gweithgarwch, a natur a dyfnder rhyngweithiadau â'r CSCDS. Cynhaliwyd cyfanswm o 28 o gyfweliadau.[11]

3.26 Cadarnhaodd cysylltiadau cychwynnol â rhanddeiliaid mai cyfyngedig iawn oedd amlygrwydd y CSCDS y tu hwnt i'r garfan a oedd wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gytunodd i gyfweliad gwerthuso felly naill ai (wedi) cyflawni prosiect CSCDS neu wedi cyflwyno cais aflwyddiannus. Roedd y mwyafrif helaeth yn bennaf wedi ymwneud ag is-fesur 16.2. Wrth dynnu ar eu profiad o ymwneud â phrosiectau'r CSCDS, dewiswyd cyfweleion ar sail cysylltiad sefydliadol (yn hytrach na chynrychioli prosiectau penodol).

3.27 Cysylltwyd hyd at deirgwaith â rhanddeiliaid a samplwyd gan roi ail wahoddiad i gymryd rhan mewn cyfweliad gwerthuso. O'r 84 o gysylltiadau a samplwyd, nid oedd modd cyrraedd 56 mwyach neu ni wnaethant ymateb i dri nodyn atgoffa drwy e-bost (n=44) neu roeddent wedi gwrthod cyfweliad (n=12).

*Astudiaethau achos*

3.28 Datblygwyd wyth astudiaeth achos o brosiectau penodol y CSCDS i ddangos natur a chanlyniadau amrywiol iawn y prosiectau a ariannwyd.

*Asesiad gwerth am arian*


3.29 Cynhaliwyd asesiad gwerth am arian a bwysodd ar ddiffiniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch gwerth am arian — *'y cyfuniad gorau posibl o gost oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd i'r diben) i fodloni gofynion y defnyddiwr'*[12] — ynghyd â'r cwestiwn gwerthuso trosfwaol ynghylch pa mor dda y defnyddir adnoddau ac a ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigon da. Gan ystyried gwaith diweddar i ddatblygu'r dull Gwerth am Arian ymhellach,[13] ategwyd hyn gan broses o ddatblygu dealltwriaeth fanwl yn gyntaf o'r hyn yr oedd disgwyl i'r cynllun ei gyflawni (h.y. natur y 'gwerth' i'w asesu) cyn defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael mewn proses dryloyw o resymu ar sail set o feini prawf.

[11] Ceir manylion am y mathau o sefydliadau a sectorau yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn Atodiad 6 a'r canllaw cyfweld yn Atodiad 7.
[12] Offer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 'NAO Decision support tool, The 'three Es''.
[13] Mae dull yr OPM yn adlewyrchu'r craffu cynyddol ar Gwerth am Arian yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'n osgoi clymu'r asesiad â set gyfyng o ddangosyddion nad oes ganddynt unrhyw farn gwerthuso – e.e. drwy bwysleisio'r mesurau hawsaf eu mesur yn hytrach na'r elfennau pwysicaf (ond anos eu mesur) ar berfformiad, neu drwy ganolbwyntio ar feintioli allbynnau a chanlyniadau ar draul ystyriaeth fanylach o'u hansawdd, eu gwerth a'u pwysigrwydd. Gweler King, J. (2018), OPM's approach to assessing value for money.

3.30 Gan adeiladu ar ddull gweithredu pedair ‘E’ Saesneg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ond yn dilyn mireinio’r Oxford Policy Management (OPM), fel y dangosir yn Ffigur 3.4, defnyddiwyd y pum maen prawf a ganlyn:

- **Darbodusrwydd/economi**: gwario’r lleiaf posibl (h.y. cost y mewnbynnau)
- **Effeithlonrwydd**: gwario’r adnoddau sydd ar gael yn dda (h.y. y berthynas rhwng yr allbynnau a’r mewnbynnau)
- **Effeithiolrwydd**: gwario’r adnoddau sydd ar gael yn ddoeth (h.y. y berthynas rhwng y canlyniadau bwriadedig a’r rhai gwirioneddol)
- **Tegwch**: (*equity*) gwario’r adnoddau sydd ar gael yn deg (h.y. i ba raddau y mae’n cyrraedd ac ar gael i’r grŵp targed bwriadedig)
- **Cost-effeithiolrwydd**: sicrhau canlyniadau cymesur ar gyfer cyfanswm y gost (h.y. canlyniad neu effaith mewn perthynas â chyfanswm y gost – a oedd yn werth ei wneud?).

**Ffigur 3.4: Meini prawf gwerth am arian**




3.31 Dadansoddwyd canlyniadau’r holl weithgareddau ymchwil ar wahân cyn cael eu triongli a’u hadolygu drwy lens yr asesiad gwerth am arian i gael set o gasgliadau ynghylch perfformiad a chanlyniadau’r CSCDS.

## 4. Prosesau'r CSCDS

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried sut yr oedd y prosesau a fabwysiadwyd i reoli a chyflawni'r CSCDS yn ffafriol i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau gwledig yng Nghymru.

4.2 Nid oedd modd cael gafael ar gasgliad llawn o ganllawiau i'r prosesau a setiau data llawn ynghylch gweithredu is-fesurau'r CSCDS sydd dan sylw yn y gwerthusiad hwn. Felly mae mewnwelediadau ynghylch effeithiolrwydd prosesau'r CSCDS wedi dod o'r canlynol:

- cyfweliadau â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a gweithredu'r CSCDS yng Nghymru
- sampl o ddogfennau a setiau data yn ymwneud â phrosesau
- adborth rhanddeiliaid ynghylch eu profiad o brosesau'r CSCDS.

4.3 Y darlun cychwynnol a gododd o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ynghylch prosesau'r CSCDS yn gyffredinol yw ei bod yn ymddangos bod gwahaniaeth amlwg wedi bod rhwng dyddiau cynnar y cynllun — dan reolaeth yr Uned Rheoli Cynlluniau (SMU)[14] — a'r mecanweithiau a roddwyd ar waith yn dilyn ad-drefnu o fewn Llywodraeth Cymru pan symudodd y cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau a hawliadau i Daliadau Gwledig Cymru (RPW) ym mis Ionawr 2018.[15]

4.4 Y rhesymeg y tu ôl i'r newid hwn mewn dull gweithredu oedd ei fod yn galluogi symud rhai o swyddogaethau'r SMU, yn ogystal ag alinio â swyddogaethau ac adnoddau'r RPW, a thrwy hynny yn sicrhau llinell glir o wahanu dyletswyddau ar yr un pryd hefyd â gwella effeithlonrwydd. Roedd enghreifftiau o'r newidiadau a gyflwynwyd yn cynnwys canolfan gyswllt newydd yn benodol ar gyfer cwsmeriaid cynlluniau gan gynnwys y CSCDS, dwyn ynghyd holl weithrediadau a phrosesau'r RDP o dan un tîm, prosesu hawliadau yn symud o'r SMU i 'dimau prosesu hawliadau amlsgiliau', a defnyddio system TGCh yr asiantaethau talu (CAPIT/RPW ar-lein) i gyflawni pob

[14] Sefydlwyd yr SMU yn Llywodraeth Cymru ar gyfer yr RDP i symleiddio'r broses o sefydlu a gweinyddu ceisiadau a hawliadau cynlluniau a phrosiectau.
[15] Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am weinyddu cyllid i'r sectorau amaethyddol a gwledig yng Nghymru, gan gynnwys rheoli a chyflawni cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru. Mae eu rôl yn cynnwys gweinyddu cronfeydd a grantiau, prosesu ceisiadau a hawliadau, a monitro a chydymffurfio.

cynllun. Bwriad y newidiadau hyn hefyd oedd caniatáu i'r tîm yn yr SMU ganolbwyntio'n benodol ar werthusiadau prosiectau.[16]

4.5 Fodd bynnag, arweiniodd y newidiadau at yr hyn y mae rhanddeiliaid wedi'i weld fel symud mewn pwyslais tuag at gydymffurfiaeth weithdrefnol dros reoli prosiectau ar sail perthynas. Mae adroddiadau arweinwyr prosiectau ar eu rhyngweithio â gweinyddiaeth CSCDS drwy'r RPW yn sôn am rwystredigaeth eang gyda'r profiad, fel y'i crynhowyd gan un arweinydd prosiect a ddywedodd fod '*ffordd Llywodraeth Cymru heb wyneb iddo, yn gwneud i brosiectau deimlo'n ddigymeriad ac nad oes neb yn poeni amdanynt*'. Soniodd y rhai a gyfwelwyd yn gyson am yr amserlenni hir a oedd yn gysylltiedig â'r holl weithdrefnau gweinyddol, y diffyg ymatebolrwydd a methu â chael eglurhad mewn da bryd, pa mor amhersonol oedd pob cyswllt ac amhosibilrwydd siarad yn gyson â'r un bobl i symud ymlaen ag unrhyw broblem, a'r diffyg diddordeb amlwg a deimlid yng nghynnwys thematig, gweithgareddau a chanlyniadau eu prosiectau.

### Marchnata ac allgymorth

4.6 Heb fod data gwirioneddol ar allgymorth ac ymgysylltu'r CSCDS ar gael, mae'r dystiolaeth ar lwybrau ymgysylltu yn dod o'r arolwg i arweinwyr prosiect a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid.

4.7 Yn y cwestiwn yn yr arolwg ynghylch sut y daeth ymatebwyr i wybod am y cynllun am y tro cyntaf, roedd 10 o'r 29 (34 y %) o ymatebion wedi nodi mai'r llwybr mwyaf cyffredin oedd trwy ymwybyddiaeth y cyfranogwyr eu hunain o gynlluniau ariannu. Yr ail ateb mwyaf cyffredin (wyth o'r 29 o ymatebion, 28 y %) oedd trwy gyswllt uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dim ond tri ymatebydd (10 y %) a ddaeth i wybod am y cynllun trwy weithgareddau marchnata, a thri arall (10 y %) gan gynrychiolwyr sector. Yn ogystal, roedd oll namyn wyth o'r 29 o ymatebion i'r arolwg arweinwyr prosiect eisoes wedi bod yn rhan o gynllun RDP arall yn ystod y cyfnod rhaglennu blaenorol ac/neu gyfredol.

4.8 Awgryma'r cyfweliadau bod gwybodaeth am y CSCDS wedi'i lledaenu'n bennaf drwy rwydweithiau presennol a'r rheini a oedd eisoes 'yn gwybod' ac a oedd eisoes yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a noddir gan yr RDP a Llywodraeth Cymru. Nododd llawer o randdeiliaid a gyfwelwyd mai rhywun wedi sôn amdano, naill

[16] Ffynhonnell: Papurau Pwyllgor Monitro Rhaglenni, 18 Ionawr 2019.

ai o sefydliad arall neu drwy ymgysylltu blaenorol â Llywodraeth Cymru, oedd eu prif lwybr i'r cynllun. Crynhowyd hyn gan un rhanddeiliad a awgrymodd '[rydym] *yn rhwydweithio'n dda â Llywodraeth Cymru ac roeddem yn gwybod bod y cynllun yn dod i lawr y llwybr, felly nid oedd angen i ni ymgysylltu drwy farchnata*'.

4.9 Soniodd rhai cyfweleion am ddigwyddiadau Rhwydwaith Gwledig Cymru ar bynciau penodol a oedd wedi'u cynnwys yn ffenestri ceisiadau'r CSCDS. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwybodaeth am gyfarwyddiadau polisi Llywodraeth Cymru ac i rwydweithio â sefydliadau yn eu maes gweithgaredd, ond nid oeddent yn cysylltu'r digwyddiadau'n benodol â'r cynllun ei hun nac yn eu gweld yn darparu gwybodaeth awdurdodol am y cynllun.

4.10 Er bod rôl timau polisi Llywodraeth Cymru wrth dynnu sylw sefydliadau at y CSCDS fel cyfle i ariannu prosiectau arloesol yn gadarnhaol, mae'r diffyg cyrhaeddiad ehangach i gymunedau rhanddeiliaid yn peri pryder. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried ehangder amcanion y CSCDS, a fyddai wedi elwa o ymgysylltu mor eang â phosibl, ond a fyddai wedi bod angen allgymorth a chymorth ychwanegol. Fel y dywedodd un cyfwelai: '*Mae'n debyg ei fod yn gynllun anodd iawn i rai cwmnïau newydd […] nad oeddent yn rhan o'r rhwydwaith ehangach*.'

4.11 Nododd y rheiny â phrofiad o ffrydiau ariannu Ewropeaidd eraill hefyd y byddai mwy o groesffrwythloni rhwng darpar ymgeiswyr wedi bod yn fuddiol, e.e. gan ddweud *'o dan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), byddai sefydliadau a allai fod â diddordeb yn dod o amgylch y bwrdd, gan gynnwys gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), i gymharu syniadau prosiect. O dan yr RDP, nid oedd fforwm o'r fath, ac roedd pawb yn gweithio ar eu pen eu hunain yn llwyr.'*

4.12 Roedd rhai o brosiectau'r CSCDS eu hunain yn ganlyniad i weithgareddau eraill a ariannwyd gan yr RDP neu eu bod wedi gallu cymryd y camau cyntaf drwyddynt. Roedd rhai wedi elwa o brosiect peilot cam cyntaf CSCDS neu astudiaeth ddichonoldeb cyn gwneud cais am gyllid ar raddfa fwy ar gyfer cynnal prosiect llawnach. Cyfeiriodd eraill at weithgareddau cynharach LEADER fel cnewyllyn eu prosiect.

4.13 Pan holwyd am gyrhaeddiad y cynllun i wahanol gymunedau, dywedodd un cyfwelai, er enghraifft, na fyddai LEADER, a ystyrid i fod yn un o'r prif lwybrau i mewn i'r cynllun ei hun, wedi bod yn arbennig o gynhwysol: '*pobl wyn, dosbarth canol yw'r Grwpiau Gweithredu Lleol (LAG) eu hunain yn bennaf. Ac maen nhw wedi tueddu i*

*aros yr un peth ers 15 mlynedd. […] Felly os yw proses y CSCDS yn mynd drwy'r Grwpiau Gweithredu Lleol, nid yw hynny o reidrwydd yn gynrychioliadol*.'

4.14 Awgryma'r cyfweliadau â rhanddeiliaid, yn fwy cyffredinol, bod profiad blaenorol o brosiectau a ariennir gan Ewrop wedi gosod darpar ymgeiswyr mewn sefyllfa dda i nodi a gwneud cais llwyddiannus am y CSCDS. Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid y byddai angen '*iaith fwy hygyrch*' i ganiatáu i grŵp ehangach o fuddiolwyr posibl ymgysylltu â chynllun fel y CSCDS. Roedd cyfeiriadau at '*themâu trawsbynciol ac echel blaenoriaeth yn ôl pob tebyg wedi arwain at lawer o bobl yn peidio ag ymgeisio*.'

4.15 Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod natur gweithgareddau marchnata ac allgymorth y CSCDS wedi cyfyngu ar gyrhaeddiad y cynllun o gymharu â sefydliadau yn yr economi wledig yng Nghymru sydd â chyfraniad i'w wneud at ysgogi cydweithredu ac esgor ar gynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau arloesol ond nid oes ganddynt brofiad o'r amgylchedd ariannu priodol.

4.16 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd bod y cynllun wedi'i hysbysebu gan Rwydwaith Gwledig Cymru am y cyfnod cytunedig o amser a'i hyrwyddo drwy lwyfannau cymdeithasol oedd â dros 2,000 o ddilynwyr, yn ogystal â chael ei farchnata drwy Cyswllt Ffermio a GWLAD.

4.17 Mae'n ddefnyddiol cyferbynnu'r darlun hwn o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid â dadansoddiad data, drwy ystyried canlyniadau'r prosesau a fabwysiadwyd yn lle hynny. Mae Tabl 4.1 yn rhoi dadansoddiad o'r mathau o sefydliadau a weithredodd fel partneriaid prosiect arweiniol ar gyfer prosiectau'r CSCDS.

**Tabl 4.1: Arweinwyr prosiectau'r CSCDS – mathau o sefydliadau**

| Math o sefydliad | Nifer y prosiectau |
|---|---:|
| Cwmnïau cydweithredol/mentrau cymdeithasol/ sefydliadau cymunedol | 15 |
| Grwpiau cynrychioliadol eraill, grwpiau buddiant, elusennau, ac ati | 13 |
| Awdurdodau lleol | 11 |
| Sefydliadau ymchwil/hyfforddiant/trosglwyddo gwybodaeth | 11 |
| Y sector preifat | 10 |
| Asiantaethau datblygu gwledig | 9 |
| Grwpiau marchnata/byrddau ardollau/cymdeithasau masnach | 7 |
| Asiantaethau'r llywodraeth | 1 |
| Sefydliadau/ymgynghoriaethau cyfryngol | 1 |
| **Cyfanswm nifer y prosiectau** | **78** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata monitro'r CSCDS

4.18 Mae Tabl 4.2 yn rhoi dadansoddiad o brif sector gweithgarwch sefydliadau sy'n gweithredu fel partneriaid prosiect arweiniol ar gyfer prosiectau'r CSCDS.

**Tabl 4.2: Arweinwyr prosiectau'r CSCDS – sector gweithgarwch**

| Prif sector gweithgarwch | Nifer y prosiectau |
|---|---|
| Traws-sector | 17 |
| Datblygu gwledig | 15 |
| Amaethyddiaeth a garddwriaeth | 13 |
| Cynaliadwyedd / gwasanaethau ecosystemau | 11 |
| Bwyd a diod (marchnata/datblygu cynnyrch) | 6 |
| Da byw (cig a llaeth) | 5 |
| Rheoli coetir/coedwigaeth/coed | 4 |
| Trafnidiaeth | 3 |
| Effeithlonrwydd ynni/ynni adnewyddadwy | 2 |
| Ymgynghoret | 1 |
| Y cyfryngau | 1 |
| **Cyfanswm nifer y prosiectau** | **78** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata monitro'r CSCDS

4.19 Gan mai ychydig iawn o brosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan is-fesurau 16.4 a 16.8, nid yw'n bosibl canfod unrhyw batrymau o ran gwahaniaethau rhwng gwahanol is-fesurau. Nid oedd dadansoddiad o gyfansoddiad sectoraidd gweithgareddau'r CSCDS yn syml, gan nad oeddent yn ffitio categorïau sectoraidd yn hawdd. Fodd bynnag, mae Tabl 4.3 yn dangos patrymau sectoraidd dangosol ym mhortffolio prosiectau'r CSCDS.

**Tabl 4.3: Cyfansoddiad sectorau portffolio prosiectau'r CSCDS**

| Natur gweithgarwch prosiectau | Nifer y prosiectau | Cyfanswm y grant a roddwyd (£) |
|---|---|---|
| Cynaliadwyedd/gwasanaethau ecosystemau | 26 | 30,170,360 |
| Effeithlonrwydd ynni/ynni adnewyddadwy | 3 | 964,625 |
| Marchnata bwyd a diod (marchnata/datblygu cynnyrch) | 7 | 3,520,958 |
| Garddwriaeth | 7 | 2,533,153 |
| Da byw (cig a llaeth) | 15 | 34,016,770 |
| Datblygu gwledig (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) | 3 | 1,375,376 |
| Twristiaeth (gan gynnwys yn ymwneud â bwyd) | 2 | 387,783 |
| Trafnidiaeth | 7 | 5,380,861 |
| Rheoli coetir/coedwigaeth/coed | 7 | 3,522,273 |
| **Cyfanswm** | | **81,872,159** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata monitro'r CSCDS

4.20 Yn olaf, mae dadansoddi dosbarthiad maint prosiectau'r CSCDS yn Nhabl 4.4 yn dangos yr amrywiaeth sylweddol ym maint y gweithgareddau a gefnogir. Roedd maint gwerth prosiectau yn amrywio o ychydig dros £100,000 i ychydig o dan £10m.

**Tabl 4.4: Gwerth dangosol dyfarniadau cyllid i brosiectau'r CSCDS**

| Dosbarthiad maint y cyllid | Nifer y prosiectau yn y dosbarthiad | % y prosiectau yn y dosbarthiad |
|---|---|---|
| Dim data | 12 | 15% |
| Hyd at £250k | 15 | 19% |
| >£250k <=£500k | 10 | 13% |
| >£500k <=£1m | 18 | 23% |
| >£1m <=£1.5m | 11 | 14% |
| >£1.5m <=£3m | 7 | 9% |
| >£3m <=£5m | 1 | 1% |
| >£5m | 4 | 5% |
| **Cyfanswm** | **78** | **100%** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata olrhain dangosol CSCDS

4.21 Byddai'r canlyniad hwn yn awgrymu bod y CSCDS wedi cyrraedd trawstoriad o wahanol fathau o sefydliadau, sectorau, meysydd gweithgarwch, a maint prosiectau. Y cwestiwn hollbwysig, felly, yw a sicrhawyd y cymysgedd mwyaf priodol o brosiectau o safbwynt strategol, a hon yn elfen a gaiff ei hystyried yn fanylach wrth drafod perfformiad y CSCDS o ran holi a yw cydweddiad strategol y garfan o brosiectau a ariennir yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun (gweler Pennod 5 ar berfformiad y CSCDS, o baragraff 5.60 ymlaen).

**Ffenestri a phrosesau ymgeisio**

*<u>Rhesymau dros ymgeisio i'r cynllun</u>*

4.22 Yn yr arolwg i'r arweinwyr prosiectau a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn ceir rhai awgrymiadau ar y prif gymhellion dros wneud cais am arian y CSCDS. Roedd tair elfen ar gyfleoedd y CSCDS yn arbennig o bwysig ym mhenderfyniad ymatebwyr i wneud cais, sef y ffocws ar gydweithio (mewn 21 o 24 ymateb, sgoriodd 92 y % hyn yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig'), cyllid refeniw ar gael i gefnogi rhwydweithio a chydweithio (mewn 21 o 23 ymateb, sgoriodd 91 y % hyn yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig'), a chyllid refeniw ar gael i addasu, profi, arddangos neu ddilysu arfer, proses, cynnyrch neu dechnoleg (mewn 20 o 23 ymateb, sgoriodd 87 y % hyn i fod yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig'). Mewn 17 o 23 ymateb (74 y %), rhoddwyd y sgôr uchaf o ran 'pwysig iawn' i'r olaf o'r rhain (yn hytrach na'r sgôr 'pwysig iawn' a 'phwysig' gyda'i gilydd fel y nodir uchod), sy'n awgrymu y byddai'r cynllun wedi darparu llwybr hollbwysig ar gyfer y math hwn o weithgaredd cydweithredol.

4.23 Awgryma atebion testun agored ychwanegol fod ymgeiswyr wedi mynd at y cynllun gyda syniad prosiect penodol a oedd yn gofyn am gydweithio ac nad oedd

ffynonellau ariannu eraill yn briodol ar ei gyfer. Mewn rhai achosion, ymddengys fod prosiectau'n adeiladu ar weithgareddau presennol yr oedd cyllid y CSCDS wedi helpu i'w tyfu neu eu rhoi ar sylfaen fwy strwythuredig, a hyn wedi'i ddisgrifio gan un ymatebwr, er enghraifft, i '*ddod â'n holl waith blaenorol at ei gilydd*'.

4.24 I eraill, roedd y cyllid wedi cynorthwyo i dynnu'r risg o'r broses o drosi syniad yn ateb ymarferol, e.e. ar gyfer cymuned ffermio Gymraeg, fel y mynegwyd gan un rhanddeiliad a ddywedodd ei fod '*eisiau cymryd [ein] darganfyddiad a gweithio arno mewn ffordd ymarferol, fasnachol o ran sut y gallai hynny fod o fudd i ffermwyr Cymru yn fwy cyffredinol*'.

4.25 At ei gilydd, awgryma ymatebion yr arolwg fod y cyllid ar gyfer y CSCDS wedi llenwi niche yn nhirwedd ariannu Cymru, yn enwedig ar gyfer ariannu prosiectau amlddisgyblaethol.

*Eglurder y canllawiau ymgeisio*

4.26 Gyda'i gilydd, mae adborth y rhanddeiliaid ynghyd ag adolygiad o'r canllawiau sydd ar gael a dogfennau ymgeisio yn awgrymu nad oedd dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru yn cyfleu eglurder strategol. Cafwyd fersiwn ddiwygiedig o ganllawiau'r cynllun (sy'n cynnwys is-fesurau 16.2, 16.3, 16.4 a 16.6) i gyd-fynd â phob ffenestr ymgeisio, a dogfen ar wahân oedd â chanllawiau ar feini prawf y Datganiad o Ddiddordeb, y broses a ddilynid, a ffurflen gais, yn unol ag amcan penodol y rownd benodol honno. Ac eithrio'r ffenestri ymgeisio a oedd yn gysylltiedig ag adfer ar ôl COVID-19, y farn yw bod y dogfennau canllaw a adolygwyd yn anodd llywio drwyddynt ac mai ychydig iawn o gyfeiriadau oedd ynddynt at flaenoriaethau polisi penodol a sut maent yn berthnasol i weithgareddau prosiectau posibl.

4.27 Mae ambell eithriad i'r patrwm hwn, e.e. is-fesur 16.8, sef Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth, a oedd yn cynnwys nodiadau canllaw manwl iawn gydag amlinelliad o'r cyd-destun polisi yr oedd angen i brosiectau roi sylw iddo (e.e. yr angen i ddefnyddio tystiolaeth yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol [SoNaRR] wrth wneud achos dros brosiectau, a'r angen i fwydo i mewn i ddatganiadau ardal yn y dyfodol) a rownd Micro OCVO, yr oedd ei feini prawf cymhwysedd wedi canolbwyntio ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru (2019–24) Llywodraeth Cymru.

4.28 Er gwaethaf tystiolaeth glir yn deillio o'r adolygiad o'r broses fod ymrwymiad i dryloywder wrth wraidd dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gwybodaeth a chanllawiau (e.e. o ran canllawiau a meini prawf Datganiad o Ddiddordeb, trothwyon sgorio, a gofynion Gwerth am Arian), awgryma'r cyfweliadau â rhanddeiliad mai ychydig iawn ohonynt oedd hyd yn oed yn ymwybodol o'r dull o wahaniaethu'r ffocws polisi yn y gwahanol ffenestri ymgeisio.

*Effeithiolrwydd y broses ymgeisio dau gam*

4.29 Roedd sawl cyfwelai wedi gwneud sylwadau ar y broses ymgeisio, gan awgrymu nad oedd yn arbennig o feichus o gymharu â rhaglenni ariannu eraill, boed yn rhai Ewropeaidd neu rai eraill. Fodd bynnag, tueddai hyn i ddod gyda'r cafeat o gydnabod bod sgiliau a phrofiad personol o sicrhau a rheoli cyllid allanol wedi chwarae rhan allweddol yn hyn, gydag un cyfwelai, er enghraifft, yn nodi bod ganddo '*ysgrifenwyr ceisiadau medrus*' a bod hyn wedi helpu i wneud '*i bethau ffitio'.*

4.30 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd y byddai'r gwerthuswyr a oedd yn adolygu ceisiadau wedi meddu ar y sgiliau priodol i ganfod beth fyddai'r allbynnau a gynigid yn ei gyflawni. Yn ogystal, byddai safonwr yn herio'n rheolaidd pam y gwnaed penderfyniad/pam y rhoddwyd y sgôr.

4.31 Gan gyfeirio at yr iaith a ddefnyddiwyd a'r sgiliau ariannol oedd eu hangen, holodd llawer o randdeiliaid pa mor hygyrch fyddai'r broses i sefydliadau llai o faint neu lai profiadol neu i grwpiau o ffermwyr heb y sgiliau angenrheidiol, gan adrodd y byddai wedi bod yn *'anoddach i dîm llai profiadol*'. Yn ôl cyfweleion, gwaethygwyd hyn ar ôl symud yr SMU i Taliadau Gwledig Cymru, gan fod hyn wedi arwain at lai o gymorth ar gael yn rhwydd i ddarpar ymgeiswyr.

4.32 Roedd cyfweleion, yn arweinwyr prosiectau ac yn gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, yn croesawu'r broses dau gam mewn egwyddor, gan ei bod yn rhoi modd i ymgeiswyr gyflwyno syniadau yn gyntaf, a dim ond prosiectau sydd â siawns realistig o fod yn llwyddiannus fydd wedyn yn buddsoddi adnoddau mewn datblygiad prosiect manylach. Fodd bynnag, gwelwyd bod anawsterau gweithredu yn tanseilio'r egwyddor hon, gydag un cyfwelai, wrth gyfeirio at faterion yn ymwneud â defnyddio'r System Monitro a Rheoli Gwybodaeth am Brosiectau (PIMMS) fel y prif lwyfan TGCh, yn ei ddisgrifio fel '*syniad da a oedd wedi'i weithredu'n wael iawn'*.

4.33 Her allweddol y soniwyd amdani gan sawl un o’r arweinwyr prosiectau a holwyd oedd her yn ymwneud ag oedi wrth symud ymlaen o gymeradwyaeth mewn egwyddor yn y cam Datganiad o Ddiddordeb i ddyfarnu cyllid prosiect yn ffurfiol. Adlewyrchir hyn hefyd yn adborth yr arolwg, gyda 14 o’r 23 ymateb (61 y %) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf bod ‘*y cam ymgeisio llawn yn amserol ac yn effeithlon*’. Awgrymodd sawl arweinydd prosiect, yn enwedig o blith sefydliadau llai o faint, nad oedd llythyr ‘mewn perygl’ a gawsant yn eu hannog i ddechrau gweithio ar y prosiect o gymorth iddynt, oherwydd fel sefydliadau bach ni allent fwrw ymlaen heb sicrwydd 100 y % a’r cyllid ei hun yn cael ei roi.

4.34 Soniodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid hefyd am nifer o achosion lle’r oedd yr amser a aeth heibio rhwng cymeradwyo prosiect mewn egwyddor ar sail Datganiad o Ddiddordeb a’r gymeradwyaeth lawn derfynol wedi bod yn fisoedd lawer ac mewn rhai achosion yn flwyddyn neu fwy. Oherwydd hynny cododd problemau ynghylch yr ymrwymiadau a wnaed yn y cais prosiect gwreiddiol a diffyg hyblygrwydd canfyddedig mewn gweithgareddau ailbroffilio. Mewn sawl prosiect, er enghraifft, roedd gweithgareddau’n gysylltiedig â thymhorau tyfu, a chydag un tymor tyfu cyfan wedi’i golli yn y broses, roedd yn dal yn ofynnol iddynt gyflawni’r un lefel o weithgareddau ac allbynnau, gan roi pwysau ar adnoddau ac amserlenni.

_*Effeithiolrwydd y broses ymgeisio o ran sicrhau cydweddiad strategol*_

4.35 Fel y nodwyd yn flaenorol, rhoddwyd y CSCDS ar waith drwy gyfres o ffenestri ymgeisio gan fod â ffocws polisi penodol ar gyfer pob un. Roedd y broses yn cynnwys ymgeiswyr yn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb a hwnnw yn cael gwiriad cymhwysedd ac asesiad drwy fewnbwn gan arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i weld a oedd yn cyd-fynd â’r maes thematig priodol a gweithgarwch sectoraidd. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan gais llawn i’w ddatblygu a’i gyflwyno i Daliadau Gwledig Cymru (RPW).

4.36 Mae adborth gan randdeiliaid mewnol a gohebiaeth ynghylch y prosesau a ddefnyddiwyd yn cyfeirio at broses o fireinio’r ffocws strategol yn raddol a detholusrwydd y ffenestri ymgeisio a’r prosesau dethol. Er bod y cyfnod ymgeisio cynnar yn wir wedi defnyddio ymagwedd eang, agored, roedd rowndiau dilynol wedi pwyso ar ddealltwriaeth y garfan gychwynnol o brosiectau a buddsoddiadau ehangach yr RDP i gwtogi ar ofynion penodol. Cyfeirir, er enghraifft, at Cywain a Phrosiect HELIX fel ‘*prosiectau mawr, strategol*’ yn ymwneud â bwyd a diod ac felly

bod angen prosiectau ychwanegol i lenwi '*bylchau strategol*' mwy penodol. Byddai hynny wedi'i gyfathrebu i randdeiliaid â diddordeb drwy ddigwyddiadau Rhwydwaith Gwledig Cymru.

4.37 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd ei bod yn bwysig nodi bod gan y cynllun drwyddo draw amcanion penodol a thargedau perfformiad lefel uchel i'w hystyried, yn unol â dibenion y cyllid a nodwyd ac y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Roedd y rhain yn gyfreithiol rwymol. Yn ogystal, targedwyd y Datganiadau o Ddiddordeb terfynol i gefnogi diwydiant a chymunedau i ddatblygu cydnerthedd yn wyneb COVID-19 a'r angen i gefnogi adferiad.

4.38 Mae tystiolaeth hefyd o ryngweithio uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau ymgeisio unigol i alinio eu prosiect â gweithgareddau a ariannwyd yn flaenorol. Mae enghreifftiau'n cynnwys newid ffocws o ddatblygu clystyrau yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod tuag at weithio gyda mentrau Cymru gyfan a fodolai eisoes (gyda'r aliniad cysylltiedig o ran allbynnau) neu ofyn i brosiect arall leihau'r gyllideb yn sylweddol i gyflawni gweithgareddau mwy penodol. Mewn rhai achosion, sonnid am ymyriadau o'r fath yn adroddiadau gwerthuso terfynol y prosiectau a adolygwyd ar gyfer y meta-adolygiad i fod yn ymyriadau a allai fod wedi gwanhau eglurder amcanion eu prosiect.

4.39 Fodd bynnag, roedd galwadau ar i Lywodraeth Cymru chwarae rhan gryfach wrth gefnogi fframio strategol ar geisiadau prosiect, e.e. dywedodd un cyfwelai y byddai rhywfaint o adborth ar y cais wedi bod yn ddefnyddiol: '*Roedd* [y broses ymgeisio] *yn ymarferol iawn ac ni feirniadodd neb y cais gwreiddiol*.'

4.40 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd bod adborth yn cael ei annog a'i roi os gofynnid amdano. Yn ogystal, roedd proses apelio ar gael i ymgeiswyr.

4.41 Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y collwyd cyfleoedd i gynnal asesiad strategol wedi'i dargedu ar weithgaredd penodol ar adeg datblygu cynigion prosiect, ac o ganlyniad fod neb o bosibl wedi sylwi ar achosion o ddiffyg aliniad strategol prosiectau (e.e. gwendidau wrth bwyso a mesur argaeledd a chapasiti asedau prif gadwyni cyflenwi, diffyg archwilio gwir ddiwylliannau, dyheadau a galluoedd sefydliadau buddiolwyr neu ddealltwriaeth gyfyngedig iawn o alw'r farchnad cyn datblygu cynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd).

4.42 Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu wrth ddatblygu ceisiadau mai prin yr ystyriwyd mewnwelediadau a gafwyd o iteriadau cynharach o fuddsoddiadau'r RDP mewn prosiectau cydweithredol i gryfhau economïau gwledig yng Nghymru (e.e. o ganlyniad i drafodaethau â'r SMU neu dynnu ar agosrwydd yr ymgeiswyr eu hunain at brosiectau blaenorol). Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd wedi holi a fanteisiwyd i'r eithaf ar yr hyn a ddysgwyd o Gynllun Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi a sut y gwnaed hynn. Cyfeiriodd rhai at brosiectau penodol nad oeddent wedi cyfrannu'n ddigonol at ddatblygiad prosiectau pellach, gyda rhai prosiectau i'w gweld yn cael eu cyflwyno mewn gofod tebyg iawn i brosiectau blaenorol heb dynnu'n uniongyrchol ar yr hyn a ddysgwyd yn y rheiny.

4.43 Ymddengys bod newidiadau mewn staff a'r newidiadau yn y seilwaith gweinyddol a roddwyd ar waith i redeg yr CSCDS (yn enwedig ad-drefnu gweinyddiaeth y cynllun i fod yn rhan o Daliadau Gwledig Cymru ym mis Ionawr 2018) wedi effeithio ar y parhad hwn, yn fwyaf nodedig drwy fod Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi yn rhagflaenydd uniongyrchol y CSCDS.

**Eglurder Theori Newid y CSCDS**

4.44 Yr argraff gyffredinol a gafwyd o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yw bod y Theori Newid ar gyfer y CSCDS mor eang fel bod amrywiaeth eang iawn o brosiectau'n cael eu hariannu drwy'r cynllun. Rhoddodd un arweinydd prosiect â chefndir amaethyddol grynhoad o'r farn gyffredin hon drwy ddweud '*roedd ganddo gylch gorchwyl eang iawn. Roedd hyd yn oed yn ymestyn i drafnidiaeth*.' O ganlyniad, nid oedd llwybrau'r Theori Newid ar gyfer is-fesurau unigol, gweithgareddau perthnasol, ac amcanion a chanlyniadau penodol yn glir iawn.

4.45 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd bod mynediad at wasanaethau yn flaenoriaeth i Gymru wledig, gyda thrafnidiaeth yn un ohonynt.

4.46 Heb feincnodau a gan fod themâu'r cynllun mor eang, barn gyffredin ymysg rhanddeiliaid mewn cyfweliadau oedd ei bod hi'n anodd mesur i ba raddau yr oedd eu prosiect yn cyd-fynd â'r amcanion, '[Nid oeddem] *yn siŵr beth oedd y mesur cyffredinol ynghylch beth fyddai llwyddiant, oherwydd roedd* [ein] *prosiect yn wahanol iawn i'r gweddill ac nid oeddem yn siŵr sut y gallai ffitio i mewn i'r darlun cyffredinol.'* Sylwodd rhanddeiliaid fod diffyg cysylltiad rhwng gorchmynion polisi diriaethol a'r prosiectau a ariennir, gyda diffyg eglurder o ran diffiniad o'r mathau o weithgareddau a all sicrhau gwerth ychwanegol strategol: '*Nid oedd union ffocws ac amcanion*

*polisi'r cynllun ei hun yn glir iawn o gwbl ac nid oedd cysylltiad o gwbl â pholisïau drwy'r prosiect ei hun.'*

4.47 Mae'n ymddangos bod newidiadau cynnar ynghylch defnydd Llywodraeth Cymru o wahanol is-fesurau'r RDP hefyd wedi effeithio ar eglurder Theori Newid y CSCDS, e.e. newidiadau yn y meini prawf cymhwysedd yng nghamau cynnar gweithredu'r cynllun yn ogystal ag anhyblygrwydd wrth drin Cymorth Gwladwriaethol rhwng gwahanol fesurau/is-fesurau sy'n atal defnydd cyfunol neu ddilyniannol o wahanol is-fesurau. Yn sgil eglurhad y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch yr union feini prawf cymhwysedd ar gyfer is-fesur 16.4, bu'n rhaid cael cryn dipyn o ailaddasu yn ystod camau cynnar gweithredu'r cynllun, gan arwain at yr angen i symud ceisiadau a phrosiectau cyfnod cynnar o is-fesurau 16.4 i 16.2 neu yn wir i gynlluniau ariannu eraill yn llwyr. Daeth hyn ar draul ffocws strategol prosiectau unigol. Er enghraifft, cymeradwywyd un prosiect i ddechrau arni i ganolbwyntio ar ddatblygu clystyrau a chymorth marchnata yn y sector twristiaeth bwyd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bu'n rhaid symud tuag at greu adnoddau marchnata mwy generig, a oedd wedi gwanhau'r cysylltiad ag anghenion buddiolwyr penodol a'r potensial i gynhyrchu canlyniadau uniongyrchol i fusnesau gwledig.

4.48 Roedd rhai cyfweleion o'r farn y dylai'r CSCDS fod wedi canolbwyntio'n llawer cliriach ar amaethyddiaeth a dull sy'n cael ei arwain yn fwy gan ffermwyr/yn fwy fferm-ganolog, gan awgrymu bod '*bwlch mawr mewn prosiectau wedi'u dechrau gan ffermwyr*' ac '*yn gyffredinol doedd dim digon o ffocws ar ganlyniadau i ffermio*'. Er mwyn cefnogi ffermwyr a'u hannog i gael mynediad at gynllun fel y CSCDS dylai fod '*o leiaf rywfaint o froceriaeth neu hwyluso*'. Heb hyn, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod '*dull datblygu sector wedi'i greu heb ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr*'. Yn y cyd-destun hwn, ac fel rhan o ddadl hirsefydlog ynghylch y defnydd gorau o arian yr RDP yn fwy cyffredinol, mae sylwadau o'r fath yn nodi ymhellach yr angen i gyfleu yn llawer cliriach y rhesymeg dros yr ymyrraeth a'r gwerth strategol y tu ôl i'r CSCDS.

4.49 Yn olaf, oherwydd hyblygrwydd y CSCDS ei hun o'i gymharu â chynlluniau eraill yr RDP ymddengys bod cymhelliad dros gyfnod saith mlynedd y rhaglen i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r cynllun i ariannu gweithgareddau y tybiwyd eu bod yn cyfrannu at amcanion polisi ehangach yr RDP a Llywodraeth Cymru mewn ffordd hyblyg. Bydd hyn wedi cyfrannu at amcanion strategol ar lefel polisi gronynnog ond –

fel y nododd sawl cyfwelai – mae wedi gwanhau eglurder y Theori Newid trosfwaol ar gyfer y CSCDS ei hun.

4.50 Ar y cyfan, felly, ac er bod cydweddiad strategol yn un o'r meini prawf allweddol ar gyfer asesu Datganiadau o Ddiddordeb y CSCDS, nid oedd unrhyw Theori Newid glir ar gyfer y CSCDS fel ffrâm gyfeirio hygyrch i arwain datblygiad prosiectau.

*Y llywio gan Lywodraeth Cymru o ran amcanion strategol*

4.51 Tueddai rhanddeiliaid i weld elfennau cadarnhaol a negyddol yn ehangder y cynllun ac yn y meini prawf eang ar gyfer bod yn gymwys. Nododd rhai fod y dull hwn yn cyd-fynd yn dda iawn â natur datblygu gwledig yng Nghymru, o ran '[…] *bod cymunedau gwledig yn wahanol iawn, er enghraifft, o ran demograffeg, lleoliad, arfordirol, trefol, yn y Gorllewin* […] *o gymharu â chymunedau cadarnleoedd y Gymraeg*'. Roeddent yn croesawu'r cyfle i fanteisio ar y wybodaeth a'r profiad ar lawr gwlad a'r ffordd y bu i'r CSCDS alluogi ystod eang o brosiectau i gael cyllid.

4.52 Fodd bynnag, roedd llawer o'r farn bod yr ehangder hwn wedi arwain at ddiffyg eglurder ynghylch blaenoriaethau strategol a byddent wedi croesawu mwy o ymgysylltu yn ymwneud â chanlyniadau disgwyliedig prosiect. '*Nid yw defnyddio cydweddiad strategol yn unig* […] *yn golygu gweithredu amcanion polisi Llywodraeth Cymru*.' Y tu hwnt i'r cwestiwn o asesu cydweddiad strategol ceisiadau prosiect ar adeg eu cyflwyno, mae nifer o randdeiliaid, yn gynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru ac yn arweinwyr prosiectau, felly wedi galw am gyfeiriad strategol cryfach ar gyfer buddsoddiadau prosiect o'r math hwn.

4.53 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cydnabod gwerth cael persbectif o'r gwaelod i fyny wrth nodi'r prif faterion a chyfleoedd allweddol y gellir mynd i'r afael â hwy drwy brosiectau peilot cydweithredol a buddsoddi mewn datblygu, profi ac arddangos cynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd. Cydnabuwyd gwerth caniatáu i'r sector ac/neu ymgeiswyr nodi eu hunain yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn flaenoriaethau, yn hytrach na gosod blaenoriaethau 'o'r brig i lawr'. Serch hynny, y farn oedd y byddai'n ddymunol defnyddio mewnwelediadau a arweinir gan bolisi i ysgogi cynigion prosiect a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thagfeydd strategol a nodwyd.

4.54 Wrth edrych i'r dyfodol, dywedodd rhai rhanddeiliaid, er bod dull gweddol hael y CSCDS yn caniatáu cwmpas eang, mae hyn yn debygol o newid yn y dyfodol ar ôl i gyllid Ewropeaidd ddod i ben: '*Yn y dyfodol bydd swm y cyllid fydd ar gael yn debygol*

*o fod yn llai, felly bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy strategol wrth ddyrannu cyllid*.' Ar ben hynny, '*yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru fynegi mwy o farn ar beth i'w ariannu*'.

**Monitro ac adrodd**

*Effeithiolrwydd y cyfathrebu rhwng buddiolwyr a Llywodraeth Cymru*

4.55 Mae darlun clir yn dod i'r amlwg o'r meta-adolygiad ac o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid bod cyfathrebu effeithiol â swyddogion oedd â gofal am fonitro ac adrodd gweithgareddau prosiect CSCDS wedi bod yn destun cryn oedi yn y cynllun. Dro ar ôl tro, tynnodd y cyfweleion sylw at gyfathrebu gwael iawn ag RPW, gydag amseroedd ymateb hir ar gyfer ymholiadau yn ogystal ag anfodlonrwydd ag ymatebion annelwig a di-fudd ynghyd â gwaith papur beichus a diangen o drwm.

4.56 Gan adleisio adborth rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol, mae un adroddiad gwerthuso yn cyferbynnu'n benodol y profiad cynnar o gyfathrebu'n uniongyrchol â'r SMU â'r darlun mwy diweddar o oedi hir mewn amseroedd ymateb drwy borth ar-lein RPW, a hyn wedi effeithio ar effeithlonrwydd cynnal prosiectau. Roedd yn rhaid i bob ymholiad, gan gynnwys cwestiynau brys, gael ei wneud trwy borth i dîm canolog heb wybodaeth am brosiectau unigol na'r gallu i roi cyngor y tu hwnt i gydymffurfiaeth yn ymwneud ag adrodd.

4.57 Tynnwyd sylw hefyd gan y cyfweleion at y ffaith nad oedd y dangosyddion lefel achos, y targedau cysylltiedig, a'r lefelau gwariant yn addas iawn i ddeall a oedd prosiect yn cyflawni yn erbyn canlyniadau ar gyfer buddiolwyr ac economïau gwledig ehangach. Roeddent yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer rheolaeth lwyddiannus ar y CSCDS er mwyn cael ffocws parhaus ar ddeall cynnydd gwirioneddol wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru.

4.58 Mae'n werth nodi hefyd nad yw canlyniadau ac effeithiau disgwyliedig y CSCDS fel y'u disgrifir yn y dogfennau canllaw (ac a adlewyrchir yn y modelau Theori Newid ar gyfer y gwerthusiad hwn — gweler Pennod 3) bob amser yn cyd-fynd yn dda â'r amcanion a nodir ar gyfer prosiectau unigol y CSCDS. Gan fod y canlyniadau wedi'u fframio yng nghyd-destun busnesau amaethyddol fel y prif grŵp targed a ragwelid, nid yw'n hawdd trosglwyddo'r canlyniadau a nodir yn y dogfennau hynny i brosiectau sy'n canolbwyntio'n gryfach ar ddatblygu cymunedol, ansawdd amgylcheddol lleol, a gwasanaethau ecosystem ehangach, yn ogystal ag elfennau cysylltiedig ag iechyd a

lles a safbwyntiau busnes cymunedol. Ac eto, roedd y rhain o fewn sgôp y CSCDS ac yn rhan sylweddol o weithgareddau prosiect y CSCDS.

*Y cymorth oedd ar gael ar ôl cael dyfarniad cyllid*

4.59 Dywedodd rhanddeiliaid yn benodol fod y berthynas adrodd yn canolbwyntio'n llwyr ar elfennau gweinyddol, yn hytrach nag unrhyw ddiddordeb mewn gweithgareddau a chynnydd prosiect, a hyn wedi'i ddisgrifio gan un cyfwelai fel prosiectau yn '*rhifau ar sgrin*' yn unig. Ni ddarparwyd unrhyw gymorth na chanllawiau manwl, er enghraifft, ynglŷn â'r gwerthusiadau ar brosiectau unigol – neu yn wir fel y gresynodd llawer o randdeiliaid – unrhyw ddiddordeb wedi'i ddangos yn yr adroddiadau gwerthuso ar ôl eu cwblhau. Byddai'r diffyg rhyngweithio hwn â chynnydd prosiectau wedi cyfyngu'n ddifrifol ar oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar y cynllun ar unrhyw adeg benodol.

4.60 Cymysg yw'r adborth ynghylch ailbroffilio prosiectau. Er yr ymddengys, mewn ymateb i argyfwng COVID-19, fod prosesau effeithiol wedi'u canfod i awdurdodi estyniadau neu ailedrych ar dargedau prosiect, ystyrir bod ailbroffilio wedi bod yn fwy heriol mewn amgylchiadau eraill. Dywedwyd *'unwaith y byddai cyllid wedi'i ddyrannu i brosiect roedd yn anhyblyg iawn'* a bod *'hyn yn ei gwneud hi'n anodd rhedeg prosiectau mewn cyd-destun polisi sy'n newid yn gyflym'*. Dywedodd rhai o arweinwyr prosiect y cyfwelwyd â nhw y byddai cael ailbroffilio i'w prosiect wedi bod mor gymhleth fel eu bod, yn lle hynny, wedi dewis parhau i gyflawni gweithgareddau prosiect fel y'u cynlluniwyd yn wreiddiol, hyd yn oed os nad dyma o reidrwydd y rhai mwyaf effeithlon neu os nad oeddent yn rhoi'r canlyniadau gorau.

4.61 O ystyried cysylltiadau â thimau polisi Llywodraeth Cymru, mae tystiolaeth o ryngweithio cryf pan oedd gan brosiectau berthynas a oedd yn bodoli eisoes neu gysylltiad uniongyrchol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'r timau cysylltiedig, e.e. swyddogion polisi Llywodraeth Cymru â diddordeb yn cael eu cynrychioli neu hyd yn oed yn gweithredu fel grym gyrru yn y grŵp llywio.

4.62 O ganlyniad i newidiadau mawr yn y staff yn ystod y rhaglen saith mlynedd, ni fu'n bosibl cael safbwynt rhanddeiliaid polisi Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r mewnwelediadau a gafwyd o nifer fach o gyfweliadau â chynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru yn awgrymu mai gwanhau'n raddol wnaeth y cysylltiad rhwng y CSCDS a thimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i'r adolygiad cychwynnol a'r asesiad o'r datganiadau o ddiddordeb.

4.63 Ymddengys bod is-fesur 16.8, er enghraifft, wedi crebachu, a hwn o bosibl oedd yr is-fesur oedd â'r cyfeiriad strategol mwyaf manwl ar y cychwyn. Gan mai un prosiect yn unig a gafodd ei ariannu, mae'n ymddangos nad yw'r amcan uchelgeisiol o ysgogi cydweithredu ar gyfer cynllunio rheoli coedwigoedd ar raddfa tirwedd neu greu coedwigoedd wedi cael unrhyw effaith. Heblaw am rywfaint o ymwybyddiaeth o weithdai cynnar a gynhaliwyd gan Rwydwaith Gwledig Cymru a ddeuai â rhanddeiliaid coedwigaeth at ei gilydd, mae'r cyfweliadau'n awgrymu mai ychydig iawn o weledoedd oedd gan yr is-fesur ei hun a'i uchelgais, ac mae'n ymddangos na fu unrhyw gysylltiad byw â ffocws polisi parhaus Llywodraeth Cymru ar greu coetiroedd.

**Y broses hawlio**

4.64 Y broses hawlio oedd yr elfen a gafodd ei beirniadu fwyaf yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid. Soniodd arweinwyr prosiectau yn helaeth dro ar ôl tro am broblemau ac oedi, gan ddisgrifio'r broses yn '*erchyll*', '*poenus*', '*ofnadwy*' a '*hunllefus*'. Roedd un adroddiad gwerthuso a gafodd sylw yn y meta-adolygiad wedi crynhoi'r sefyllfa, gan nodi bod '*y prosiect wedi wynebu llawer o heriau wrth wneud hawliad ariannol i gael mynediad at y cyllid a ddyrannwyd iddo, a hynny oherwydd cymhlethdodau yn y system ar-lein a diffyg cymorth cyson ar gael*'.

4.65 Mae elfennau a gododd yn gyson yn y cyfweliadau yn cynnwys y canlynol:

- y ffaith mai dim ond yn ôl-weithredol y talwyd y grant yn erbyn gwariant gwirioneddol (gydag opsiwn o daliad ymlaen llaw nad oedd yn gyffredinol hysbys)
- yr adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno tystiolaeth hynod fanwl ar gyfer proses hawlio 'gymhleth' (e.e. slipiau cyflog ar gyfer staff, taflenni amser a ddisgrifir i fod yn 'ystrywgar' gan un cyfwelai, rhagolygon llif arian bob pythefnos, a dogfennau ategol ar gyfer pob gwariant dros £7,500)
- diffyg amserlenni penodol ar gyfer prosesu hawliadau, gan wneud cynllunio ariannol yn anodd
- diffyg cymorth technegol ymatebol, diffyg parhad ac anghysondebau mewn canllawiau amhersonol, ychydig iawn o gymorth ystyrlon ac oedi hir cyn cael eglurhad neu ddatrysiad ar gyfer materion a godwyd
- y systemau beichus nad oedd yn rhwydd eu defnyddio o gwbl

- y ffaith bod polisïau caffael sefydledig (gan gynnwys mewn sefydliadau sydd eu hunain yn atebol i'r cyhoedd) yn cael eu herio a rheolau caffael yn cael eu cymhwyso'n gaeth iawn (e.e. y rheol tri dyfynbris yn cael ei chymhwyso'n ôl-weithredol a'r gofyniad am dri dyfynbris hyd yn oed ar gyfer offer arbenigol iawn gyda dim ond un cyflenwr posibl yng Nghymru)
- oedi hir cyn prosesu hawliadau a thalu arian (hyd at ddwy flynedd mewn un achos), gan arwain at broblemau llif arian amlwg, yn enwedig i sefydliadau llai, a niwed i enw da wrth i'r oedi wrth brosesu hawliadau olygu bod rhai sefydliadau wedi'u gadael yn y fath sefyllfa nes eu bod yn methu talu contractwyr.

4.66 Awgrymodd sawl rhanddeiliad mai'r argraff a gawsant oedd bod y system wedi'i sefydlu gyda sefydliadau mwy mewn golwg, gyda staff a systemau penodol. Er bod cyfweleion o sefydliadau o'r fath wedi awgrymu eu bod yn gallu ymdopi â'r prosesau, teimlent hefyd nad oeddent yn briodol ar gyfer y math o brosiectau y cynlluniwyd y CSCDS i'w cefnogi.

4.67 Soniodd arweinwyr prosiect dro ar ôl tro am symiau heb eu talu (rhai sylweddol mewn rhai achosion) a beirniadwyd yr effaith bosibl y gallai hyn ei gael ar sefydliadau llai sydd heb y cronfeydd wrth gefn gofynnol i fedru ymdopi ag ariannu diffyg o'r fath.

4.68 Er nad oedd unrhyw ddata cyfredol cyflawn ar gael ynghylch lefel y grant a dalwyd ar gyfer prosiectau CSCDS unigol, mae data dyfarniadau grant 24 Hydref 2022 yn rhoi modd cynnal dadansoddiad dangosol. Fel yr awgryma Tabl 4.5, roedd traean y prosiectau wedi derbyn llai na hanner y grant a ddyfarnwyd i'w gweithgareddau ar yr adeg honno.

**Tabl 4.5: Lefel ddangosol y grant a dalwyd fesul prosiect erbyn 24 Hydref 2022**

| % o'r grant a dalwyd erbyn 24 Hydref 2022 | Nifer y prosiectau yn y dosbarthiad | % y prosiectau yn y dosbarthiad |
|---|---:|---:|
| Dim data | 12 | 15% |
| Hyd at 10% | 7 | 9% |
| >10% <=25% | 7 | 9% |
| >25% <=50% | 12 | 15% |
| >50% <=75% | 10 | 13% |
| >75% <=100% | 30 | 38% |
| **Cyfanswm** | **78** | **100%** |

Ffynhonnell: Ein dadansoddiad o ddata olrhain dangosol CSCDS

4.69 Roedd nifer o'r cyfweleion yn flin yn enwedig oherwydd y ffaith bod y gofynion ar gyfer y broses hawlio a'r dystiolaeth yr oedd angen iddynt ei chynhyrchu ar gyfer prosesau archwilio wedi newid hanner ffordd drwy'r cynllun. '*Cafwyd sawl ailddiffinio paramedrau'r prosiect a Llywodraeth Cymru yn dweud "nawr rydym yn golygu hyn", a hynny'n anodd addasu iddo*' a theimlwyd bod hyn yn ddiffyg proses deg a thryloyw.

4.70 Roedd sawl enghraifft o brosiectau, mewn rhai achosion rhai oedd â hawliadau heb eu datrys yn gysylltiedig ag archwiliadau fel y rhain, lle roedd hi'n ofynnol iddynt ddarparu cofnodion manwl iawn ar wariant misoedd lawer ar ôl i weithgareddau prosiect ddod i ben a staff wedi symud ymlaen, gan '*greu pwysau sylweddol ar sefydliadau*'. Nodwyd bod y dull hwn yn anodd oherwydd '*ni allwch ôl-osod gwaith craffu*'.

4.71 Ymateb Llywodraeth Cymru i hyn oedd bod darparu tystiolaeth wedi bod yn ofyniad drwy'r adeg. Pan na ddarparwyd hyn yn ystod y broses hawlio gychwynnol, byddai oedi wedi'i achosi ar ddiwedd y prosiect.

4.72 Er bod rhai arweinwyr prosiect wedi awgrymu na fyddent yn ymgeisio am gyllid tebyg eto, awgrymodd sawl un arall eu bod wedi bod yn fodlon ac y byddent yn fodlon eto ymgysylltu â chynllun fel y CSCDS oherwydd bod y cyllid yn llenwi bwlch o ran cymorth hyblyg ar gyfer mentrau cydweithredol arloesol na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Roedd bron pob un o'r cyfweleion a oedd yn arweinwyr prosiect, fodd bynnag, yn pryderu am natur or-gymhleth a beichus y broses hawlio a, thrwy hynny, am lefel adnoddau'r prosiect yr oedd yn rhaid eu hymrwymo i ymdrin â'r broses weinyddol, adnoddau y byddai wedi bod yn well ganddynt yn hytrach eu gweld yn cael eu defnyddio i hybu cynnal y prosiect a chyflawni'r allbynnau.

# 5. Perfformiad y CSCDS

### Cyllid y CSCDS a ddyfarnwyd

5.1 Nid oedd niferoedd terfynol y prosiectau, data gwariant, a ffigurau allbwn ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gan eu bod yn destun prosesau archwilio. Bydd y ffigurau terfynol felly yn cael eu hadrodd fel rhan o werthusiad ex-post yr RDP yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Mae'r ffocws yma felly ar ddeall natur y gweithgareddau a gefnogwyd a'r canlyniadau yr esgorwyd arnynt, gan fod yn ddadansoddiad dangosol yn unig o bwysigrwydd cymharol gwahanol fathau o brosiectau ym mhortffolio cyffredinol y prosiectau.

5.2 Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod y prosiectau a gynhaliwyd wrth ddefnyddio cyllid y CSCDS yn amrywiol iawn, gan gwmpasu gwaith dichonoldeb, gweithgareddau peilot ac arddangos, yn ogystal â datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd. Yn thematig, roedd y gweithgareddau'n amrywio o weithgarwch amaethyddol/garddwriaeth, marchnata bwyd a diod a thwristiaeth, i brosiectau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, gwasanaethau ecosystem pridd a dŵr, a thrafnidiaeth gynaliadwy, yn ogystal â gweithgareddau datblygu gwledig ehangach sy'n cynnwys teithio llesol, y Gymraeg, a chynhwysiant digidol. Roedd natur y cydweithio a oedd wrth galon prosiectau'r CSCDS yr un mor amrywiol, gan gynnwys partneriaethau prosiectau bychain a gynlluniwyd i ysgogi arbenigedd cyflenwol ar gyfer cyfle datblygu penodol, cydweithredu rhwng academyddion neu gyfryngwyr economi wledig gydag ymarferwyr mewn meysydd gweithgaredd amrywiol, yr holl ffordd i gynghreiriau eang o rhanddeiliaid allweddol a oedd yn cynnwys gweithgareddau allweddol y diwydiant, y byd academaidd, a phartneriaid polisi.

### Cyflawni targedau

5.3 Nid yw'n bosibl asesu cyflawni targedau yn y CSCDS, gan nad yw'r tîm gwerthuso wedi cael mynediad at set o ddata monitro ar lefel cynllun, lefel yr is-fesurau nac ar lefel prosiectau o ran targedau a osodwyd neu a gyflawnwyd. Yn ogystal, dim ond tua thraean o werthusiadau terfynol ar brosiectau unigol oedd ar gael. Nid yw cyflawniadau targed fel y'u hadroddwyd yn yr adroddiadau gwerthuso ychwaith yn adlewyrchu'r sefyllfa derfynol wedi'i dilysu a'i chymeradwyo trwy'r broses hawlio. Mae'r holl sylwadau ar gyflawni targedau a gyflwynir yma felly o natur ddangosol, gan

roi cyfle i adfyfyrio ar y defnydd o dargedau yn ogystal â datganiadau petrus o'r hyn a gyflawnwyd o ran allbynnau.

5.4 Sicrhawyd bod y sefyllfa o ran allbynnau yn erbyn dangosyddion ar lefel achos a lefel y rhaglen hyd at fis Gorffennaf 2023 ar gael ac wedi'u dilysu ar gyfer y gwerthusiad. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys manylion y targedau priodol. Serch hynny, gall roi ciplun o'r allbynnau a gyflawnwyd hyd yma gan y CSCDS.

**Tabl 5.1: Allbynnau 16.2 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu**

| Dangosydd | Nifer y prosiectau | Swm yr allbwn – pob prosiect |
|---|---|---|
| **Dangosyddion ar lefel achos** | | - |
| Nifer y daliadau fferm a gynorthwywyd | 1 | 7.00 |
| Nifer yr astudiaethau dichonoldeb | 34 | 212.00 |
| Nifer y daliadau/buddiolwyr a gefnogwyd | 28 | 40,159.00 |
| Nifer y gweithredoedd lledaenu gwybodaeth/hyrwyddo ac/neu weithgareddau marchnata a gyflawnwyd i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect arfaethedig ac/neu ei ganlyniadau | 52 | 34,528.00 |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 42 | 526.52 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 16 | 852.94 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 52 | 256.00 |
| Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 42 | 11,232.00 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd | 1 | 4,856.00 |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw | 67 | 45,021.00 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi | 28 | 4,348.00 |
| Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant/sgiliau | 7 | 159,297.92 |
| **Dangosyddion ar lefel rhaglen** | | |
| Allbwn 17 – Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (ac eithrio EIP) | 69 | 525.00 |
| Allbwn 21 – Nifer y prosiectau cydweithredu a gefnogwyd | 3 | 2.00 |
| Allbwn 3 – Nifer y camau gweithredu/gweithrediadau a gefnogwyd | 2 | 42.00 |

Ffynhonnell: Data olrhain y CSCDS – nid yw'r data wedi'i ddilysu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru

**Tabl 5.2: Allbynnau 16.4 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu**

| Dangosydd | Nifer y prosiectau | Swm yr allbwn – pob prosiect |
|---|---|---|
| **Dangosyddion ar lefel achos** | | - |
| Nifer yr astudiaethau dichonoldeb | 6 | 11.00 |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 3 | 92.00 |
| Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant | 1 | 54.00 |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw | 6 | 2,198.00 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi | 1 | 18.50 |
| **Dangosyddion ar lefel rhaglen** | | |
| Allbwn 17 – Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (ac eithrio EIP) | 4 | 7.00 |
| Allbwn 3 – Nifer y camau gweithredu/gweithrediadau a gefnogwyd | 1 | 3.00 |

| Dangosydd | Nifer y prosiectau | Swm yr allbwn – pob prosiect |
|---|---|---|
| Allbwn 9 – Nifer y daliadau sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau a gefnogwyd | 4 | 184.00 |

Ffynhonnell: Data monitro'r CSCDS – nid yw'r data wedi'i ddilysu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru

### Tabl 5.3: Allbynnau 16.8 ym mis Gorffennaf 2023, wedi'u dilysu

| Dangosydd | Nifer y prosiectau | Swm yr allbwn – pob prosiect |
|---|---|---|
| **Dangosyddion ar lefel achos** | | - |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw | 1 | 73.00 |
| **Dangosyddion ar lefel rhaglen** | | |
| Allbwn 17 – Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (ac eithrio EIP) | 1 | 2.00 |

Ffynhonnell: Data monitro'r CSCDS – nid yw'r data wedi'i ddilysu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru

5.5 Mae'r meta-adolygiad o'r 29 prosiect yr oedd adroddiad gwerthuso terfynol ar gael ar eu cyfer yn rhoi argraff betrus o lefel cyrhaeddiad targedau prosiectau'r CSCDS. Cipolwg bach yn unig yw hwn, gan nad oedd rhestr gyflawn o ddangosyddion ar gyfer holl brosiectau'r CDCDS na manylion perfformiad ar lefel rhaglen ynghylch cyflawni targedau ar gael i'r gwerthusiad.

5.6 Awgryma'r dadansoddiad meta-adolygiad hwn, o ran y dangosyddion lefel achos a ddewiswyd i adrodd ar berfformiad prosiect:

- y rhai a ddewiswyd amlaf gan brosiectau oedd nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw (dewiswyd gan 20 prosiect), nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd (15), nifer y daliadau/buddiolwyr a gefnogwyd (14), a nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant (14)
- y rhai a ddewiswyd lleiaf aml oedd nifer y swyddi a ddiogelwyd (dau) a chyfanswm gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant/sgiliau (tri).

5.7 Gan fod amrywiaeth mawr ym maint a natur amcanion y prosiectau, mae'r targedau hwythau yn cwmpasu ystod rifiadol eang iawn, e.e. o darged o ymgysylltu â phum rhanddeiliad (gyda chanlyniad o 21) i un oedd â tharged o ymgysylltu â 6,000 o randdeiliaid (gyda chanlyniad o 9,257). Yn sgil y ffaith ei bod yn ymddangos bod y dangosyddion wedi'u cymhwyso mewn ffyrdd gwahanol iawn ac nad oedd data monitro awdurdodol ar dargedau a'u cyflawniad wedi'u dilysu ar gael i'r gwerthuswyr, nid yw'n bosibl asesu a oedd y targedau yn realistig ai peidio.

5.8 O ran cyflawni targedau, mae darlun amrywiol iawn yn dod i'r amlwg eto o'r meta-adolygiad. Gan amlaf cyflawnwyd neu rhagorwyd ar y targedau i raddau amrywiol iawn. Dim ond tri phrosiect oedd wedi tanberfformio ar draws yr ystod o ddangosyddion ar lefel achos a ddewiswyd. Nifer y diwrnodau hyfforddi yw'r targed amlaf y methwyd â'i gyflawni, a'r adroddiadau gwerthuso'n tueddu i gysylltu hyn ag effaith COVID-19.

5.9 Mae adborth o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu mai cynnig adlewyrchiad cyfyngedig iawn y mae'r targedau a'r dangosyddion ar lefel achos o ran perfformiad prosiect. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau gwerthuso terfynol ar gyfer dim ond 13 o'r 29 o brosiectau yn y meta-adolygiad yn cynnwys manylion y dangosyddion pwrpasol a ddefnyddiwyd i reoli perfformiad prosiectau, gan awgrymu amharodrwydd ar ran prosiectau i ychwanegu (neu o leiaf adrodd ar) ddangosyddion perfformiad ychwanegol. Mae'n bwysig cydnabod yr heriau o sefydlu set o ddangosyddion cyffredin ar gyfer cynllun mor eang â hyn. Mae'r heriau o ddadansoddi data ar lefel cynllun neu is-fesur, fel y ceisir ei wneud yma, felly yn symptom o'r modd y cynlluniwyd y cynllun.

5.10 Mae'r dangosyddion a'r targedau penodol a ddewiswyd yn amrywiol iawn, yn amrywio o un prosiect yn monitro nifer yr atebion hyfforddi arloesol a ddatblygwyd a nifer y cymwysterau uwch a enillwyd (gyda thargedau sy'n amlwg yn uchelgeisiol na chânt eu cyflawni) i un sy'n defnyddio dangosyddion manwl iawn a thargedau dyheadol yn ymwneud â chanlyniadau darparu trafnidiaeth gymunedol (rhagorwyd arnynt i gyd), yn ogystal â thraean o oriau recordio sesiynau buddiolwyr (wedi rhagori'n sylweddol) a darnau o dir wedi'u gwella (ni osodwyd targed meintiol). Mae eraill yn cyfeirio yn unig at y dangosyddion a'r targedau penodol a osodwyd ar gyfer eu prosiect, e.e. cwblhau un adolygiad o'r diwydiant a chynnal un arddangosiad o ap, nifer y camau lledaenu a wnaed (gan gyfrif dosbarthu llyfryn fel un cam lledaenu) neu lunio un adroddiad.

**Effeithiolrwydd gweithgareddau cydweithredu**

*Beth gafodd ei ddatblygu?*

5.11 A barnu yn ôl sampl y prosiectau sydd yng nghwmpas y meta-adolygiad, ac yn unol ag ehangder yr amcanion a ddilynir gan y CSCDS (fel yr adlewyrchir yn y modelau Theori Newid sydd i'w gweld ym Mhennod 3), mae'r canlyniadau a gyflwynir yn amrywiol iawn. Mae hyn yn rhwystr i gategoreiddio systematig. Nid yw'r canlyniadau

a drafodwyd yn yr adroddiadau gwerthuso ychwaith yn mapio'n llawn yr allbynnau penodol fel y'u nodir yn y canllawiau ar gyfer y gwahanol is-fesurau.

5.12 Yn yr ymatebion i'r arolwg ceir argraff gyntaf o'r hyn y mae'r arweinwyr prosiect eu hunain yn meddwl sydd wedi'i gyflawni gan eu prosiectau. Gan fod 91 y % o'r 27 o ymatebwyr yn ystyried trosglwyddo/rhannu gwybodaeth a chreu gwybodaeth (86 y %) yn bwysig iawn neu'n bwysig yn yr hyn y mae eu prosiect CSCDS wedi'i gyflawni, mae'n ymddangos bod y rhain yn sefyll allan fel y prif ganlyniadau a gyflawnwyd. Rhoddodd ymatebwyr sgôr uchel hefyd i addasu, profi, dilysu neu arddangos cynnyrch, proses, arfer neu dechnoleg newydd (77 y %), datblygu rhwydwaith (76 y %), ac integreiddio cadwyn gyflenwi (74 y %).

5.13 Mae Tabl 5.4 yn rhoi trosolwg o'r gwahanol fathau o ganlyniadau a nodwyd o'r adroddiadau gwerthuso a astudiwyd yn y meta-adolygiad.

**Tabl 5.4: Mathau o allbynnau'r prosiectau sydd yn y meta-adolygiad**

| Math o ganlyniad | Trafodaeth |
|---|---|
| Canlyniadau gweithdrefnol | Roedd rhai prosiectau wedi dadansoddi bylchau, cynnal astudiaethau cwmpasu, a meithrin perthnasoedd cychwynnol, gan gynnwys gyda llunwyr polisi, gan osod y sylfaen ar gyfer gweithgareddau datblygu mwy diriaethol yn ddiweddarach. |
| Canlyniadau diriaethol yn unol ag allbynnau Theori Newid | Pan oedd y prosiectau a adolygwyd yn sicrhau canlyniadau mwy diriaethol, roedd y rhain yn amrywio o arferion caffael cydweithredol, cyrsiau hyfforddi newydd, mecanweithiau cymorth newydd, a datblygu clystyrau ar gyfer dulliau archwilio effeithlonrwydd ynni ar gyfer Cymru gyfan, technegau tyfu garddwriaethol newydd, modelau busnes a chyflenwi newydd (e.e. ar gyfer trafnidiaeth gymunedol), cymwysiadau a marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch, hyfforddiant a mentora ar gyfer integreiddio'r gadwyn gyflenwi, offer mapio digidol a chasglu data, a modelau effaith newid hinsawdd wedi'u teilwra, i enwi dim ond rhai. |

Ffynhonnell: ein dadansoddiad o ganlyniadau'r meta-adolygiad

5.14 Gellir gweld gwahaniaethau rhwng gwahanol sectorau o ran pa mor benodol oedd amcanion prosiectau. Fel blaenoriaeth strategol ar gyfer yr economi wledig, datblygwyd prosiectau yn y sector cig coch, er enghraifft, gyda chyfraniad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fe'u nodweddid gan faterion a dulliau gweithredu hynod benodol, gan ganolbwyntio ar fecaneg fanwl prosesau cynhyrchu a chadwyni cyflenwi. Roedd hyn yn cyferbynnu, er enghraifft, â phrosiect yn canolbwyntio ar gamau cynnar datblygu cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchion gwerth ychwanegol o goetiroedd i fusnesau cymunedol, a oedd, yn unol â chamau cynnar datblygiad y sector, yn gorfod mabwysiadu dull mwy archwiliadol.

5.15 Roedd rhai prosiectau peilot yn y meta-adolygiad yn canolbwyntio ar ddatblygu modelau busnes neu gyflenwi. Amrywiai hyn o ymchwil a llunio astudiaethau cwmpasu neu ddichonoldeb yn arwain at fodelau cadwyn gyflenwi generig neu ddulliau cydweithredol ar thema benodol i fodelau mwy diriaethol a gafodd eu treialu mewn gwahanol leoliadau, yn ogystal â chynnal peilot go iawn o un model busnes sydd ag elfennau cadwyn gyflenwi cryf, yn aml yn defnyddio offer digidol.

5.16 Er bod cydweithredu a mireinio mecanweithiau gweithredu a ffyrdd o ryngweithio â'r buddiolwyr terfynol (h.y. y rhai sy'n defnyddio'r gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau arweiniol y prosiect) yn elfen gref ym mhob prosiect, mae tystiolaeth hefyd nad oedd pob menter yn arloesol o newydd. Nododd y meta-adolygiad enghreifftiau lle nodwyd cyllid y CSCDS ar y cyd â chysylltiadau Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid parhaus ar gyfer gweithgareddau presennol sy'n cyfrannu'n glir at agendâu polisi Llywodraeth Cymru, e.e. mewn perthynas â thyfu cymunedol.

5.17 At ei gilydd, roedd y prosiectau'n cwmpasu'r continwwm cyfan o leoliadau hynod gymhwysol (yn aml yn cynnwys manylebau cadwyn gyflenwi ac elfennau hynod benodol ar brosesau'r gadwyn gyflenwi, e.e. defnyddio offer casglu data mewn prosesau cynhyrchu penodol), a datblygu neu dreialu offer a dulliau mwy generig mewn lleoliadau penodol, hyd at elfennau polisi ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi sydd â'r potensial i newid arferion yr economi wledig, yn ogystal â mwy o weithgareddau dyfeisgarwch sy'n ceisio nodi cyfleoedd strategol ar gyfer mwy o gydweithio mewn economïau gwledig.

*Beth oedd y gyfradd llwyddo?*

5.18 Yn unol â natur beilot ac arloesol y CSCDS a'r oedi o ran gallu mesur y llwyddiant terfynol, tueddai'r adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiectau i gynnig mesurau procsi ar gyfer llwyddiant prosiectau. Roedd y rhain yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a buddiolwyr neu allbynnau prosiect uniongyrchol megis adroddiadau a modelau, yn hytrach na chynnig mesurau llwyddiant mwy cadarn ar ffurf enillion mesuradwy a wnaed gan sefydliadau buddiolwyr neu effeithiau a gyflawnwyd ar gyfer yr economi wledig yn fwy cyffredinol.

5.19 Mae'r adroddiadau gwerthuso ar gyfer y rhan fwyaf o'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y meta-adolygiad yn nodi canlyniadau gwerth chweil sydd â'r potensial i fod o fudd i Gymru wledig.

5.20 Yn Nhabl 5.5 ceir y prif nodweddion gwahaniaethol rhwng gwahanol fathau o brosiectau yn y CSCDS a'r canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt.

**Tabl 5.5: Mathau o allbynnau'r prosiectau sydd yn y meta-adolygiad**

| Prif nodwedd y prosiect | Mesur llwyddiant a lefel dangosol llwyddiant |
|---|---|
| Prosiectau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda grŵp llai o fuddiolwyr i dreialu neu arddangos technolegau penodol neu gyfres o arferion neu offer presennol | Ymddengys bod y prosiectau hyn wedi cynhyrchu canlyniadau ymarferol. Gan fod grŵp targed wedi'i ddiffinio'n glir iawn a'r dysgu neu fanteision posibl wedi'u disgrifio'n fanwl, mae'n ymddangos bod ymgysylltu â buddiolwyr wedi bod yn gryf. Ymddengys bod mecanweithiau pontio penodol wedi cyfrannu at effeithiolrwydd dulliau prosiectau penodol. Roedd y dull a fabwysiadwyd gan un prosiect a weithiai ar arferion rheoli pridd i greu cyfleoedd i ffermwyr gymryd rhan mewn arbrofion ymarferol, er enghraifft, wedi galluogi ymchwil gymhwysol a sicrhaodd ganlyniadau diriaethol iawn gan ddangos buddion posibl i ffermwyr eu hunain o dechnegau rheoli pridd cynaliadwy, gan weithio gyda grwpiau ffermwyr sy'n bodoli eisoes i weithredu fel lluosyddion wrth gyrraedd y gymuned ffermio ehangach. |
| Prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y sefydliad arweiniol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd mawr ac amrywiol i godi ymwybyddiaeth a dysgu | Ar ben arall y raddfa, mae'n ymddangos bod llawer o'r prosiectau hyn hefyd wedi bod yn effeithiol. Darparodd un prosiect, er enghraifft, y gallu i ddatblygu deunyddiau codi ymwybyddiaeth, modiwlau e-ddysgu, a modelau gwasanaeth i ymgysylltu â gwahanol grwpiau targed ledled Cymru i leihau effeithiau amgylcheddol plaladdwyr yn mynd i mewn i ddyfrffyrdd. |
| Prosiectau sy'n darparu ymyriadau cymorth mwy generig | Soniodd rhai adroddiadau gwerthuso am yr anawsterau yn gysylltiedig â sicrhau ychwaneged. Ceir enghreifftiau hefyd, fodd bynnag, lle'r oedd y capasiti ychwanegol a ddarparwyd gan brosiect a ariannwyd gan CSCDS wedi galluogi datblygu a chynnal gweithgareddau wedi'u targedu a phecynnau cymorth mwy pwrpasol, e.e. gweithio ar y cyd â Chyswllt Ffermio i ddarparu ar gyfer grŵp penodol o fusnesau amaethyddol neu sefydliadau sydd ag arlwy generig o amgylch iechyd a llesiant i ddod o dirweddau gwledig mewn cymunedau penodol. Dywedir bod mwy o ymgysylltiad yn fesur o lwyddiant mewn un adroddiad gwerthuso a ystyriwyd ar gyfer y meta-adolygiad. |
| Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu modelau busnes neu gyflenwi newydd | I'r prosiectau hyn, ymddengys bod eu llwyddiant terfynol, h.y. defnydd gwirioneddol o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd, yn dibynnu ar ba mor berthnasol a defnyddiol yn uniongyrchol oedd eu cynnig i fuddiolwyr ar lawr gwlad. Roedd rhai prosiectau wedi adeiladu ffordd o sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu codi i union fodel cyflawni eu prosiect. Defnyddiodd prosiect ar effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau cymunedol, er enghraifft, broses Datganiad o Ddiddordeb i gynnal astudiaethau dichonoldeb ynni cymunedol oedd â manylebau clir ynghyd â ffocws ar nodi ffynonellau ariannu posibl fel rhan o'r gwasanaeth a gynigid. |

| Prif nodwedd y prosiect | Mesur llwyddiant a lefel dangosol llwyddiant |
|---|---|
| Prosiect yn treialu model busnes penodol | Roedd prosiectau a ddefnyddiai fuddsoddiad y CSCDS i dreialu model busnes penodol, gyda strategaeth ymadael hyfywedd ariannol ar ddiwedd y prosiect, yn tueddu i osod hynny yn amcan prosiect. Ymddengys na chyflawnwyd hyn ar gyfer nifer o brosiectau. Er y gellir ei ystyried yn dal yn llwyddiant i brofi model a chael mewnwelediad i'r rhesymau pam nad yw'n ymarferol bosibl, bydd llwyddiant prosiectau o'r fath fel ymyriad CSCDS yn dibynnu ar ba mor eang y rhennir y mewnwelediadau hyn i wella'r siawns o lwyddiant mentrau tebyg yn y dyfodol. |
| Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu (R&D) a datblygu cynnyrch | Ar gyfer y prosiectau hynny, yn enwedig pan oedd sefydliad masnachol yn arwain, y potensial masnachol fydd y prif fesur llwyddiant gyda dim ond buddion tymor hwy i economïau gwledig Cymru y tu hwnt i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan. Bydd llwyddiant terfynol fel prosiect a ariennir yn gyhoeddus yn dibynnu ar unrhyw effeithiau crychdonni ar ffurf adenillon o weithgareddau economaidd newydd neu gryfach mewn ardaloedd gwledig trwy greu swyddi, sefydlu gweithgareddau economaidd newydd, ac/neu dwf cynnyrch domestig gros (GDP). Y tu hwnt i brosiectau a oedd yn cynnwys sefydliad arweiniol masnachol oedd â diddordeb uniongyrchol mewn marchnata'r canlyniadau, prin yw'r dystiolaeth bod y dybiaeth hon yn wir hyd yma ar gyfer prosiectau. |

Ffynhonnell: ein dadansoddiad o ganlyniadau'r meta-adolygiad

**Pwy oedd y prif randdeiliaid oedd yn rhan?**

5.21 Unwaith eto roedd cyfansoddiad prosiectau'r CSCDS yn hynod amrywiol ac amlochrog. Mae hyn yn unol â'r gofyniad bod yn rhaid i geisiadau i'r CSCDS fod yn gymwys ar lefel uchel iawn sef bod 'o leiaf ddau endid' yn gorfod bod yn rhan o unrhyw brosiect arfaethedig.

5.22 Mae tystiolaeth o'r meta-adolygiad ac o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu mai'r prif benderfynyddion ar gyfer gwahanol ffurfiau prosiectau oedd y cymhellion dros y prosiect, rhwydweithiau presennol yr arweinwyr prosiect, a'r ddealltwriaeth o ymarferoldeb gweithgarwch y prosiect priodol. Roedd rhai prosiectau a ariannwyd yn gymharol fach ac yn cynnig rhyngweithio â ffocws uchel rhwng nifer fach o randdeiliaid perthnasol, naill ai'n datblygu neu'n treialu/dangos prosesau neu dechnolegau newydd. Roedd eraill yn rhyngweithio â grŵp mwy o fuddiolwyr trwy ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth neu ddarparu cymorth.

5.23 Roedd nifer o brosiectau wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r canlynol:

- partneriaid neu ddarparwyr arbenigol
- rhanddeiliaid strategol allweddol i sicrhau bod gan y gweithgareddau gydweddiad strategol ehangach
- sefydliadau yn darparu'r mynediad angenrheidiol i gymuned benodol o fuddiolwyr
- sefydliadau yn cyfrannu ased masnachol penodol.

Deuai hyn â risg y byddai rolau a chyfrifoldebau prosiectau yn gwanhau, ond sicrhawyd cryn werth pan gâi ei reoli'n dda.

5.24 Mae enghreifftiau o ffurfiau prosiect penodol yn cynnwys:

- adran yn Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd ac yn rheoli grŵp arbenigol bach o randdeiliaid arbenigol i ddatblygu offeryn mapio gofodol penodol i gynorthwyo â phenderfyniadau ynghylch defnydd tir
- adran prifysgol yn gweithio'n ddwys gyda grŵp presennol o ffermwyr ac yn defnyddio gweithgareddau arddangos i ymgysylltu â grŵp ehangach o ffermwyr
- asiantaeth datblygu gwledig yn treialu'r defnydd o dechnolegau ffermio fertigol datganoledig gyda grŵp bach o dyfwyr, sefydliadau cymunedol, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb

- pennwr cadwyn gyflenwi yn cyfrannu'r buddsoddiad cychwynnol i alluogi rhaglen fentora arbenigol i ffermwyr.

5.25 Mae Cyswllt Ffermio yn rhan o nifer o brosiectau, gydag adroddiadau gwerthuso yn amlygu'r budd i'r naill a'r llall wrth i brosiectau'r CSCDS ddarparu cynnwys neu gymorth pwrpasol a Chyswllt Ffermio yn darparu cyrhaeddiad i'r gymuned ffermio. Yn yr un modd, nodir Cywain yn llwybr i ymgysylltu â busnesau bwyd a diod gwledig ar gyfer gweithgareddau penodol.

5.26 Roedd y sectorau cig coch a llaeth yn eithriad i'r rheol hon bod ffurf a gweithgareddau prosiectau yn cael eu llywio'n bennaf gan gymhellion arweinwyr prosiect, rhwydweithiau presennol, ac ymarferoldeb. Roedd prosiectau yn ymwneud â ffermio da byw a chig coch yn cyfrif am swm sylweddol o gyfanswm cyllid yr CSCDS (£34.1m). Yma chwaraeai Llywodraeth Cymru ran uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu ac arwain y prosiectau mwy o faint. Roedd prosiectau llai yn y gofod hwn yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cadwyn gyflenwi hynod benodol, e.e. prosiect yn ymwneud â sefydlu cadwyn gyflenwi cig eidion cwbl integredig yng Nghymru yn darparu mentora mewn perthynas â magu lloi. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y prosiectau hyn ymwybyddiaeth dda o weithgareddau ehangach yn y gofod hwn a'u bod yn cyd-fynd yn dda â nhw.

**A oedd math arbennig o gydweithredu yn fwy 'llwyddiannus' na math arall?**

5.27 Ymddengys bod llwyddiant cymharol gwahanol brosiectau'r CSCDS nid yn gymaint yn digwydd oherwydd y math o gydweithredu ond yn hytrach yn digwydd o ganlyniad i gynllun prosiect priodol a gweithredu a rheoli prosiect yn effeithiol.

5.28 Fel yr amlinellwyd uchod, er nad oes unrhyw fesurau llwyddiant cadarn ar gyfer prosiectau'r CSCDS, mae'r meta-adolygiad yn rhoi nifer o awgrymiadau manylach ynghylch penderfynyddion posibl llwyddiant prosiectau'r CSCDS.

5.29 Ar draws yr holl brosiectau, ymddengys fod tair prif elfen wedi bod â rhan allweddol wrth lywio llwyddiant prosiectau:

- sylw digonol ar y dechrau i ddiffinio cwmpas prosiect yn glir yn ogystal â disgwyliadau realistig o ran canlyniadau a ragwelir (e.e. ai'r nod yw archwilio dichonoldeb neu sicrhau ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid ar gyfer gweithgareddau mwy diriaethol yn ddiweddarach, neu fynd ati go iawn i ddatblygu neu arddangos gweithgareddau sy'n adeiladu ar y sylfeini presennol)

- ffocws ar anghenion neu gyfleoedd sydd wedi'u nodi'n glir ac eglurder hynny o ran cymhellion i fuddiolwyr (e.e. prosiect sy'n codi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu, prosiect sy'n cyflwyno gwybodaeth, a hyfforddiant mewn perthynas â chyfle arallgyfeirio penodol i ffermwyr, ac un arall sy'n rhoi mynediad at gyfleoedd masnachol posibl i ffermwyr)
- mynediad uniongyrchol at yr arbenigedd a'r gallu technegol angenrheidiol, e.e. drwy adeiladu hyn i mewn i bartneriaeth y prosiect neu gomisiynu darparwr y gellir ymddiried ynddo (e.e. sefydliad arbenigol yn cael ei gomisiynu i gyflawni prosiect cadwyn gyflenwi pren gyfan neu brosiect sy'n gweithio'n agos gydag ymgynghoriaeth ynni cymunedol arbenigol)
- defnyddio grŵp llywio neu fecanwaith tebyg i sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad ehangach yn y maes gweithgarwch priodol yn gallu bwydo i mewn i weithredu'r prosiect ac osgoi dyblygu.

5.30 Ar gyfer prosiectau sy'n datblygu arfer, proses, technoleg neu gynnyrch cymhwysol, yn enwedig yng nghyd-destun cadwyn gyflenwi, mae'n ymddangos bod ffactorau llwyddiant allweddol wedi cynnwys:

- hygrededd arweinydd y prosiect, ei statws a'i allu i gyrraedd cymunedau'r buddiolwyr
- cyflawni gweithgareddau diriaethol gyda rheolaeth prosiect gref i sicrhau ymgysylltiad parhaus
- y defnydd o fecanweithiau i ddangos yn uniongyrchol werth posibl canlyniadau prosiect i fuddiolwyr.

5.31 Ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, dysgu a gwaith datblygu cynnar, ymddengys bod llwyddiant wedi'i ddylanwadu gan y canlynol:

- alinio amcanion y prosiect â chenhadaeth, amcanion a chapasiti'r sefydliad arweiniol
- cynllun prosiect clir a chyfrifoldebau rheoli prosiect clir
- cyfathrebu cyson a pherthnasol gyda gwahanol grwpiau buddiolwyr (e.e. mewn ymateb i argymhelliad gwerthuso interim, mabwysiadodd un prosiect y dull Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (CRM) er mwyn canolbwyntio cymorth ar

gynhyrchwyr blaenoriaeth a nodwyd a oedd wedi dangos y parodrwydd mwyaf i ymgysylltu ac oedd â'r potensial mwyaf i dyfu).

5.32 Pan oedd arweinwyr prosiect yn dibynnu'n ormodol ar sefydliadau cyfryngol eraill ar gyfer cael y prosiect i gyrraedd cymunedau buddiolwyr perthnasol, mae'n ymddangos ei bod wedi bod yn anodd sicrhau canlyniadau ystyrlon. Yn ogystal, soniodd un adroddiad gwerthuso am y risg y gallai dull recriwtio/ymgysylltu drwy berthynas a oedd yn bodoli eisoes â darparwyr o bosibl effeithio ar yr ecwiti a gyflawnwyd, gan fod y busnesau a dargedwyd eisoes yn cael cymorth sylweddol drwy'r darparwyr partner.

5.33 Ar gyfer prosiectau wedi'u harwain gan sefydliadau addysg uwch, mae llwyddiant yn hollbwysig yn dibynnu ar ymrwymiad yr academyddion sy'n cymryd rhan i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol ac/neu eu gwaith partneriaeth. Mae ymrwymiad i sicrhau canlyniadau ymarferol ar gyfer buddiolwyr terfynol, y tu hwnt i allbynnau academaidd megis cyhoeddiadau neu gyfranogiad mewn cynadleddau, yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yma.

5.34 Ymddengys bod cyfranogiad rhanddeiliaid polisi Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at lywio gweithgareddau prosiect yn effeithiol, er mwyn sicrhau canlyniadau o werth strategol drwy nodi synergeddau posibl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer ymyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi gyda chysylltiad â datblygu polisi. Er enghraifft, drwy fecanwaith grŵp llywio y nodwyd perthnasedd y gwaith a wnaed gan un prosiect ar gyfer datblygu Gwerth Brand Cynaliadwyedd Cymru a sicrhau y gallai buddsoddiad y CSCDS gyflawni ei botensial llawn er budd sector cig a llaeth Cymru.

**Ymatebolrwydd i anghenion rhanddeiliaid cadwyn gyflenwi wledig**

5.35 Awgryma'r dystiolaeth fod cyfranogiad uniongyrchol buddiolwyr wrth ddatblygu a dylunio prosiectau wedi bod yn gyfyngedig ar y cyfan. Gan adleisio sylwadau yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid, mae'r adroddiadau gwerthuso sydd yn y meta-adolygiad yn cynnwys sawl cyfeiriad penodol at anghenion a dewisiadau buddiolwyr terfynol nad ydynt yn cael eu deall yn ddigonol, e.e. mabwysiadu dull rhy uchelgeisiol ar gyfer datblygu cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchion coetir, peidio â llwyr werthfawrogi parodrwydd ffermwyr i ddefnyddio offer casglu data digidol, neu danamcangyfrif yr angen am alw amlwg yn y farchnad i sefydlu clystyrau o dyfwyr.

5.36 Mae dyfyniad o un o'r adroddiadau gwerthuso yn y meta-adolygiad yn tynnu sylw at fater allweddol sy'n codi ar gyfer buddiolwyr uniongyrchol, sef y '*disgwyliad y byddai partneriaid sy'n ymwneud â'r prosiect yn ymrwymo amser staff a fyddai'n rhan o'u trefniadau cyllido presennol*'. Fel yr amlinellwyd uchod, llwyddodd nifer dda o'r prosiectau sydd yn y meta-adolygiad i oresgyn yr her hon trwy gynnal gweithgareddau prosiect a oedd wedi creu digon o gymhelliant i fuddiolwyr terfynol ymgysylltu â'r prosiect.

5.37 Roedd llawer o'r prosiectau a oedd yn rhan o'r meta-adolygiad wedi cynnwys mecanweithiau penodol i ymgorffori ymatebolrwydd i anghenion rhanddeiliaid cadwyn gyflenwi wledig wrth gynnal prosiectau. Roedd amrywiaeth o ffurfiau ar hyn, o gynnig gwasanaethau am ddim neu ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwil gymhwysol neu weithgareddau peilot ac arddangos i gynnig gwasanaeth neu gyfle masnachol. Roedd y graddau y manteisiai buddiolwyr terfynol ar y cynigion hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol brosiectau a gellir gweld ei fod yn dibynnu ar ba mor uniongyrchol berthnasol oedd y dulliau a fabwysiadwyd. Yn unol â natur beilot y prosiectau y ceisiai'r cynllun eu denu, nid yw'r niferoedd cyfyngedig ynddo'i hun o reidrwydd yn gyfystyr â diffyg llwyddiant prosiect cyn belled â bod y mewnwelediadau a'r dysgu ar gael yn eang ac yn cael eu defnyddio'n dda mewn prosiectau pellach ac wrth ddatblygu polisi.

5.38 Mae hyn yn cyferbynnu â phrosiectau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau i fyny'r gadwyn gyflenwi gyda rhyngweithio uniongyrchol cyfyngedig iawn â buddiolwyr terfynol mewn cadwyni cyflenwi penodol. Mae perthnasedd y canlyniadau terfynol hyn yn dibynnu'n llwyr ar i ba raddau y maent yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth bolisi gadarn o economïau gwledig yn ogystal ag agosrwydd sefydliadau cynrychioliadol sy'n cymryd rhan at anghenion buddiolwyr uniongyrchol. Bydd angen profi defnyddioldeb canlyniadau yn dilyn gweithgareddau'r prosiectau hyn.

**Canlyniadau'r CSCDS**

5.39 Gan symud ymlaen o allbynnau i ganlyniadau, mae Theori Newid y CSCDS yn nodi nifer o ganlyniadau penodol y disgwylir iddynt ddeillio o weithgareddau prosiectau'r CSCDS. Mae'r rhain yn cynnwys agweddau y gellir eu mesur mewn egwyddor, megis proffidioldeb busnesau bach a chanolig, creu menter, effeithlonrwydd defnydd ynni, neu fwy o gyflenwad a defnydd o fewnbynnau bioeconomi, yn ogystal â mesurau mwy ansoddol, e.e. mwy o hyder mewn gweithio drwy gadwyn gyflenwi

cydweithredol, dealltwriaeth ddyfnach o gadwyn cyflenwi bwyd Cymru, neu arferion amaethyddol a choedwigaeth mwy cynaliadwy.

5.40 Mae'r adroddiadau gwerthuso ar gyfer y 29 o brosiectau sydd yn y meta-adolygiad wedi cadarnhau'r argraff a gafwyd o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid, sef mai i raddau cyfyngedig yn unig y mae'r canlyniadau yr oedd prosiectau'n gweithio tuag atynt wedi'u fframio yn ôl y rhesymeg benodol sy'n sail i bob un o'r is-fesurau unigol. Mae'r adran hon felly wedi'i threfnu yn ôl gwahanol fathau o ganlyniadau, yn hytrach na gwahanu llym rhwng is-fesurau 16.2, 16.4 ac 16.8.

**Canlyniadau mesuradwy**

5.41 Ychydig iawn o dystiolaeth oedd yn yr adroddiadau gwerthuso a adolygwyd ynghylch unrhyw ganlyniadau mesuradwy uniongyrchol a gyflawnwyd gan y gweithgareddau a ariannwyd. Yn enwedig oherwydd yr oedi o ran canlyniadau mesuradwy diriaethol, cynigiodd rhai gwerthusiadau yn lle hynny asesiadau ar sail theori o sut y disgwylir i weithgareddau sicrhau canlyniadau dros amser.

**Tabl 5.6: Canlyniadau mesuradwy'r Theori Newid y mae prosiectau'r CSCDS wedi esgor arnynt**

| Canlyniad Theori Newid | Trafodaeth |
|---|---|
| Proffidioldeb busnesau bach a chanolig | Mae enghreifftiau penodol o ddeilliannau mesuradwy yng nghyd-destun prosiectau unigol a drafodwyd yn rhai o'r adroddiadau gwerthuso wedi cynnwys:<br>• mwy o broffidioldeb a gwytnwch BBaChau o ganlyniad i benderfyniadau defnydd tir mwy effeithlon yn y dyfodol<br>• ffrydiau incwm newydd posibl ar gyfer cynnyrch dros ben — os caiff techneg newydd ei mabwysiadu'n ehangach<br>• dangos yr achos dros ddefnyddio ynni solar wrth brosesu bwyd, gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer prosesu bwyd yn y dyfodol.<br>Mae adroddiadau eraill yn cadarnhau'n glir nad yw mentrau buddiolwyr wedi gweld effaith sylweddol eto o ganlyniad i'w hymwneud â phrosiect. Cyfeiriodd un adroddiad yn benodol at angen buddsoddi amser ac arian ychwanegol cyn y gellid cyflawni unrhyw enillion diriaethol.<br><br>Sonnir mewn sawl adroddiad gwerthuso am effaith ffactorau allanol, megis COVID-19, Brexit, a'r rhyfel yn Wcráin, yn enwedig ar gostau mewnbynnau, a chyfeirir at hyn yn aml gan rhanddeiliaid yn y cyfweliadau fel ffactor a oedd wedi amharu'n sylweddol ar unrhyw ganlyniadau o ran proffidioldeb yn benodol, gan ddatgan, er enghraifft, nad oedd '*Covid wedi helpu – roedd wedi gwthio'r prosiect yn ôl gryn dipyn o ran chwilio am farchnadoedd'*.<br><br>Roedd thema gyffredin yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn ymwneud â sut mae proffidioldeb yn fesur amherffaith o lwyddiant prosiect oherwydd ei fod yn cael ei |

| | |
|---|---|
| | ddylanwadu'n drwm gan rymoedd y farchnad allanol. Fel y dywedodd un arweinydd prosiect, '*Mae bod mewn sefyllfa gryfach yn y sector yn allweddol. Mae mesur hyn* […] *yn anodd oherwydd mae gan lawer o ffactorau allanol ddylanwad y tu hwnt i unrhyw ymyriadau prosiect. Gallai* [mesur] *procsi fod yn sector sy'n fwy gwybodus, felly mae'r elfen hyfforddi yn bwysig. Mae proffidioldeb, ar y llaw arall, yn cael ei effeithio llawer mwy gan rymoedd y farchnad allanol*.'<br><br>Nodwyd canlyniadau mwy uniongyrchol ar gyfer rhai prosiectau, e.e. arbedion drwy ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, mwy o wytnwch drwy ffrydiau incwm ychwanegol o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect, neu fwy o reolaeth dros fewnbynnau ac allbynnau drwy ddulliau casglu data newydd. Tra bod canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y prosiectau hyn hefyd yn dibynnu ar fuddsoddiad pellach ac/neu gamau gweithredu, maent wedi gosod sylfeini cadarn i newid o'r fath ddigwydd mewn sefydliadau buddiolwyr (e.e. trwy astudiaethau dichonoldeb pwrpasol sy'n darparu templed ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy ddefnyddio technolegau effeithlonrwydd ynni/ynni adnewyddadwy mewn adeiladau cymunedol). |
| Creu mentrau | Nododd un prosiect yn benodol fod wyth menter newydd wedi'u sefydlu na fyddent wedi'u creu heb y prosiect, ac mae un prosiect yn cyfeirio at weithgareddau masnachu newydd ar raddfa fach iawn. |

Ffynhonnell: ein dadansoddiad o ganlyniadau'r meta-adolygiad

5.42 Pan gyflwynwyd tystiolaeth o ganlyniadau mesuradwy, tueddai hyn i fod o waith arolwg, e.e. ynghylch hyder cyfranogwyr i ehangu ar sail gwybodaeth neu dechnegau newydd a enillwyd neu 'ddichonoldeb economaidd cyffredinol gwasanaethau cymunedol'. O ran rhai o'r prosiectau academaidd a gynlluniwyd i ddangos manteision technegau newydd, cafwyd dulliau mesur mwy cadarn ar gyfer mesur effeithiolrwydd technegau penodol yng ngweithgareddau'r prosiect, e.e. o ran newidiadau i'r stociau carbon mewn glaswelltir.

5.43 Yn unol â natur beilot prosiectau'r CSCDS, mae canlyniadau mesuradwy o ran proffidioldeb, gwydnwch neu arallgyfeirio BBaChau a'r canlyniadau hynny yn y dyfodol yn dibynnu ar barhau i ddefnyddio ac/neu fabwysiadu yn ehangach brosesau, arferion a thechnolegau newydd a ddatblygwyd neu a dreialwyd ym mhrosiectau'r CSCDS.

**Canlyniadau ehangach**

5.44 Yn yr un modd â'r canlyniadau mesuradwy ar gyfer sefydliadau unigol oedd yn rhan, roedd y meta-adolygiad hefyd yn rhoi mewnwelediad ynghylch i ba raddau yr oedd canlyniadau ehangach fel y'u nodwyd yn y Theori Newid yn cael eu cyflawni gan is-set o brosiectau'r CSCDS yr oedd adroddiadau gwerthuso ar gael ar eu cyfer.

5.45 Nid oedd yr holl ganlyniadau a nodwyd yn y Theori Newid wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiadau gwerthuso. Cyflwynir tystiolaeth o rai o'r rhai amlycaf yn Nhabl 5.7 isod.

### Tabl 5.7: Canlyniadau ehangach y Theori Newid y mae prosiectau'r CSCDS wedi esgor arnynt

| Canlyniad | Trafodaeth |
|---|---|
| Canlyniadau arbenigol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd | Ni roddodd y meta-adolygiad unrhyw dystiolaeth bod rhai o'r canlyniadau mwy arbenigol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a nodwyd yng nghanllawiau'r cynllun (e.e. mwy o gyflenwad a mwy o ddefnydd o fewnbynnau bio-economi) wedi'u cyflawni gan unrhyw un o'r prosiectau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod arferion amaethyddol a choedwigaeth mwy cynaliadwy wedi bod yn nodwedd allweddol yn nifer o brosiectau'r CSCDS. Hwn oedd y prif nod ar gyfer prosiectau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu a lledaenu defnydd tir mwy cynaliadwy, dulliau gweithredu gwasanaethau ecosystem newydd, neu fathau newydd o gnydau a dulliau amaethu. Dim ond y prosiectau hyn sydd wedi sicrhau cadwraeth a dal a storio carbon fel canlyniad prosiect uniongyrchol, e.e. trwy ddealltwriaeth well o sut y gellir dylanwadu ar iechyd pridd trwy ddulliau rheoli tir gwahanol. |
| Canlyniadau cynaliadwyedd ymhlyg mewn gweithgareddau eraill | Gellir dadlau bod llawer o'r prosiectau sy'n datblygu neu'n treialu cynhyrchion neu dechnegau cynhyrchu newydd hefyd yn gwneud cyfraniad sydd ymhlyg mewn amcanion cynaliadwyedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau sydd wedi'u cynllunio i gwtogi ar y defnydd o feddyginiaethau wrth fagu da byw, sefydlu technegau newydd i gael y gwerth mwyaf o goetiroedd cymunedol a reolir yn gynaliadwy, gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol mewn cymunedau gwledig, neu arloesi ffyrdd gwahanol o gael cymunedau i fod yn rhan o weithgareddau cadwraeth. |
| Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | Yn yr un modd â'r uchod, er na ellir disgrifio'r rhan fwyaf o brosiectau'r CSCDS fel rhai sy'n cofleidio'r set gyflawn o egwyddorion a dulliau gweithredu sy'n rhan o egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fel y nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol newydd,[17] mae nodweddion ac egwyddorion unigol wedi'u hadlewyrchu yn llawer o'r 29 o brosiectau sydd yn y meta-adolygiad. |
| Cryfhau cadwyni cyflenwi | Mae sawl prosiect a gefnogwyd o dan is-fesur 16.2 wedi cyfrannu at gryfhau cadwyni cyflenwi, sef prif ffocws is-fesur 16.4. Fodd bynnag, cafodd hyn ei fframio yn nhermau ffocws is-fesur 16.2 ar brosiectau peilot a chynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd. O ganlyniad, mae'r pwyslais mewn unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi wedi tueddu i fod ar gefnogi cynhyrchwyr bach, lleol ac allfeydd cysylltiedig i ddatblygu neu fabwysiadu cynhyrchion newydd i'w bwydo i gadwyni cyflenwi a marchnadoedd (e.e. cennin Pedr ar gyfer cynhyrchu fferyllol, tyfu tatws o amrywiaeth newydd i gryfhau gwytnwch, marchnata cynnyrch o dechnegau tyfu fertigol, ychwanegu gwerth at gynnyrch dros ben, datblygu a marchnata cynhyrchion newydd o goetiroedd cymunedol). |

[17] Llywodraeth Cymru (2017), Y Polisi ar Adnoddau Naturiol

| Canlyniad | Trafodaeth |
|---|---|
| | Mae cyfeiriadau uniongyrchol at well cydweithredu ac integreiddio yn y gadwyn gyflenwi yn tueddu i gyfeirio at agweddau ehangach ar farchnata a brandio, gwell dealltwriaeth o ofynion generig partneriaid cadwyn gyflenwi neu adeiladu rhwydwaith mwy cyffredinol. Dim ond pan oedd prosesau cadwyn gyflenwi penodol yn ganolbwynt i weithgarwch y prosiect, gyda phartneriaid cadwyn gyflenwi fertigol yn ymwneud â'r prosiect, yr adroddwyd ar ganlyniadau cadwyn gyflenwi penodol. Yn yr achosion hynny, byddai hyn yn aml wedi arwain at nodi tagfeydd neu ddiffygion yn y broses (e.e. diffyg unedau pesgi lloi yng Nghymru), gan greu cyfle i fynd i'r afael â'r rheini ar y cyd.<br><br>Mae'r adroddiadau gwerthuso a adolygir yn y meta-adolygiad yn awgrymu bod rhywfaint o'r gwaith yn debygol o fod wedi cyfrannu at yr amcan o 'gefnogi gwaith gyda'r tair Canolfan Diwydiant Bwyd sefydledig i fapio'r gadwyn cyflenwi bwyd yng Nghymru', canlyniad a nodwyd yn benodol yn y canllawiau ar gyfer is-fesur 16.4. Er nad yw'n glir i ba raddau y cafodd unrhyw fewnwelediadau a ddysgwyd eu cyfuno i roi persbectif trosfwaol ar y gadwyn gyflenwi gweithgynhyrchu a lletygarwch, eto roedd prosiectau unigol wedi sicrhau ymchwil pwrpasol ac/neu fewnwelediadau penodol ynghylch y cadwyni cyflenwi hyn. Roedd unrhyw ffocws ar gadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar brosiectau'n ymwneud â'r sector da byw a chig coch.<br><br>Mae'r adroddiadau gwerthuso a adolygwyd yn awgrymu mai un mewnwelediad allweddol mewn perthynas â datblygu'r gadwyn gyflenwi y gellir ei godi o brosiectau'r CSCDS yw bod angen ymdrech benodol i feithrin cydberthnasau i integreiddio'r gadwyn gyflenwi go iawn, yn enwedig pan fo cynhyrchion newydd. Mae arwyddion bod y dull datrys problemau ar y cyd a fabwysiadwyd gan rai prosiectau wedi cynnig ffordd ddefnyddiol o feithrin perthnasoedd o'r fath. |

Ffynhonnell: ein dadansoddiad o ganlyniadau'r meta-adolygiad

**Rhagolygon unwaith y daw cyllid y CSCDS i ben – canolbwyntio ar effeithiau**

5.46 Mae llawer o'r adroddiadau gwerthuso yn cyfeirio at y dysgu a wnaed ac/neu'r newid mewn ymddygiad gan gyfranogwyr uniongyrchol y prosiect, yn ogystal â'r data a gasglwyd a'r canlyniadau ymchwil a gafwyd, y cysylltiadau a wnaed a'r cydlyniant cymunedol a feithrinwyd, y cynnydd yn argaeledd a'r defnydd o dechnolegau digidol, yr arferion a'r modelau a ddangoswyd, a'r camau lledaenu a gynhaliwyd a oedd yn y pen draw yn trosi'n effeithiau. Fodd bynnag, byddai hyn hefyd yn cael ei weld yn aml yn rhywbeth a oedd yn dibynnu ar gyllid dilynol i ddwyn ffrwyth. Disgrifiodd un rhanddeiliad, er enghraifft, sut oedd '*safleoedd fferm arbrofol a sefydlwyd yn ystod y prosiect* [yn] *etifeddiaeth hirdymor*' un prosiect, sydd ynghyd â'r '*cysylltiadau a'r rhwydweithiau a grëwyd* […] *yn darparu cyfleoedd gwych ar gyfer arloesi pellach yn systemau bwyd-amaeth Cymru*'. Dywedodd cyfwelai arall y '*dylai* [Llywodraeth Cymru] *ddarparu adnoddau ar gyfer dilyniant i'r prosiect*' i sicrhau medi'r buddion o'r gweithgareddau arddangos a gynhelir.

5.47 Er mai cyfyngedig yw'r cyfeiriadau at strategaethau ymadael penodol yn yr adroddiadau gwerthuso a adolygir yn y meta-adolygiad, mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at nifer o enghreifftiau lle mae senarios yn bodoli sy'n awgrymu y gellid datblygu canlyniadau prosiectau.

5.48 Mae'r adroddiadau gwerthuso yn rhoi enghreifftiau o ganlyniadau prosiectau sy'n bwydo'n uniongyrchol i weithgareddau pellach sydd â'r potensial i drosi'n effeithiau ehangach a thymor hwy, e.e. trwy gynyddu aelodaeth sefydliadol, datblygu deunyddiau yn ystod y prosiect i alluogi gweithgareddau lledaenu pellach, neu fwydo canlyniadau prosiect i'r ERAMMP. Ar ben hynny, datgelodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid enghreifftiau o brosiectau a ddatblygodd fodelau hunanariannu neu a oedd wedi gallu cynhyrchu digon o refeniw o'u prosiect CSCDS cychwynnol i barhau â'u gwaith neu ddatblygu prosiectau presennol ymhellach.

5.49 I eraill, ni wireddwyd y dybiaeth o gyrraedd sefyllfa lle oedd canlyniadau yn fasnachol hyfyw erbyn diwedd y prosiect, i'w symud ymlaen naill ai'n uniongyrchol gan y sefydliad arweiniol a chyfranogwyr uniongyrchol y prosiect neu drwy bartneriaethau a grëwyd ar sail canlyniad neu 'gynnyrch' y prosiect yn gynnig gwerthadwy. Er bod y meta-adolygiad wedi nodi nifer o brosiectau a ddarparodd ddysgu gwerthfawr ynghylch modelau busnes posibl ar gyfer cynnyrch, proses neu

dechnoleg benodol, nid yw'r rhain yn dueddol o fod wedi cyrraedd trothwy hyfywedd masnachol.

5.50 Ceir hefyd enghreifftiau o brosiectau oedd â natur 'gorchwyl a gorffen' sy'n bwydo'n uniongyrchol i weithgareddau pellach, e.e. offeryn modelu defnydd tir a ddatblygwyd gyda chyfraniad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, canlyniadau rhai prosiectau prifysgol yn bwydo'n uniongyrchol i agendâu ymchwil cymhwysol tymor hwy (gan weithio gyda phartneriaid perthnasol ar lawr gwlad, e.e. i fwydo i mewn i'r map ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o ran ffermio da byw), astudiaethau dichonoldeb y gellir eu gweithredu'n uniongyrchol ar gyfer effeithlonrwydd ynni ynghyd ag argymhellion ynghylch llwybrau ariannu posibl, neu waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl gosod y sylfeini ar gyfer rhoi gweithgareddau ar waith wedi hynny (e.e. datblygu llwybrau beicio gwledig).

5.51 Yn yr un modd, pan oedd prosiectau'n perthyn yn agos iawn i genhadaeth ac/neu weithgareddau rheolaidd y sefydliad arweiniol, mae'n ymddangos bod canlyniadau'r prosiect wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gwmpas a graddfa'r gweithgareddau a gynhaliwyd, e.e. trwy gaffael asedau cyfalaf penodol megis cerbydau trafnidiaeth gymunedol; datblygu modiwlau dysgu newydd; deunyddiau a fformatau lledaenu yn cryfhau gweithgareddau ymgysylltu; rhwydweithiau a phartneriaethau newydd wedi ehangu cyrhaeddiad y sefydliad, neu offer cadwyn gyflenwi diriaethol wedi symud ymlaen yn ddigon pell i fod wedi sicrhau ymrwymiad cyfranogwyr.

5.52 Fodd bynnag, mae pwynt a gododd dro ar ôl tro yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid hefyd yn amlwg yn yr adroddiadau gwerthuso, sef, i lawer o brosiectau, bod manteisio i'r eithaf ar ganlyniadau ac effeithiau prosiectau gorffenedig y CSCDS yn dibynnu ar sicrhau cyllid pellach, naill ai i barhau i gynnal y gweithgareddau dan sylw (e.e. nid yw arallgyfeirio i fathau newydd o datws yn ariannol hyfyw heb fod marchnad gyfatebol wedi'i chreu) neu i fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd yn y prosiect. Mewn rhai achosion, mae cyllid pellach o'r fath eisoes wedi'i sicrhau.

**Effeithiau ehangach**

5.53 Mae adborth a gafwyd drwy'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod canlyniadau'r CSCDS yn tueddu i gael eu gweld mewn egwyddor fel rhai â'r potensial i fod o fudd i gymunedau gwledig, gan osod y sylfeini ar gyfer cyfleoedd newydd mewn buddsoddiad gwledig ac adfywio'r economi wledig. Tynnodd un cyfwelai sylw at y ffaith bod ffermwyr yn '*teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y*

*rhwydweithiau a grëwyd drwy'r prosiect a bod ganddynt awydd gwirioneddol am newid*', tra tynnodd un arall sylw at sut '*mae gan ganlyniadau'r prosiect y potensial i ddatgloi cyllid preifat a galluogi mwy o brosiectau*', gan gyfeirio at greu '*perthynas newydd â thirfeddianwyr, rhwydwaith newydd sydd â rhywfaint o fomentwm*'. Awgrymodd trydydd rhanddeiliad: '*yn y pen draw, bydd y prosiect wedi helpu i gynyddu'r potensial ar gyfer hyfywedd economaidd mewn rhannau o Gymru.'*

5.54 Unwaith eto, wedi'i gyfyngu i ddadansoddiadau seiliedig-ar-theori y mae'r sylw a roddir yn y 29 adroddiad gwerthuso yn y meta-adolygiad ynghylch y graddau y mae allbynnau a chanlyniadau yn trosi i'r effeithiau fel y rhagwelwyd yn Theori Newid y CSCDS. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o ystyried sut y mae'r gweithgareddau a ddarperir yn debygol o gael effeithiau mwy hirdymor ac ehangach drwy gael ffermydd i ganolbwyntio mwy ar y farchnad, dileu costau o gadwyni cyflenwi lleol, mwy o arallgyfeirio (amaethyddol), gwell ecosystemau a gwasanaethau, datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig, lleihau risgiau newid hinsawdd i gymunedau gwledig, neu gryfhau datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig. Cyfeirir eto mewn sawl adroddiad gwerthuso at y bwlch amser cyn gweld unrhyw effeithiau fel y rheswm pam na ellid rhoi tystiolaeth uniongyrchol o'r rhain.

5.55 Mae rhai o'r gweithgareddau peilot mwy diriaethol sy'n treialu neu'n dangos prosesau neu dechnolegau newydd yn cyfeirio at enillion, er enghraifft, o ran costau a dynnwyd o'r gadwyn gyflenwi leol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau yn mesur yr effaith hon, sydd hefyd wedi'i chyfyngu'n llym i gyfranogwyr uniongyrchol y prosiect.

5.56 Ymddengys bod unrhyw gyfeiriad at gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sectorau bwyd a ffermio a thwristiaeth wedi'i gyfyngu i un prosiect a hynny'n dangos datblygu argymhellion ar gyfer polisi twristiaeth bwyd a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru.

5.57 Pwynt allweddol sy'n codi o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yw nad yw'r mathau o gyd-ddysgu, y trawsffrwythloni, a dosbarthu uwch ar ganlyniadau wedi digwydd eto, a'r rhain oll yn elfennau hanfodol ar gyfer sicrhau effeithiau ehangach. Nid oedd llawer o'r arweinwyr prosiect a gyfwelwyd yn ymwybodol o bwy arall a oedd wedi cael eu hariannu, ac roeddent yn gresynu wrth y ffaith nad oedd unrhyw fecanwaith ar waith i gysylltu â phrosiectau eraill y CSCDS sy'n gweithio mewn meysydd tebyg (e.e. digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio ledled y CSCDS).

5.58 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn croesawu'r ffordd yr oedd y CSCDS yn canolbwyntio ar brosiectau peilot, a oedd yn eu barn nhw'n gam pwysig i hwyluso arloesedd, gydag un rhanddeiliad yn dweud, er enghraifft, bod '*cysyniad y CSCDS yn ymwneud i raddau helaeth â threialu, a hynny'n gweithio'n dda*'. Fodd bynnag, roedd cyfweleion yn cwestiynu'n gyson sut y gellid cefnogi'r pontio o dreialu i ehangu a gweithredu ehangach, fel y dangoswyd gan un cyfwelai, er enghraifft, a ddywedodd bod '*gennym fodel trosglwyddadwy ar gyfer tyfu ond rydym yn dal i ddibynnu ar gyllid tymor byr [a] methu gweld unrhyw brif ffrydio o'r canlyniadau'*.

5.59 Roedd yr angen am broses i brif ffrydio canlyniadau a sicrhau mecanweithiau cymorth tymor hwy priodol yn thema a godai dro ar ôl tro mewn llawer o gyfweliadau. '*Dylai* [prosiectau] *orfod profi eu bod wedi symud y diwydiant yn ei flaen* […]. *Mae angen iddynt ymestyn y tu hwnt i beilot ac mae angen iddynt ddilyn drwodd*.'

5.60 Yn hollbwysig, roedd y broses o gau prosiectau fel y'i pennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn wan heb unrhyw bwyslais ar roi adborth na chefnogi'r gwaith o ddosbarthu canlyniadau. Roedd disgwyl i hyn effeithio ar yr effaith derfynol y gellid ei chyflawni gan brosiectau'r CSCDS. Crynhodd un rhanddeiliad hyn drwy ddweud '*os yw canlyniadau'r cynllun i gael eu defnyddio'n dda, yna mae angen rhyw fath o broses cau prosiect, a chyflwyno adroddiad terfynol ffurfiol gydag adborth ar sut mae hyn yn cyd-fynd â pholisïau ehangach* [Llywodraeth Cymru]'.

**Cydweddiad strategol**

*<u>Cydweddiad rhwng fframio prosiectau a Theori Newid y CSCDS</u>*

5.61 Mae'r adroddiadau gwerthuso yn amrywio rhywfaint yn y modd y maent yn cyflwyno'r cyd-destun strategol ar gyfer gweithgareddau prosiectau. Mae rhai yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r RDP ac yn rhestru'r rhai y cynlluniwyd y prosiect i gyflawni yn eu herbyn, mae rhai yn cyfeirio at amrywiol bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru, ac mae rhai yn rhoi disgrifiad naratif o'r angen y mae'r prosiect wedi mynd i'r afael ag ef. Er bod rhai gwerthusiadau wedi datblygu fframweithiau Theori Newid pwrpasol ar gyfer prosiectau, prin yw'r cysondeb o ran unrhyw Theori Newid trosfwaol ar gyfer y CSCDS. Ceir hefyd enghreifftiau, fodd bynnag, o adroddiadau gwerthuso sy'n canolbwyntio'n llwyr ar dargedau (dangosydd ar lefel achos) heb unrhyw ddadansoddiad cyd-destunol ehangach.

5.62 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'r rhesymeg graidd y tu ôl i'r cynllun, roedd arweinwyr prosiectau fel arfer yn gallu rhoi disgrifiad cydlynol o'r angen am eu prosiect penodol a'r angen am y dull gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt. Fodd bynnag, dangosodd y disgrifiadau hyn ystod gyfan o amcanion a dyheadau a oedd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y maes thematig a'r lleoliad sectoraidd a sefydliadol penodol yr oeddent yn gweithredu ynddo. Er y gellid fframio'r disgrifiadau hyn fel arfer yn nhermau'r canlyniadau sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau'r CSCDS, nid oeddent yn tueddu i fod yn benodol yn nhermau'r amcanion uwch ar lefel y cynllun.

5.63 Mae'r argraff nad oedd modd bob amser wahaniaethu'n glir rhwng gwahanol is-fesurau'r CSCDS yn arwydd pellach o'r llwyddiant cyfyngedig o ran sicrhau cydweddiad strategol. Fel y nododd un rhanddeiliad, '*roedd yn gymhleth iawn dod o hyd i'r un iawn yn y llwythi o ffrydiau ariannu, mesurau, ac is-fesurau*', tra nododd un arall fod '*Mesur 16 wedi mynd i ogwyddo fwyfwy tuag at bynciau arbenigol*'. Disgrifiodd sawl un o'r cyfweleion sut yr oeddent wedi ymchwilio i'r CSCDS fel un o lawer o lwybrau ariannu posibl, ac mae o leiaf un enghraifft o gais prosiect a oedd wedi'i ystyried yn wreiddiol ar gyfer cyllid o dan is-fesur 16.4 a oedd wedyn wedi cael cyllid o dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn lle hynny.

5.64 Nododd rhai cyfweleion fod diffyg cysylltiad strategol â chyd-destun ehangach wedi arwain at rywfaint o ddyblygu rhwng gweithgareddau. '*Nid yw'r dysgu byth yn cael ei drosglwyddo o un [prosiect] i'r llall. Yn hytrach, mae gwahanol setiau o bobl yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu, gan fabwysiadu dull 'pot pupur' heb gysylltiad clir, amlwg ag amcanion strategol*.' Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder hefyd ynghylch dyblygu â chynlluniau eraill a ariennir, e.e. LEADER. Yr ymdeimlad pennaf oedd bod angen i amcanion strategol fod yn fwy diriaethol, a dylai prosiectau fod wedi cael eu hasesu yng ngoleuni amcanion cliriach.

<u>*Amcanion/themâu trawsbynciol*</u>

5.65 Roedd rhai o'r 29 adroddiad gwerthuso sy'n rhan o'r meta-adolygiad yn cynnig naratif i gysylltu gweithgareddau ac/neu brosesau'r prosiect â themâu trawsbynciol. Disgrifiwyd gweithgareddau i gryfhau proffidioldeb busnesau amaethyddol neu hyfywedd gweithgareddau cymunedol fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi, a gwelwyd bod cyfleoedd arbenigol ar gyfer gweithgareddau menter newydd sy'n defnyddio cynnyrch dros ben yn mynd i'r afael ag amcanion datblygu cynaliadwy. Ystyriwyd

bod gweithgareddau allgymorth a chymorth arbennig i bobl sy’n cael problemau iechyd meddwl neu sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, ac roedd ymdrechion amlwg i recriwtio menywod i grŵp llywio prosiect ynni (maes sydd gan amlaf yn llawn dynion) yn gysylltiedig â chefnogi cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd.

5.66 Gan ganolbwyntio ar aliniad ag amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a’r UE, mae rhywfaint o dystiolaeth o’r meta-adolygiad bod sawl prosiect wedi cyfrannu’n uniongyrchol at ymrwymiadau’r iaith Gymraeg. Er i rai wneud hyn drwy bwyslais cryf ar ddarpariaeth ddwyieithog neu drwy fod yn gysylltiedig â chryfhau gwydnwch cymunedau ffermio Cymraeg eu hiaith, roedd gan eraill ffocws uniongyrchol ar gymunedau Cymraeg â blaenoriaeth ac yn cael eu cynnal yn bennaf neu’n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

# 6. Gwerth am arian

### Diffinio gwerth am arian y CSCDS

6.1 Mae cyflawni Gwerth am Arian yn allweddol i lwyddiant wrth ddenu cyllid cyhoeddus ac felly bydd yn cael ei ddefnyddio fel y prif lens ar gyfer dod i gasgliadau am y CSCDS yn yr adran hon.

6.2 Roedd consensws clir ymhlith rhanddeiliaid, cynrychiolwyr mewnol Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau allanol ac arweinwyr prosiect, nad oedd yn bosibl 'mesur' y gwerth am arian a ddarparwyd gan y CSCDS yn seiliedig ar unrhyw fformiwla syml yn defnyddio tystiolaeth feintiol yn unig. Awgrymwyd yn eang bod y canlyniadau a ddarparwyd yn rhy amrywiol i fod yn addas ar gyfer dadansoddiad meintiol cyfanredol, ac y byddai angen i unrhyw asesiad o'r fath ystyried gwerth canlyniadau ehangach ac effeithiau disgwyliedig. Mae'r datganiad clir hwn yn rhoi'r sail ar gyfer adolygu'r pum maen prawf Gwerth am Arian manwl.

### Dimensiynau gwerth am arian

*<u>Darbodusrwydd/economi: gwario'r lleiaf posibl (h.y. cost y mewnbynnau)</u>*

6.3 Yn yr adolygiad ar brosesau, gwelwyd pwyslais cryf ar ddatblygu systemau a gweithdrefnau priodol i reoli'r arian cyhoeddus a ddyrennir i'r CSCDS. Roedd y prosesau a'r systemau hynny'n cynnwys: natur gystadleuol y ffenestri ymgeisio, dyraniad clir o amlenni cyllid fesul cyfnod ymgeisio, yr arfer o gapio cyllidebau prosiectau ar y lefel grant y gofynnwyd amdani yn y cam Datganiad o Ddiddordeb er mwyn sicrhau y ceir costau realistig, cynnwys Gwerth am Arian fel maen prawf dethol, a'r ffaith nad oedd gofyniad i unrhyw brosiectau gael eu dewis pe bai timau polisi'n penderfynu nad oedd y dystiolaeth a'r rhesymeg a ddarparwyd gan geisiadau o ansawdd digonol. Mae hyn yn awgrymu mai ymdrechion i wario'r swm lleiaf posibl ar weithgareddau unigol oedd wrth wraidd prosesau'r CSCDS.

6.4 Mae gohebiaeth ynghylch y prosesau sgorio a dethol yn cadarnhau ymhellach yr ystyriwyd cymesuredd y cyllidebau a gyflwynwyd mewn ceisiadau prosiect wrth gynnal y broses asesu ac mae tystiolaeth bod trafodaethau cyllidebol wedi bod yn rhan o'r broses datblygu prosiect manwl a chymeradwyo ffurfiol.

6.5 Roedd rheolau caffael llym hefyd ar waith ar gyfer prosiectau a ariennir i sicrhau bod ystyriaethau gwerth gorau yn cael eu cymhwyso ar lefel prosiectau hefyd.

6.6 Roedd union natur y cynllun o gael ei lunio i ysgogi camau arloesol, cydweithredol yn golygu na ellid asesu buddsoddiadau adnoddau yn erbyn manyleb glir. Byddai asesiad manwl o'r union wariant sydd ei angen ar y cam ymgeisio felly wedi bod yn anodd, gan gyfyngu ar gyflawni'r dimensiwn Gwerth am Arian hwn.

6.7 Felly byddai rheolaeth barhaus a gweithredol ar brosiectau gan sefydliadau arweiniol y prosiect eu hunain wedi bod yn allweddol i sicrhau darbodusrwydd buddsoddiadau'r CSCDS. Er nad oes tystiolaeth fanwl ar gael ynghylch perfformiad rheoli prosiectau ariannol prosiectau'r CSCDS, mae'r dystiolaeth o'r meta-adolygiad yn awgrymu bod llawer o brosiectau wedi'u cynnal gan reolwyr prosiect profiadol — byddai gwneud y grant sydd ar gael i fynd mor bell â phosibl wedi bod er eu lles eu hunain.

6.8 Er nad yw asesiad terfynol o ddarbodusrwydd buddsoddiad y CSCDS yn bosibl, mae'n ymddangos bod nifer o fesurau i reoli gwariant wedi bod ar waith. O'u cymhwyso'n gywir, mae'n bosibl y gellid eu hystyried yn ddangosydd procsi o'r maen prawf darbodusrwydd.

*Effeithlonrwydd: gwario'r adnoddau sydd ar gael yn dda (h.y. y berthynas rhwng y mewnbynnau a'r allbynnau)*

6.9 Roedd diffyg perthynas rheoli prosiect fyw ac ymatebol rhwng gweinyddiaeth y CSCDS a sefydliadau arweiniol prosiectau wedi cyfyngu ar y graddau y gellid dylanwadu ar ddefnydd effeithlon o adnoddau ar lefel prosiect.

6.10 Er nad yw'n bosibl cynnal asesiad cadarn o effeithlonrwydd y cyflawni yn hyn o beth gyda'r dystiolaeth sydd ar gael, awgryma'r meta-adolygiad, yn y rhan fwyaf o achosion, fod gan sefydliadau arweiniol prosiectau brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod mewnbynnau'n cael eu trosi'n allbynnau mor effeithlon â phosibl.

6.11 Yn hollbwysig, fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth bod defnydd Llywodraeth Cymru o systemau a phrosesau gweinyddol a oedd yn anaddas i natur a graddfa'r prosiectau a ariannwyd yn effeithio'n ddifrifol ar effeithlonrwydd y CSCDS. Roedd yn rhaid i sefydliadau arweiniol prosiectau neilltuo'r hyn a ystyrient yn swm amhriodol o amser staff ar gyfer prosesau gweinyddol y CSCDS, amser nad oedd felly ar gael i gynnal gweithgareddau prosiect oedd â chysylltiad uniongyrchol ag allbynnau. O ystyried y ffaith hon, mae'n rhaid dod i'r casgliad na wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal yr CSCDS yn effeithlon.

*Effeithiolrwydd: gwario'r adnoddau sydd ar gael yn ddoeth (h.y. y berthynas rhwng y canlyniadau bwriadedig a'r rhai gwirioneddol)*

6.12 Mae nifer o ffactorau wedi amharu ar effeithiolrwydd y CSCDS. Mae'r cyfyngiadau o ran eglurder Theori Newid y CSCDS wedi golygu na ellid nodi'n glir y canlyniadau arfaethedig ar y dechrau. Mae hyn yn gynhenid mewn cynllun fel y CSCDS sy'n ceisio ysgogi camau gweithredu o'r gwaelod i fyny i fynd i'r afael â materion a nodwyd gan randdeiliaid ar lawr gwlad. Fodd bynnag, byddai hyn wedi galw am berthynas rheoli prosiect weithredol gyda sefydliadau arweiniol.

6.13 Awgryma'r dystiolaeth nad oedd hyn yn wir. Yn gyffredinol, ystyriwyd nad oedd y mesurau allbwn a ddefnyddiwyd yn ddefnyddiol iawn i sicrhau gwir ddealltwriaeth o gynnydd ar lefel prosiect tuag at ganlyniadau arfaethedig. Ynddo'i hun, byddai hyn wedi'i gwneud yn anodd i swyddogaeth rheoli'r cynllun gynnal dealltwriaeth drylwyr o'r hyn oedd yn cael ei gyflawni gan brosiectau unigol a'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

6.14 Roedd materion yn ymwneud ag ymatebolrwydd y berthynas fonitro ac adrodd wedi gwaethygu'r broblem hon ymhellach. Mae adborth gan arweinwyr prosiectau yn awgrymu ei bod yn anodd ailbroffilio cyllidebau a gweithgareddau er mwyn gallu cyflawni allbynnau a chanlyniadau. Felly, yn ogystal â'r ffaith nad oedd gan yr SMU yr offer priodol ar gael iddi ddeall y canlyniadau a gyflawnwyd, heb sôn am ddylanwadu arnynt, nid oedd gan yr arweinwyr prosiectau eu hunain ychwaith y sgôp i addasu i amgylchiadau newidiol.

6.15 Er gwaethaf hyn, mae'r ymchwil a wnaed ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi nodi ei bod yn ymddangos bod y prosiectau a ariannwyd o dan y CSCDS wedi sicrhau canlyniadau cryf o natur amrywiol iawn. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau wedi bod yn archwiliadol ac arloesol eu natur, gyda ffocws ar dreialu gweithgareddau newydd a chynhyrchu a rhannu gwybodaeth. Mae effeithiolrwydd y CSCDS yn dibynnu ar y canlyniadau a ddefnyddir wrth weithio tuag at gydweithredu parhaol mewn economïau gwledig yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, mae gwireddu gwerth llawn buddsoddiad y CSCDS yn dibynnu ar gamau pellach yn cael eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau a'r effeithiau mwyaf posibl.

6.16 Awgryma'r dystiolaeth fod unrhyw groesffrwythloni effeithiol rhwng prosiectau (a'r tu allan i'r CSCDS) wedi digwydd mewn pocedi bychain yn unig hyd yma. Felly ni wireddwyd eto werth strategol llawn prosiectau'r CSCDS, sef y graddau y gallant gataleiddio newid ehangach a thymor hwy yn economïau gwledig Cymru.

6.17 Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu, heb fesurau ychwanegol i hwyluso'r gwaith o ddosbarthu a phrif ffrydio canlyniadau, y bydd effeithiolrwydd buddsoddiad y CSCDS yn dioddef. Hyd yn hyn nid yw'r canlyniadau wedi'u bwydo'n effeithiol i agendâu llunio polisïau ac agendâu strategaeth Llywodraeth Cymru na'u rhannu â grŵp ehangach o fuddiolwyr y tu hwnt i gyfranogwyr uniongyrchol y prosiectau.

*Tegwch: (equity) gwario'r adnoddau sydd ar gael yn deg (h.y. i ba raddau y maent yn cyrraedd ac ar gael i'r grŵp targed bwriadedig)*

6.18 Nid yw'r casgliad ynghylch cyrhaeddiad y CSCDS i'r grwpiau targed arfaethedig yn gwbl glir. Mae'r garfan o brosiectau a ariennir yn cynnwys amrywiaeth sylweddol o ran y math o sefydliad a'u sector gweithgarwch, ac mae prosiectau'n cwmpasu ystod eang o feysydd thematig. Ymddengys bod hyn yn awgrymu bod gan y CSCDS hygyrchedd da. Cafwyd awgrymiadau hefyd, fodd bynnag, y byddai'r costau a'r prosesau gweinyddol wedi bod yn ormod i lawer o sefydliadau, gan gyfyngu ar hygyrchedd y CSCDS. Mae adborth rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu mai ychydig iawn o welededd oedd gan y gweithgaredd allgymorth a marchnata a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun. Yn olaf, ymddengys bod llawer o ymgeiswyr llwyddiannus CSCDS wedi cymryd rhan o'r blaen yn yr RDP neu weithgareddau eraill a ariennir gan Ewrop. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch cyrhaeddiad a chwmpas grŵp targed ehangach y cynllun.

6.19 Yn ogystal, er mwyn asesu cyrhaeddiad a chwmpas CSCDS byddai angen diffiniad clir o'r grwpiau targed arfaethedig. Awgryma'r cyfweliadau bod hyn yn parhau i gael ei gwestiynu ymhlith gwahanol sefydliadau sydd â budd yn y CSCDS. Mynegodd sefydliadau ffermio, er enghraifft, ddisgwyliadau gwahanol iawn i rai asiantaethau datblygu cymunedol o ran pwy ddylai fod yn brif fuddiolwyr buddsoddiad y CSCDS. Heb unrhyw afael strategol clir ar gyfer y cynllun, nid oes dealltwriaeth gyffredin o'r union ysgogiadau i gryfhau economïau gwledig. Roedd y sector amaethyddol wedi codi amheuon am y gallu i gyrraedd carfannau ehangach o fuddiolwyr posibl y tu hwnt i gyfranogwyr y prosiect eu hunain, yn ogystal ag ehangu'r cynllun i faes adfywio cymunedol. Felly byddai angen sail resymegol lawer cliriach y tu ôl i'r dewisiadau buddsoddi a wneir er mwyn i gyflawniadau'r CSCDS gael eu gweld yn rhai teg.

*Cost-effeithiolrwydd: sicrhau canlyniadau cymesur ar gyfer cyfanswm y gost (h.y. canlyniad neu effaith mewn perthynas â chyfanswm y gost – a oedd yn werth ei wneud?).*

6.20 Roedd cytundeb eang ymhlith rhanddeiliaid bod angen darparu cyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol, arloesol nad ydynt wedi'u fframio'n gyfan gwbl gan sail resymegol fasnachol. Nododd y meta-adolygiad ddigonedd o enghreifftiau o ganlyniadau prosiect cryf, boed ar ffurf cynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd, creu gwybodaeth a dysgu newydd, neu o ran perthnasoedd cydweithredol newydd. Fel yr awgrymwyd uchod ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, dim ond os caiff ei rhannu'n ehangach bydd y wybodaeth hon wedi'i chreu mewn ffordd gost-effeithiol.

**Asesiad cyffredinol o werth am arian**

6.21 I grynhoi, ni fu'n bosibl sefydlu ffordd glir o asesu'r Gwerth am Arian a gafwyd gan y CSCDS. Mae hyn o ganlyniad i ddiffyg eglurder yn y Theori Newid ar gyfer y cynllun ynghyd â diffygion yn rheolaeth y cynllun.

6.22 Ymddengys fod y cynllun wedi cefnogi rhai gweithgareddau sydd, yn unol â'r weledigaeth ar gyfer y cynllun, wedi caniatáu i fusnesau, sefydliadau a chymunedau gydweithio i wneud i bethau newydd ddigwydd. Fodd bynnag, heb arweiniad strategol cliriach, neu o leiaf ymgysylltu â phrosiectau, nid yw'r cynllun wedi gallu deall na gwneud y mwyaf o'r gwerth a gyflawnwyd.

6.23 Ochr yn ochr â hyn, ymddengys bod y dystiolaeth yn awgrymu'n glir iawn fod y baich gweinyddol gormodol a roddwyd ar brosiectau wedi lleihau gwerth am arian y cynllun, gydag adnoddau sylweddol yn cael eu dyrannu i weithgareddau gweinyddol.

6.24 Mae hi hyd yn oed yn llai clir i ba raddau y bydd gwerth tymor hwy yn cael ei gyflawni. Er ei bod yn ymddangos bod y gweithgareddau a ariennir drwy'r CSCDS wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i economïau gwledig yng Nghymru, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddeall i ba raddau y mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd wedi meithrin gallu a chadernid sefydliadol.

6.25 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n glir iawn, o leiaf, bod angen camau pellach i wireddu'r gwerth hirdymor ac i sicrhau y gall y potensial i ysgogi llesiant cymunedol,

cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, arloesi a chydweithio ddwyn ffrwyth.

6.26 Yn olaf, yn sgil y profiad anodd y mae llawer o sefydliadau arweiniol prosiectau wedi'i gael gyda phrosesau gweinyddol y CSCDS, mae posibilrwydd y gall y math hwn o gynllun fod yn gyllid dewis olaf un i'r sefydliadau hynny sy'n gallu darparu ar gyfer prosesau o'r fath, tra'n eithrio sefydliadau llai o faint sydd â llai o adnoddau a chapasiti. Bydd hyn yn cyfyngu ymhellach ar y gwerth tymor hwy a gynhyrchir.

## 7. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

7.1 Mae'r adran hon yn tynnu ar y drafodaeth yn yr adroddiad i nodi'r gwersi allweddol a ddysgwyd a chynnig argymhellion yn gysylltiedig â hynny. Mae'n bwysig nodi bod yr heriau amseru a methodolegol a wynebwyd wrth gynnal y gwerthusiad hwn wedi golygu y gall y canfyddiadau a'r casgliadau fod o natur ddangosol yn unig. Fodd bynnag, daw sawl mewnwelediad allweddol i'r amlwg a'r rheiny wedi'u cefnogi gan gysondeb y dystiolaeth sydd ar gael.

7.2 Mae'r safbwynt Gwerth am Arian wedi'i ddefnyddio fel y prif lens ar gyfer pob argymhelliad. Er na ellir cynnig asesiad cadarn o'r gwerth gwirioneddol a ddarparwyd gan y CSCDS, eto wrth bwyso a mesur y canfyddiadau fel y'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae modd cysylltu casgliad o wersi a ddysgwyd â thri phrif gam, sef:

- marchnata'r cynllun a chymorth i ddatblygu prosiectau
- rheoli prosiectau a'r adrodd arnynt
- gwneud y gorau posibl o ganlyniadau ac effeithiau prosiectau.

**Marchnata'r cynllun a chymorth i ddatblygu prosiectau**

*Gwers a ddysgwyd 1*

7.3 Mae gan gynllun fel y CSCDS botensial strategol sylweddol ar gyfer economïau gwledig Cymru. Fodd bynnag, gwelwyd bod defnyddio cydweddiad strategol fel maen prawf ar gyfer asesu gwerth strategol cynigion prosiect ar ôl i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno yn rhy adweithiol i gael y gwerth gorau posibl. Yn lle hynny, gallai'r mewnwelediadau strategol sydd gan adrannau polisi Llywodraeth Cymru, o'u defnyddio'n dda, ddarparu cyfeiriad strategol pwysig i sicrhau bod y garfan o brosiectau sy'n cael cyllid yn cyfrannu'n effeithiol at amcanion strategol a nodwyd.

7.4 Mae gwneud hynny mewn modd effeithiol yn dibynnu'n hollbwysig ar sicrhau cydbwysedd priodol rhwng fframio strategol y cynllun cyffredinol, allgymorth effeithiol i ymgysylltu â thrawstoriad eang o fuddiolwyr posibl, ac eglurder amcanion strategol penodol:

- mae angen i fframio strategol y cynllun yn ei gyfanrwydd gyfleu'n glir sut yr ystyrir bod gweithgareddau cydweithredu a datblygu, profi a threialu neu

arddangos cynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd yn bwysig mewn gwahanol sectorau a meysydd gweithgaredd

- mae angen i weithgareddau allgymorth allu cyrraedd ac ymgysylltu â'r rheini sy'n cynnig gwir safbwynt ymarferol ar lawr gwlad ar faterion strategol y mae sefydliadau yn economïau gwledig Cymru yn eu hwynebu
- ar y sail hon y gall cyfranogiad gweithredol timau polisi Llywodraeth Cymru fyfyrio ar amcanion strategol, a'u cyfoethogi, ac wedyn eu cymhwyso wrth ddatblygu a dethol prosiectau.

| | |
|---|---|
| 7.5 | **Argymhelliad 1:** Dylid sicrhau bod gweithgareddau allgymorth yn cael eu hysgogi er mwyn i fewnwelediadau strategol timau polisi Llywodraeth Cymru gyfuno â safbwyntiau ar lawr gwlad er mwyn sicrhau y gall amcanion strategol clir arwain datblygiad a dewis prosiectau. |

*Gwers a ddysgwyd 2*

7.6 Er bod Mesur 16 i fod i gynnwys sefydliadau gwledig amrywiol mewn gweithgareddau cydweithredu, mae adborth rhanddeiliaid yn awgrymu ei bod yn annhebygol y byddai gan sefydliadau bach y sefyllfa ariannol a'r gallu gweinyddol angenrheidiol i ddatblygu a chynnal prosiect o dan y math hwn o gynllun. O ganlyniad, mae grwpiau targed buddiolwyr terfynol yn dibynnu ar sefydliadau mwy o faint i ddarparu capasiti o'r fath a gweithredu fel corff arweiniol ar gyfer prosiectau. Mae'r meta-adolygiad wedi dangos pwysigrwydd proffil a chymhellion sefydliadau arweiniol, cynllunio prosiectau, a natur y rhyngweithio â buddiolwyr yn y cyd-destun hwn.

7.7 Mae cam datblygu'r prosiect, felly, yn allweddol bwysig wrth osod prosiectau ar gyfer llwyddiant neu fethiant. Ar y cam hwn y gellir sicrhau cydweddiad da rhwng cymhelliant ac arbenigedd y sefydliad arweiniol ac union anghenion buddiolwyr, a gellir datblygu cynllun prosiect cadarn a all sicrhau canlyniadau diriaethol yn erbyn amcanion strategol ar gyfer yr economi wledig ehangach yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| 7.8 | **Argymhelliad 2:** Dylid canolbwyntio sylw ac adnoddau ar rôl ragweithiol rheoli'r cynllun yn ystod y cam datblygu prosiectau, gan ddarparu arweiniad a chefnogaeth a chynnig swyddogaeth herio ar gyfer rhesymeg a dulliau gweithredu prosiectau. |

**Rheoli prosiectau a'r adrodd arnynt**

*Gwers a ddysgwyd 3*

7.9 Roedd adborth rhanddeiliaid yn gyson yn sôn am y ffaith nad oedd y prosesau a'r systemau gweinyddol a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhyngweithio rhwng rheoli'r rhaglen CSCDS a phrosiectau unigol yn briodol ar gyfer natur a graddfa'r math o brosiectau a gefnogwyd drwy'r cynllun. Roedd y materion y daethpwyd ar eu traws yn cynnwys:

- oedi wrth gymeradwyo prosiectau ynghyd â diffyg hyblygrwydd wrth ailstrwythuro cynlluniau prosiect mewn ymateb i'r oedi hwnnw
- diffyg mynediad at gyngor a chymorth priodol
- proses hawlio feichus.

7.10 Ystyriwyd felly fod elfennau rheoli'r rhaglen yn wendid allweddol yng nghynllun y CSCDS. Yn benodol, beirniadwyd y broses hawlio yn gryf am fod yn rhy anhyblyg, yn anhryloyw ac angen llawer o adnoddau. Roedd newidiadau ôl-weithredol i feini prawf cydymffurfio a newidiadau i'r dystiolaeth oedd angen eu darparu wedi gwaethygu'r mater hwn ymhellach. Y farn gyffredinol a gododd oedd bod yr anghydweddu hwn yn her ddifrifol i'r gwerth am arian cyffredinol y gellir ei ddarparu gan gynllun fel y CSCDS.

7.11 **Argymhelliad 3:** Dylid sicrhau bod yr holl brosesau gweinyddol a fabwysiedir ar gyfer cynllun fel y CSCDS yn gymesur â chapasiti'r grŵp targed a natur a graddfa'r prosiectau a ragwelir. Mae'n hanfodol osgoi newidiadau ôl-weithredol i brosesau hawlio a rheoli ariannol.

*Gwers a ddysgwyd 4*

7.12 Mae'r ymchwil a wnaed ar gyfer y gwerthusiad hwn yn cadarnhau disgwyliad rhanddeiliaid ar gyfer rhaglen fel y CSCDS i ddarparu corff cydategol o brosiectau strategol a all gyda'i gilydd hybu economïau gwledig Cymru. Er bod tystiolaeth bod rheolaeth fewnol ar y cynllun wedi canolbwyntio ar ddeall elfennau cyfatebol rhwng prosiectau ac osgoi dyblygu, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi bod yn ddigon i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr prosiectau eu hunain, yn teimlo'n gryf iawn bod cyfle wedi'i golli i drafod canlyniadau prosiectau fel rhan o berthynas adrodd y CSCDS neu eu rhannu'n helaeth â grŵp

ehangach o sefydliadau. Gwelwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cael mewnwelediadau mwy cyflawn, ymgysylltu â grŵp ehangach o fuddiolwyr posibl, a chynhyrchu momentwm strategol mewn gwahanol feysydd gweithgarwch.

7.13 **Argymhelliad 4:** Dylid defnyddio proses adrodd sy'n seiliedig ar berthynas ac sydd â digon o gapasiti ac adnoddau i ystyried cynnydd prosiectau, nodi synergeddau posibl rhwng prosiectau wrth iddynt ddatblygu, a sicrhau parhad ymgysylltiad strategol trwy hwyluso rhyngweithio rhwng prosiectau a ariennir o dan gynllun fel y CSCDS. Mae angen i reolaeth Llywodraeth Cymru ar gynllun fel y CSCDS ymgorffori swyddogaeth cymorth a hwyluso i gael y gorau posibl o'r gwerth am arian cyffredinol y gellir ei gyflawni gan y garfan lawn o brosiectau.

**Gwneud y gorau posibl o ganlyniadau ac effeithiau prosiectau**

*Gwers a ddysgwyd 5*

7.14 Er bod tystiolaeth glir bod llawer o brosiectau'r CSCDS yn ymgysylltu'n effeithiol â buddiolwyr uniongyrchol prosiectau, mae'r meta-adolygiad a chyfweliadau â rhanddeiliaid hefyd yn dangos mai anaml y cafodd prosiectau'r CSCDS unigol unrhyw sylw gan grŵp targed ehangach o sefydliadau â diddordeb. Ac eto, er mwyn sicrhau gwerth am arian llawn o'r ymyriadau, dyma'n union beth fyddai ei angen.

7.15 **Argymhelliad 5:** Dylid trefnu gweithgareddau lledaenu a rhwydweithio ychwanegol i rannu'r canlyniadau a'r mewnwelediadau a gafwyd o brosiectau'r CSCDS a'u gwneud ar gael i brosiectau eraill ac i garfan ehangach o fuddiolwyr posibl mewn gwahanol sectorau a meysydd gweithgarwch.

*Gwers a ddysgwyd 6*

7.16 Mae'r meta-adolygiad a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu'n glir, yn unol â natur beilot y gweithgareddau a ariennir, fod mwyafrif o brosiectau'r CSCDS wedi cyflawni canlyniadau canolradd yn hytrach na chael effaith uniongyrchol, mesuradwy ar fuddiolwyr uniongyrchol neu garfan ehangach o sefydliadau mewn economïau gwledig yng Nghymru.

7.17 Bydd sicrhau'r gwerth am arian llawn o fuddsoddiad y CSCDS felly yn dibynnu ar sicrhau y gall cymunedau gwledig Cymru fanteisio'n llawn ar ganlyniadau prosiectau a bod dysgu o'r prosiectau a gefnogir yn cael ei roi ar waith. Mewn llawer o achosion, bydd angen buddsoddiadau strategol ychwanegol ar gyfer camau

pellach sy’n gysylltiedig â sicrhau bod cynhyrchion, prosesau, arferion neu dechnolegau newydd yn dwyn ffrwyth. Mewn eraill, ar y llaw arall, bydd angen defnyddio’r hyn a ddysgir o brosiectau i lywio gweithgarwch pellach yn y sectorau a’r meysydd gweithgarwch priodol.

7.18 **Argymhelliad 6:** Y tu hwnt i ffocws ar strategaeth ymadael ar gyfer prosiectau unigol, dylid sicrhau bod gwaith cau prosiectau yn cynnwys ystyriaeth fanwl o ganlyniadau prosiectau ac unrhyw ofynion i sicrhau eu bod yn cyflawni’r canlyniadau a’r effeithiau a ragwelwyd.